Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 25ain Ebrill, 2017 |
| **AMSER** | 2.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2017 | | | 3 - 10 |
| 6 | ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2017 - 2022 | Cyng. / Cllr Mair Rowlands | Rachel Jones | 11 - 167 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

Eitem 6 - 8: Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol), Dylan Griffiths (Rheolwr Strategaeth a Datblygu), Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal Bangor).
Eitem 13: Cyng. Charles W Jones a Dafydd Williams (Pennaeth Rheoleiddio).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd W. Gareth Roberts a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant gan y Cynghorydd Gareth Thomas ar gyfer eitem 6 gan fod ganddo berthynas yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgell. Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MAWRTH 2017

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 7fed Mawrth, 2017, fel rhai cywir.

## 6. PEIRIANNAU HUNANWASANAETH LLYFRGELLOEDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cais am £74,412 o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer prynu ac mewn osod 9 peiriant hunan wasanaeth yn y 9 prif lyfrgell.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod y Cabinet wedi mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau 2016-2020" ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell, sydd yn arwain at newid yn y ddarpariaeth lyfrgell drwy symud o ddarparu 17 llyfrgell i 9 brif lyfrgell.

Mae trafodaeth wedi bod gyda defnyddwyr gwasanaeth y Llyfrgelloedd ac maent wedi nodi eu bod eisiau hwyluso eu hymweliad. Bydd y peiriannau yn rhoi mwy o amser i staff i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth. Pwysleisiwyd mai nod y cynllun oedd codi safon y gwasanaeth yn hytrach na gwneud unrhyw arbedion. Nodwyd fod dau beiriant hunan wasanaeth ar gael yn sir ar hyn o bryd sydd wedi dangos gwerth y peiriannau i'r gwasanaeth.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd os bydd defnyddio'r peiriannau hunanwasanaeth yn orfodol, ond nodwyd y bydd staff ar gael er mwyn gwneud y gwaith yn ogystal os bydd yr angen yn codi.
- Nodwyd y bydd yn moderneiddio'r gwasanaethau a hyrwyddo mynediad i wasanaethau.
- Nodwyd fod yr hen beiriannau yn dod i ddiwedd ei hoes, ac felly ni fydd modd eu defnyddio mewn lleoliadau eraill ond byddant yn cael ei ailgylchu.

## 7. CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 - CEISIADAU AM ADNODDAU YCHWANEGOL

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Ioan Thomas a Cyng. Mandy Williams-Davies

**PENDERFYNWYD**

I. Ymrwymo £121,255 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer ymestyn y cynllun 'Cydymdrechu yn erbyn Tlodi' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.
II. Ymrwymo £117,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer ymestyn y cynllun 'Swyddi Gwrth Uchel ac o Ansawdd' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.
III. Ymrwymo £23,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer ymestyn Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.

IV. Ymrwymo £42,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer ymestyn y cynllun 'Digwyddiadau Proffil Uchel a Strategol' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.

**TRAFODAETH**

Ar gyfer yr holl gynlluniau darparodd yr aelod cabinet perthnasol wybodaeth ar lafar ynglŷn â faint o adnodd a ddarparwyd ar gyfer y cynlluniau yma yn y gorffennol a faint oedd ar ôl yn parhau i'w wario.

I. Nodwyd fod yr adroddiad yn pwysleisio'r prif ddeilliannau a gweithgareddau sydd o Gynllun Cydymdrechu yn erbyn tlodi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn dilyn trafodaethau gyda phartneriaid, nodwyd fod ffigyrau yn yr argymhelliad wedi newid i'r hyn sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

   Mynegwyd fod y cynllun yn cynnwys rhaglen o ymyraethau sy'n cynnwys darparu sgiliau i ymdopi a rheoli incwm, sgiliau i gael mynediad at wybodaeth a mynediad ar waith ac i atal segurdod economaidd.

   Sylwadau o'r drafodaeth

   - Trafodwyd rheswm dros y llithriad o bron i £74,000 a ddylid fod wedi ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol. Nodwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod cais am arian wedi mynd i Gronfa'r Loteri gan y partneriaid a'u bod yn parhau i aros am yr ymateb gan y gronfa.

I. Mynegwyd fod budd mewn codi ymwybyddiaeth i'r swyddi gwerth uchel ac amlygu fod angen y gefnogaeth o fewn y sir. Nodwyd fod newid i'r ffigyrau yn yr argymhelliad o'i gymharu â'r hyn sydd wedi ei nodi yn ar adroddiad.

   Sylwadau o'r drafodaeth

   - Nodwyd fod twf mewn pobl ifanc sy'n cychwyn busnesau yn y sir a phwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi'r busnesau yma.

II. Mynegwyd fod y Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig yn un sy'n rhoi cyfleoedd cyffroes yn yr ardal ac yn un sy'n bwysig iawn i'r ardal. Nodwyd fod angen y cyllid er mwyn parhau'r cynllun am flwyddyn ychwanegol.

   Sylwadau'r o'r drafodaeth

   - Nodwyd mai arian Ewropeaidd yw'r arian hwn, ac mae'n tanlinellu'r risgiau mwyaf o adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfnod heriol yn wynebu'r Cyngor wrth edrych ar arian Ewropeaidd, ond mae cyfle i'r prosiect hwn barhau am flwyddyn ychwanegol.

III. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi digwyddiadau proffil uchel ac mae'n gyfle i gydweithio ac mewn partneriaeth â mudiadau eraill. Nodwyd fod

angen i'r Cyngor newydd gael trafodaeth ar beth a ystyrir yn waith craidd adrannau a beth sy'n brosiectau.

Sylwadau o'r drafodaeth

- Nid yr arian sy'n bwysig wrth edrych ar y prosiect yma ond y gefnogaeth a'r profiad sy'n cael ei gynnig gan yr adran i'r cwmnïau sy'n trefnu digwyddiadau.
- Nodwyd hefyd fod y digwyddiadau yma yn rhan o godi ymwybyddiaeth am y sir, ac yn rhoi budd economaidd.

## 8. CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 P9 POBL IFANC A'R DERFNYDD O'R GYMRAEG YN GYMDEITHASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Ymrwymo £40,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio er mwyn gweithredu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn arwain at gynnydd pellach mewn defnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod y Siarter Iaith Gynradd wedi ennill ei blwy yn Genedlaethol. Wedi iddo fod yn brosiect arloesol yng Ngwynedd, erbyn hyn mae wedi ei ledaenu yn Genedlaethol. Bellach mae'r plant mewn ysgolion cynradd oedd yn manteisio o'r Siarter yn symud i ysgolion uwchradd. Nodwyd fod cwmni Trywydd wedi paratoi adroddiad yn edrych ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn yr ysgolion uwchradd. Mae'r argymhellion oedd i'w gweld yn yr adroddiad hwn wedi eu hymgorffori yn y Strategaeth Iaith Uwchradd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod newid mawr yn digwydd yn gymdeithasol rhwng y Cynradd a'r Uwchradd, gyda pwysau i ddefnyddio'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Mae her sylweddol i wrthwneud hyn.
- Pwysleisiwyd fod angen dilyniant o'r Cynradd i'r Uwchradd ac mae'n gam pwysig ymlaen.
- Holwyd os oes ystyriaeth wedi bod o wneud y cam o Siarter Iaith Uwchradd i Siarter Iaith Cyflogwyr, gan mai dyma le mae'r angen am ddefnydd o'r Gymraeg (e.e. yn y siopau lleol). Mae angen rhoi'r siarter iaith yn ei gyd-destun a'i fod yn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol y Gymraeg yn gyffredinol, nid gan blant yn unig.

## 9. CYNLLUN ASEDAU'R CYNGOR 2009/10 I 2018/19

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

i. Nodi canlyniad terfynol tebygol y Cynllun Asedau 10 mlynedd
ii. Cadarnhau nad oes bellach angen £15m ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel rhan o Gynllun newydd fydd yn cael ei baratoi gan y Cyngor newydd
iii. Dynodi £200,000 adnodd na fydd bellach ei angen ar gyfer ariannu benthyca heb gefnogaeth i gwrdd â'r bwlch yn ein harbedion ar gyfer 2016/17
iv. Defnyddio £800,000 o'r adnodd hefyd i atgyfnerthu'r gyllideb cynnal a chadw o 1 Ebrill 2017 gan adael y gweddill i'r Cyngor newydd ei ystyried wrth drafod arbedion a chynllun asedau'r dyfodol.

**TRAFODAETH**

Yn 2009 yn dilyn asesiad o anghenion gwariant Cyfalaf y Cyngor, ac o ganlyniad i nad oedd digon o adnoddau gan y Cyngor i gyfarch holl anghenion cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau'r Cyngor i geisio sefydlu beth oedd blaenoriaethau cyfalaf y Cyngor am y 10 mlynedd i ddod. O ganlyniad i hyn sefydlwyd Cynllun Asedau'r Cyngor, a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Nodwyd ei fod yn gynllun hanfodol pwysig a bod disgwyl i'r cyngor newydd greu cynllun yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer 2018/19 - 2027/28. Nodwyd mai adroddiad er mwyn adrodd yn ôl a chau pen y mwdwl ar rai agweddau o'r cynllun gwreiddiol. Dros gyfnod y Cynllun roedd y Cynllun yn rhagweld gwariant cyfalaf dros 10 mlynedd o £143.8m.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Wedi bod yn gynllun da sydd wedi caniatâd i fuddsoddi yn y maes ysgolion. Gwaith pwysig wedi ei gyflawni a gwaith pwysig yn parhau i gael ei wneud.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNWYD**

I. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
II. Cymeradwyo i ail broffilio gwireddu cynllun Clwb Brecwast Plant Ysgolion Cynradd, gan fu llithriad yn yr amser gwireddu. Bydd angen llithro £41,7000 i'w wireddu yn 2018/19.

**TRAFODAETH**

Yn dilyn craffu a dadansoddi perfformiad yn ystod yr haf, mae codi safonau

Cyfnod Sylfaen wedi ei bwysleisio fel blaenoriaeth. Mae'r Bwrdd Ansawdd Sirol yn parhau i fynd rhagddi ac yn dangos cynnydd.

Nodwyd mai dim ond dwy ysgol sydd mewn unrhyw gategori dilyniant ar hyn o bryd a dim ond dwy ysgol mewn categori coch. Mynegwyd bellach nad oes un ysgol mewn category statudol a dim ond dwy ysgol sydd mewn categori Monitro Estyn, mae'r ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd disgwyliedig ar y cyflymder priodol.

Nodwyd fod gwaith ar Ysgol Bro Idris ac Ysgol Glancegin yn mynd rhagddo. Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraethwyr am statws ysgol dalgylch Y Bala.

Pwysleisiwyd fod dwy ysgol wedi cael ei gwobrwyo gan Estyn am ei rhagoriaeth sef Ysgol Cae Top ac Ysgol Morfa Nefyn a bu i Cyng. Gareth Thomas longyfarch y ddwy ysgol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y maes, ac mae newid wedi bod mewn diwylliant. Mae gwell eglurdeb wrth edrych ar eglurdeb a disgwyliadau.

Dymunwyd yn dda i'r Pennaeth Addysg sydd yn gadael ei swydd bresennol i fynd i weithio fel Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, a diolchwyd yn fawr am ei waith.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng.  Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

i. Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn adroddiad
ii. Cymeradwywyd ail broffilio'r Cynllun Arbedion yng nghyllideb y Crwner (DaCh13) i 2018/19 yn hytrach 2017/18 fel y bwriad gwreiddiol a amlinellir ym mhwynt 6.2 yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod gwaith hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau yn mynd rhagddi ym Mangor, Dolgellau a Porthmadog. Mae'n rhaglen waith sydd wedi ei chyd gytuno gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r gwaith drwy Hunaniaith. Mae trafodaeth wedi ei gynnal gyda'r Gweinidog er mwyn trafod y syniad o gael datblygu cynlluniau ei hunain, gan fod yr ardal yn wahanol i eraill gan fod mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Nodwyd fod arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ei gwireddu ac mae un llithriad sef Arbedion yng nghyllideb y Crwner sydd gyfwerth â £13,795.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd gyda mesurau perfformio fod nifer pobl Gwynedd sy'n fodlon â

gwybodaeth am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol yn 54%. Mynegwyd ei fod yn isel i feddwl fod Her Gwynedd wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae angen parhau'r gwaith yma a meddwl sut i godi ymwybyddiaeth gydag amrywiaeth o bobl.

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:

14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â manylion cytundeb a threfniadau gwerthiant nad yw'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried yn eithriedig yn unol â chategori 14, gan ei fod yn wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn penodol. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.

## 13. TIR YN LLANRUG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Addysg i brynu llain o dir yn Llanrug ac yn sgil y pryniant, rheolaeth briodol o'r safle, yn unol ar adroddiad.

**TRAFODAETH**

Mae cyfle wedi codi i brynu safle yn Llanrug at ddibenion addysg all gyfrannu at ehangu opsiynau ar gyfer cynllunio addysg i'r dyfodol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nododd yr Aelod Lleol Cyng. Charles Wyn Jones fod cefnogaeth yn lleol i brynu'r tir.
- Pwysleisiwyd 'mai prynu tir ar gyfer y dyfodol mae'r Cyngor ac nid oes cynllun penodol ar hyn o bryd

Mynegwyd fod angen rheolaeth gywir o'r tir ar ôl ei brynu

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.45 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Ebrill 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Rachel Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 678824** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-22** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1. I gymeradwyo'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-22 ar gyfer ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru.

2. I ddefnyddio adnoddau a chyllid presennol i fynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd yn yr Asesiad, ac i ddatblygu gofal plant ychwanegol lle bo angen, yn unol ar cynllun gweithredu.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, a wnaed dan adran 26 o Ddeddf 2006, yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn paratoi asesiadau o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant (Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal ac yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.
Mae'n ofynnol i gyhoeddi Asesiad drafft ar wefan yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 28 diwrnod i roi digon o amser a chyfle i'r unigolion a'r grwpiau sydd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad wneud sylwadau.
Yn dilyn hyn bydd angen i'r Awdurdod Lleol adolygu'r ddogfen cyn cyhoeddi'r Asesiad terfynol ar wefan yr Awdurdod.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae Deddf Gofal Plant 2006 (Deddf 2006) yn egluro ac yn ymhelaethu, mewn deddfwriaeth, ar y rôl allweddol a chwaraeir gan Awdurdodau Lleol fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae Awdurdodau Lleol eisoes yn gweithio ynddo - mewn partneriaeth â'r sector preifat, y sector gwirfoddol, y sector annibynnol, y sector cymunedol a'r sector a gynhelir - i lunio a sicrhau gwasanaethau plant, ac mae'n canolbwyntio'n arbennig ar ddarparu'r canlynol:

- gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni; a
- gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am blentyn, yn ymwneud â gofal plant.

Mae adran 22 Deddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal er mwyn iddynt allu:

- derbyn, neu aros, mewn gwaith; neu
- ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant a allai fod yn rhesymol debygol o'u cynorthwyo i gael gwaith.

Mae'r Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan adran 26 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant ar gyfer eu hardal. Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi'r broses a'r cylch cynllunio, y gofynion ymgynghori a chyhoeddi, gan gynnwys manylion am yr wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys yn yr asesiad. Mae hwn yn gam angenrheidiol i sicrhau darpariaeth ddigonol, gan alluogi Awdurdodau Lleol i nodi bylchau a sefydlu cynlluniau i ddiwallu anghenion rhieni.

Mae cydraddoldeb wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r holiadur rhieni, yn ystod yr ymgynghoriadau ac wrth lunio'r Asesiad.

Gweler Atodiad 1 – Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Gwynedd 2017-22

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn ymateb i ddyletswydd Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Gofal Plant 2006.

Mae'r cynllun gweithredu yn ymateb i'r bylchau sydd wedi eu hadnabod o fewn yr Asesiad.
Mae trefn bendant mewn lle i sicrhau ymateb i'r gofynion isod o fewn y Canllawiau Statudol Gofal Plant:
O dan y ddyletswydd i sicrhau darpariaeth gofal plant digonol, dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, sy'n dileu'r diffygion ac yn cynnal y cryfderau a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant. Dylid adolygu'r Cynllun Gweithredu yn barhaus, a'i ddiweddaru ac adrodd arno yn flynyddol trwy gyfrwng adroddiad cynnydd. Bob blwyddyn dylai Awdurdodau Lleol anelu am welliant parhaus o ran sicrhau digon o ddarpariaeth gofal plant.

Mae cyllideb ganolog Gofal Plant a Grant Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio i'r diben yma.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Cynllun Gweithredu i Weinidogion Cymru erbyn y 30ain o Ebrill 2017, gydag Adroddiadau Cynnydd yn cael eu cyflwyno yn flynyddol ar ôl hynny.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Wrth lunio'r Asesiad bu ymgynghori gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol, sefydliadau ac asiantaethau sy'n bartneriaid. Mae'r manylion i'w

weld ar dudalenau 6-8 o’r Asesiad.

Bu canlyniadau’r ymgynghoriadau yn allweddol wrth lunio’r Asesiad.

**Sylwadau Swyddog Monitro**

Mae’r argymhellion yn cyfarch gofyn statudol yn unol â Deddf Gofal Plant 2006 i adolygu darpariaeth gofal plant yn y Sir ac i adrodd ar hyn i’r Llywodraeth. Mae’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau o amgylch y gofyn yn sefydlu gofynion penodol ar gyfer y gwaith yma gan gynnwys ymgymryd â phroses ymgynghorol. Mae hefyd yn ofyn statudol mabwysiadu cynllun gweithredu sydd yn ymateb i’r asesiad a chyfeirir at hyn yn benodol yn yr ail argymhelliad.

Materion Cydraddoldeb

Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi sylw i effaith penderfyniadau ar faterion a hawliau cydraddoldeb.

Mae cydraddoldeb wedi derbyn sylw penodol wrth yn yr holiadur rhieni, yn ystod yr ymgynghoriadau ac wrth lunio’r Asesiad.

**Sylwadau Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r penderfyniad a geisir mewn dau gymal, a diau fydd aelodau’n rhoi sylw i’r rhan gyntaf, sef y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu (daw’r Asesiad a’r cynllun gweithredu i’r Cabinet am gymeradwyaeth cyn ei gyflwyno’n ffurfiol i’r Llywodraeth). Pe bai’r Cabinet yn cymeradwyo’r bylchau rheiny argymhellir eu cyfarch, yna cadarnhaf (fel dywedai ail gymal y penderfyniad) fod adnoddau a chyllid eisoes oddi fewn i gyllideb refeniw Uned Blynyddoedd Cynnar yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer y cynllun gweithredu arfaethedig i ddatblygu gofal plant ychwanegol.

Mae’r adnoddau yn y gyllideb ‘Deddf Gofal Plant 2006’ (cyllideb o £119,650 sydd eisoes wedi’i ariannu yng nghyllideb 2017-18 y Cyngor) a’r ‘Grant Gofal Plant Tu Allan i’r Ysgol’ (cyllideb o £84,540 yn 2017-18 i’w ariannu drwy grant penodol sydd ar gael i’r perwyl hyn oddi wrth Lywodraeth Cymru), felly ni fydd gweithredu’r cynllun ger bron yn golygu ymrwymiad ariannol ychwanegol.

**Sylwadau’r Prif Weithredwr**

Fel sy’n amlwg o’r adroddiad, mae gofyn statudol ar y Cyngor i gynnal yr arolwg hwn. Gan bod cadarnhad wedi ei roi bod yr holl adnoddau ar gyfer gweithredu yn eu lle, nid oes gennyf unrhyw beth i’w ychwanegu.

# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Gwynedd**

**Enw'r swyddog cyfrifol: Rachel Jones, Swyddog Datblygu Gofal Plant**
**Sioned Owen, Swyddog Gwella Ansawdd Blynyddoedd Cynnar**

**Dyddiad Cwblhau: 31 Mawrth 2017**.

DRAFT

## Prif Ddatganiad

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn dweud yn glir fod gan awdurdodau lleol Cymru rôl arweiniol i sicrhau, cyhyd a sy'n rhesymol ymarferol, digon o ofal plant i gwrdd â gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant i'w galluogi i:

- cymryd gwaith neu aros mewn gwaith; neu
- ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo eu helpu i gael gwaith.

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i sicrhau fod digon o lefydd gofal plant ar gael i ateb gofynion rhieni a gofalwyr yng Ngwynedd.
Mae gofal plant yn rhan ganolog o fywyd teuluol ac y mae'n hanfodol i'r economi. Mae rhieni angen mynediad at ofal plant o safon uchel sydd yn fforddiadwy ac yn hyblyg.

Mae'r Cyngor yn cefnogi datblygu gofal plant newydd lle mae digon o alw gan rieni, ac yn cefnogi darparwyr presennol i ofalu eu bod yn cyflwyno gofal plant cynaliadwy o ansawdd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr o bob sector – Preifat, Gwirfoddol, Annibynnol a Chynhelir.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi gwerth ar y cydweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal plant, sydd yn sicrhau y bydd gweithio cadarnhaol mewn partneriaeth i dyfu a chynnal darpariaeth safonol i gwrdd ag anghenion rhieni.

Mae angen i unrhyw bolisïau neu fentrau gan Gyngor Gwynedd neu Lywodraeth Cymru sicrhau fod gofal a lles y plant yn ganolog, yn cefnogi plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, tra hefyd yn cydbwyso anghenion rhieni, darparwyr gofal plant a chyflogwyr.

DRAFT

**1. Cynnwys**

1. Cyflwyniad / Cyd-destun
2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori
3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol
4. Poblogaeth
5. Trosolwg – Gwasanaethau, Lleoedd a Mathau o Ofal Plant
6. Y Cyflenwad o Ofal Plant
    6.1. Gwarchodwr plant
    6.2. Meithrinfa Drwy'r Dydd
    6.3. Gofal Dydd Sesiynol
    6.4. Crèches
    6.5. Gofal y tu allan i'r Ysgol
    6.6. Darpariaeth Chwarae Agored
    6.7. Nani
7. Deall Anghenion Rhieni / Gofalwyr
    7.1. Y Defnydd Presennol
    7.2. Y Galw am Ofal Plant
    7.3. Rhwystrau i Ddarparu Gofal Plant
8. Darpariaeth Addysg Feithrin am ddim a Dechrau'n Deg
9. Darpariaeth Clybiau Brecwast am ddim
10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant gyda Chymorth Cyflogwyr / Gofal Plant Di-dreth
11. Cynaliadwyedd
12. Trawsffiniol
13. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu
14. Canlyniadau'r Ymgynghoriad gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2)
15. Crynodeb – Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella
16. Cynllun Gweithredu

DRAFT

## 1. Cyflwyniad/ Cyd-destun

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Llywodraeth Leol)(Cymru) 2016 yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl allweddol sydd gan awdurdodau lleol fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn ategu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol yn gweithio ynddi eisoes - mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, cymunedol a'r un a gynhelir – i lunio a sicrhau gwasanaethau plant ac yn canoli yn benodol ar ddarparu'r canlynol:

- gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sydd yn ymateb i anghenion rhieni, a
- gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch gofal plant i rieni, darpar-rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni neu ofal am blentyn.

Mae Adran 22 Deddf 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, digon o ofal plant i gwrdd â gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant i'w galluogi i wneud y canlynol:

- cymryd gwaith neu aros mewn gwaith; neu
- ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo eu helpu i gael gwaith.

Nid yw'n fwriad mynnu bod awdurdodau lleol yn cwrdd ag anghenion gofal plant unigol pob teulu sy'n gweithio, ond sicrhau, ar lefel gymunedol, fod yr awdurdod lleol yn gweithredu yn strategol gyda'i bartneriaid i ymdrin â bylchau mewn gofal plant.

Mae gan yr awdurdod lleol rôl arweiniol i gydgordio'r ymdrech ar draws gwasanaethau i weithio ynghyd er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy o ansawdd uchel sydd yn ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd. Mae Adran 23 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant ac yn rhoi i awdurdodau lleol y pwerau sydd eu hangen i ymwneud yn effeithiol â darparwyr gofal plant i gyflawni'r ddyletswydd i sicrhau gofal plant digonol a roddir iddynt gan y Ddeddf hon.

Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan Adran 26 y Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn paratoi asesiadau o ddarpariaeth gofal plant (Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal ac i barhau i adolygu'r rhain. Mae hyn yn gam angenrheidiol i sicrhau darpariaeth ddigonol, galluogi awdurdodau lleol i adnabod bylchau a sefydlu cynlluniau i gwrdd ag anghenion rhieni.
Mae disgwyl i awdurdodau lleol gefnogi datblygiad gofal plant lle mae digon o alw gan rieni y gallai darparwr gofal plant ei redeg a bod yn gynaliadwy.

Mae gofyn i awdurdodau lleol gwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn erbyn 31 Mawrth 2017, a phob 5 mlynedd wedi hynny, gydag Adroddiad Cynnydd yn cael ei gyflwyno ar y 31 Mawrth bob blwyddyn rhwng hyn.

DRAFT

Yr hyn fu'n allweddol i Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Gwynedd yn 2017 fu'r gweithio mewn partneriaeth a'r ymgynghori a ddigwyddodd; amlinellir y rhain yn fanylach yn Adran 2.

Dyma'r prif heriau wrth gynnal yr asesiad hwn:

- sicrhau manwl-gywirdeb data Hunanasesiad Gwasanaeth (HAG) AGGCC. Dim ond 81% o ddarparwyr gofal plant Gwynedd a lenwodd eu ffurflen HAG yn haf 2016, felly nid yw'r data hwn yn rhoi'r darlun cyflawn am y Sir. Mae anghysonderau hefyd yn y data gan i ddarparwyr ddehongli rhai cwestiynau mewn ffyrdd gwahanol.
- ychydig o rieni a lenwodd yr holiadur ar-lein, gyda llawer yn dweud ei fod yn rhy faith a chymhleth. Nid oes modd felly asesu galw manwl am ofal plant ledled y Sir gyfan gyda chyn lleied o ymatebion.

Lluniwyd Cynllun Gweithredu trwy ymgynghori a'r Is-grŵp Gofal Plant, a bydd hwn yn llywio gwaith y tîm Datblygu Gofal plant y Blynyddoedd Cynnar dros y 5 mlynedd i ddod. Defnyddir cyllid o'r GCR a chyllid grant allanol yn strategol i ymdrin â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.
Gan fod Cyngor Gwynedd wedi ei enwebu i fod yn un o fabwysiadwyr cynnar y cynnig o 30 awr o ofal plant, bydd canfyddiadau allweddol yr asesiad yn hanfodol dros y blynyddoedd nesaf i weithredu'r cynnig newydd.

Bydd yr Is-grŵp Gofal Plant yn monitro'r cynnydd a wnaed yn y Cynllun Gweithredu bob chwarter.
Bydd gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau mewnol a mudiadau allanol yn hanfodol i sicrhau gwelliannau cyson i sicrhau digon o ddarpariaeth gofal plant i deuluoedd yng Ngwynedd.

Caiff yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant draft ei gyflwyno i'r Is-grŵp Gofal Plant  ac Aelodau'r Cabinet yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus 28 diwrnod cyn ei gyflwyno yn derfynol i Weinidogion Cymru.

## 2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Bu Cyngor Gwynedd yn ymgynghori yn eang ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017, gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol, sefydliadau ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu gwahodd i fynegi eu barn am ofal plant yn y Sir.
Dyma'r rhai allweddol yr ymgynghorwyd â hwy am ADGP 2017:-

**Rhieni:-** Defnyddiwyd holiadur ar-lein a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau y delir data cyson ar draws Cymru.
Postiwyd yr holiadur ar wefan yr awdurdod lleol o fis Tachwedd 2017 - Rhagfyr 2017. Anfonwyd dolenni at yr holiadur at holl staff y Cyngor, pob lleoliad gofal plant yn yr awdurdod, pob swyddog o sefydliadau ambarél gofal plant yn gweithio yn y Sir, ac athrawon cefnogi'r Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg.
Rhoddwyd taflenni yn hysbysebu'r holiadur ar-lein i'r staff yn yr Uned Blynyddoedd Cynnar / Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg / Ymwelwyr Iechyd ym mhob meddygfa yng Ngwynedd / Gwynedd-Ni (GGD) / llyfrgelloedd / sesiynau Ti a Fi. Y nod oedd targedu cymaint o rieni ag oedd modd ar draws y sir i gyd.
Cwblhawyd cyfanswm o 347 o holiaduron. Yr adborth a gafodd y Swyddog Datblygu Gofal Plant oedd bod yr holiadur yn rhy faith a chymhleth, oedd yn troi llawer o rieni ymaith rhag ei lenwi.

Datblygwyd 'Holiadur Byr i Rieni' fel atodiad, gyda 4 cwestiwn allweddol i rieni. Dosbarthwyd yr holiadur hwn i bob Swyddog Cefnogi Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i'w lenwi gyda rhieni ar eu cyrsiau hyfforddi grŵp. Llenwodd Swyddogion Chwarae a Datblygu Cynnar hefyd yr holiaduron hyn gyda'r rhieni yr oeddent yn gweithio gyda hwy.
Cynhaliwyd grŵp ffocws hefyd gydag 11 o rieni ym Mhlas Pawb.
Llenwyd cyfanswm o 48 holiadur byr.

**Darparwyr Gofal Plant:-** Darparwyd data ar gyfer yr ADGP hwn gan AGGCC i holl awdurdodau lleol Cymru. Y nod oedd cael set ddata cyson i'w defnyddio a fyddai'n rhoi darlun o'r cyflenwad gofal plant cenedlaethol yn ogystal â lleol.
Defnyddiwyd cofnod data Hunanasesiad Gwasanaeth (HAG) gan AGGCC yn haf 2016 i gasglu gwybodaeth o bob lleoliad gofal plant cofrestredig.
Yng Ngwynedd, y gyfradd ddychwelyd oedd 81% yn unig o leoliadau, nad yw'n rhoi darlun cyflawn i ni o'r cyflenwad gofal plant yn y sir. Gan mai dyma'r tro cyntaf i ddarparwyr lenwi'r HAG newydd, ymddengys fod pobl wedi camddeall naill ai'r cwestiwn a ofynnwyd, neu'r diffiniadau a ddefnyddiwyd, sydd wedi arwain at anghysonderau ym mheth o'r data.
Lle bo modd, defnyddiwyd gwybodaeth leol i ategu data HAG.

DRAFT

Hefyd, datblygwyd 'Holiadur Byr i Ddarparwyr' gyda 3 chwestiwn allweddol. Anfonwyd yr holiadur hwn at yr holl ddarparwyr gofal plant yn y sir, a'i hyrwyddo gan swyddogion y sefydliadau ambarél.
Cwblhawyd cyfanswm o 23 holiadur byr.

**Plant:-** Dosbarthwyd holiaduron i'r Clybiau Tu Allan i oriau Ysgol gan y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant i Glybiau Plant Cymru Kids Clubs.
Er mwyn annog y plant i lenwi'r holiadur, cynigiwyd gwobr o daleb Argos gwerth £10.
Cwblhawyd cyfanswm o 17 holiadur gan y plant, yn amrywio mewn oedran o 7 – 11.

**Penaethiaid Ysgolion Cynradd:-** e-bostiwyd holiadur i bob pennaeth ysgol gynradd yn y sir.
Cwblhawyd cyfanswm o 26 holiadur.

**Cyflogwyr:-** anfonwyd holiadur at nifer o gyflogwyr yn y sir.
Cwblhawyd cyfanswm o 2 holiadur.

**Sefydliadau Ambarél:-** anfonwyd holiadur at holl bartneriaid Cwlwm.
Cwblhawyd 5 holiadur.
Trafodwyd yr ADGP hefyd yng nghyfarfodydd chwarterol yr Is-grŵp Gofal Plant. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau ambarél gofal plant, y Cynllun Cyn-Ysgolion Iach, AGGCC, PaCE, Gwynedd-Ni a Dechrau'n Deg i'r holl gyfarfodydd.

**Canolfan Byd Gwaith:-** cynhaliwyd ymgynghoriadau trwy swyddogion PaCE yn y sir.

**Awdurdodau Lleol Gerllaw:-** cafodd data ynghylch plant yng Ngwynedd oedd yn cael gofal plant o'r tu allan i'r sir gydag awdurdodau gerllaw. Derbyniwyd data gan un awdurdod lleol ynghylch plant o Wynedd sy'n cyrchu gofal plant tu allan i'r sir.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau a thrafodaethau hefyd gyda'r adrannau canlynol o'r awdurdod lleol:-
Bwrdd Diogelu Plant trwy Gadeirydd Grŵp Cyflwyno Lleol Gwynedd a Môn
Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg
Adran Addysg
Adran Gynllunio
Gwynedd-Ni (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd)
Teuluoedd yn Gyntaf

DRAFT

Dechrau'n Deg
Derwen
Economi a Datblygu Cymunedol – Asesiad Digonolrwydd Chwarae

Cafodd yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori ei hel ynghyd a'i grynhoi yn adran 14.
Bu'r wybodaeth yn allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a nodi meysydd lle mae angen gwella.
Carai Cyngor Gwynedd ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

DRAFT

## 3. Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad Anghenion Llesiant Lleol

Daeth Deddf newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym yng Nghymru ar Ebrill 1 2016, ac y mae'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau sydd yn cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.

Mae saith nod llesiant yn y Ddeddf:-

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru ffyniannus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gyda diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu


Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd dros Wynedd a Môn, a'i brif dasg fydd paratoi a chyhoeddi asesiad manwl o gyflwr llesiant , economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Ngwynedd a Môn.
Wedi hyn, mae disgwyl i'r Bwrdd dros y blynyddoedd nesaf baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol i Wynedd a Môn a fydd yn pennu amcanion lleol ac yn gweithredu ar gamau i ymdrin â'r amcanion hyn a chynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol.

Dynododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 8 'Ardal Llesiant' yng Ngwynedd, ac wedi ymgynghori, penderfynwyd y bydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn defnyddio'r un 8 ardal wrth adrodd, er mwyn asio'r ddau adroddiad.
Cynhaliwyd cyfarfodydd ac ymgynghori ar y cyd gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am yr Asesiad Anghenion Llesiant, gyda'r data perthnasol yn cael ei rannu yn ôl y galw.
Bydd yr ADGP yn cadw mewn cof unrhyw argymhellion yn y Cynllun Llesiant Lleol, yn awr ac yn y dyfodol, gyda gweithio ar y cyd rhwng y naill asesiad a'r llall yn sicrhau'r deilliannau gorau i bobl Gwynedd.





DRAFT


Ardaloedd Asesiad Llesiant Gwynedd
Bangor
Y Felinheli
Pentir
Bethesda
Bethel
Deiniolen
Caernarfon
Llanberis
Talysarn
Rhyd Ddu
Penygroes
Clynnog Fawr
Beddgelert
Trefor
Bryncir
Blaenau Ffestiniog
Llanfrothen
Maentwrog
Morfa Nefyn
Llanystumdwy
Criccieth
Porthmadog
Penrhyndeudraeth
Trawsfynydd
Y Bala
Pwllheli
Harlech
Llanuwchllyn
Abersoch
Aberdaron
Dyffryn Ardudwy
Dolgellau
Bermo
Dinas Mawddwy
Fairbourne
Tal-y-Llyn
Corris
Tywyn
Aberdyfi
1
2
3
4
4
5
6
7
8
1 Ardal Bangor
2 Ardal Caernarfon
3 Ardal Llŷn
4 Ardal Porthmadog
5 Ardal Ffestiniog
6 Ardal Dolgellau
7 Ardal Penllyn
8 Ardal Tywyn
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100023387

## 4. Poblogaeth

Poblogaeth trigolion Gwynedd yn 2014 oedd 122,273, ar draws ardal o 2,535 cilomedr sgwâr. Mae hyn yn rhoi dwysedd poblogaeth yng Ngwynedd o 48  o bobl i bob km, o gymharu â 149 o bobl i bob km dros Gymru.

| | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 60,541 | 61,732 | 122,273 |
| **Cymru** | 1,521,315 | 1,570,721 | 3,092,036 |
| | | | |
| Bangor | 14,642 | 14,774 | 29,416 |
| Caernarfon | 16,103 | 16,544 | 32,647 |
| Llŷn | 9,480 | 9,613 | 19,093 |
| Porthmadog | 6,008 | 6,271 | 12,279 |
| Ffestiniog | 3,224 | 3,279 | 6,503 |
| Dolgellau | 5,225 | 5,249 | 10,474 |
| Penllyn | 2,235 | 2,210 | 4,445 |
| Tywyn | 3,624 | 3,792 | 7,416 |

*Ffynhonnell – cyfrifwyd o 'Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2014 am 2014 Ward yng Nghymru a Lloegr fesul Un Flwyddyn Oedran a Rhyw', Swyddfa Ystadegau Genedlaethol*

DRAFT

**Cyfran Poblogaeth ym mhob grŵp oedran**

| | 0-4 oed | 5-9 oed | 10-14 oed | 15-19 oed | 20-24 oed | 25-29 oed | 30-34 oed | 35-39 oed | 40-44 oed | 45-49 oed | 50-54 oed | 55-59 oed | 60-64 oed | 65-69 oed | 70-74 oed | 75-79 oed | 80-84 oed | 85-89 oed | 90+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 5.4% | 5.6% | 5.1% | 6.2% | 8.6% | 5.6% | 5.1% | 4.7% | 6.0% | 6.5% | 6.6% | 6.2% | 6.1% | 6.8% | 5.2% | 4.0% | 3.2% | 2.0% | 1.1% |
| **Cymru** | 5.7% | 5.7% | 5.3% | 6.1% | 7.0% | 6.2% | 5.9% | 5.4% | 6.4% | 7.0% | 7.0% | 6.2% | 6.1% | 6.2% | 4.7% | 3.7% | 2.7% | 1.6% | 0.9% |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bangor | 5.2% | 5.1% | 4.6% | 8.7% | 19% | 6.3% | 5.5% | 4.8% | 5.8% | 5.5% | 5.6% | 4.7% | 4.2% | 4.6% | 3.1% | 2.5% | 2.3% | 1.2% | 0.8% |
| Caernarfon | 6.2% | 6.5% | 5.9% | 5.9% | 5.5% | 6.0% | 5.8% | 5.0% | 7.0% | 7.1% | 6.8% | 6.2% | 6.1% | 6.3% | 4.7% | 3.6% | 2.5% | 1.8% | 1.0% |
| Llŷn | 5.3% | 5.8% | 5.2% | 5.5% | 5.1% | 5.0% | 4.7% | 4.7% | 6.1% | 7.1% | 6.8% | 6.5% | 6.4% | 7.7% | 6.0% | 4.7% | 3.7% | 2.4% | 1.3% |
| Porthmadog | 4.6% | 5.4% | 4.8% | 5.2% | 5.0% | 4.8% | 4.3% | 4.5% | 5.4% | 6.2% | 6.6% | 6.9% | 7.2% | 8.9% | 6.9% | 5.3% | 3.8% | 2.8% | 1.5% |
| Ffestiniog | 6.0% | 5.9% | 5.7% | 6.2% | 6.1% | 5.4% | 4.4% | 4.9% | 5.7% | 6.8% | 7.7% | 6.6% | 6.5% | 6.8% | 5.0% | 4.2% | 3.0% | 2.2% | 0.8% |
| Dolgellau | 4.8% | 5.0% | 4.6% | 4.8% | 4.1% | 5.1% | 4.4% | 3.9% | 5.5% | 6.8% | 7.0% | 7.2% | 7.7% | 8.7% | 6.6% | 5.0% | 4.4% | 2.5% | 1.8% |
| Penllyn | 6.1% | 5.7% | 5.0% | 5.3% | 5.8% | 5.4% | 5.7% | 5.7% | 5.8% | 6.3% | 7.5% | 7.2% | 6.4% | 6.9% | 5.2% | 3.8% | 3.7% | 1.7% | 0.9% |
| Tywyn | 3.8% | 4.1% | 4.0% | 3.7% | 3.9% | 4.4% | 3.5% | 3.5% | 4.6% | 6.4% | 7.1% | 8.0% | 8.3% | 9.9% | 8.4% | 6.3% | 5.3% | 2.9% | 1.8% |

*Ffynhonnell – cyfrifwyd o 'Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2014 am 2014 Ward yng Nghymru a Lloegr am Un Flwyddyn Oedran a Rhyw', Swyddfa Ystadegau Genedlaethol*

Er mwyn deall cyd-destun gorfod datblygu darpariaeth gofal plant dan Adran 22 Deddf Gofal Plant 2006, mae'n bwysig edrych ar boblogaeth plant a phobl ifanc y sir.
Plant a phobl ifanc yn y grŵp oedran 0 - 14 sy'n cynrychioli 16.1% o boblogaeth Gwynedd, o gymharu â 16.7% yng Nghymru.

Mae'r ganran uchaf o blant yn y grŵp oedran 0 – 14 yn ardal Caernarfon – 18.6%
Mae'r ganran isaf o blant yn y grŵp oedran 0 – 14 yn ardal Tywyn– 11.9%

DRAFT

Tud. 26

**Genedigaethau Byw**

Nid yw'r gyfradd genedigaethau byw wedi amrywio llawer ers 2001.
Yr oedd 144 yn llai o enedigaethau byw yn 2014 o gymharu â 2011.

**Genedigaethau Byw yng Ngwynedd, 2001 - 2014**

| Blwyddyn | Nifer Genedigaethau Byw |
|---|---|
| 2001 | 1,209 |
| 2002 | 1,133 |
| 2003 | 1,156 |
| 2004 | 1,198 |
| 2005 | 1,264 |
| 2006 | 1,331 |
| 2007 | 1,255 |
| 2008 | 1,276 |
| 2009 | 1,338 |
| 2010 | 1,270 |
| 2011 | 1,319 |
| 2012 | 1,327 |
| 2013 | 1,229 |
| 2014 | 1,175 |

*Ffynhonnell – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol*

DRAFT

**Rhagamcanion Poblogaeth**

| Poblogaeth 0-15 oed | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 20,294 | 20,470 | 0.9% | 21,421 | 5.6% |
| **Cymru** | 562,252 | 582,120 | 3.5% | 551,117 | -2.0% |

| Poblogaeth 16-39 oed | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 37,594 | 42,329 | 12.6% | 42,141 | 12.1% |
| **Cymru** | 933,106 | 951,518 | 2.0% | 941,582 | 0.9% |

| Poblogaeth 40-64 oed | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 37,697 | 34,454 | -8.6% | 34,908 | -7.4% |
| **Cymru** | 998,890 | 974,837 | -2.4% | 970,987 | -2.8% |

| Poblogaeth 65-79 oed | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 19,730 | 20,183 | 2.3% | 20,942 | 6.1% |
| **Cymru** | 466,945 | 516,737 | 10.7% | 560,477 | 20.0% |

DRAFT

| Poblogaeth 80+ oed | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 7,806 | 10,125 | 29.7% | 12,436 | 59.3% |
| **Cymru** | 169,978 | 230,959 | 35.9% | 309,370 | 82.0% |

| Cyfanswm poblogaeth | 2016 | 2026 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2026 | 2036 | % o gynnydd rhwng 2016 a 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 123,126 | 127,557 | 3.6% | 131,847 | 7.1% |
| **Cymru** | 3,131,172 | 3,256,174 | 4.0% | 3,333,536 | 6.5% |

*Ffynhonnell –Rhagamcanion poblogaeth 2011 seiliedig ar awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2013)*

Rhagamcanir y bydd y boblogaeth gyffredinol yng Ngwynedd yn cynyddu'n raddol dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda 8,721 yn fwy o drigolion yn y Sir yn 2036 o gymharu â 2016.

Yn y grŵp oedran 0 -15,cynnydd bychan a ragamcanir, sef 0.9% rhwng 2016 a 2026, ond cynnydd o 5.6% erbyn 2036, sy'n golygu y bydd 1,127 yn fwy o blant 0 – 15 oed yn y Sir yn 2036 o gymharu â 2016.

Fodd bynnag, mae'r mwyaf a ragamcanir mewn poblogaeth yn y grŵp oedran 80+, gyda chynnydd o 59.3% wedi ei ragamcan erbyn 2036.

DRAFT

**Plant Bregus**

Ar 31 Rhagfyr 2016, yr oedd 220 o 'blant yn derbyn gofal' yng Ngwynedd, yn yr oedrannau canlynol:

| | Oedran 0-4 | Oedran 5-11 | Oedran 12-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant yn derbyn gofal | 60 | 86 | 74 | 220 |

Ar 31 Rhagfyr 2016, yr oedd 79 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, yn yr oedrannau canlynol:

| | Oedran 0-4 | Oedran 5-11 | Oedran 12-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 36 | 26 | 17 | 79 |

**Plant ag Anableddau**

| | Oedran 0-4 | Oedran 5-11 | Oedran 12-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n agored i wasanaethau Derwen | 57 | 97 | 113 | 267 |

(**Derwen** yw'r Tîm Integredig Plant Anabl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0-18 oed yng Ngwynedd)

**Sgiliau iaith Gymraeg (fel % o'r boblogaeth 3 oed a throsodd)**

| | Dim sgiliau mewn Cymraeg | Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | Gallu siarad Cymraeg | Gallu siarad ond heb allu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | Gallu siarad a darllen ond heb allu ysgrifennu Cymraeg | Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Cyfuniad arall o sgiliau mewn Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 26.5 | 6.9 | 65.4 | 5.8 | 3.4 | 56.0 | 1.5 |
| **Cymru** | 73.3 | 5.3 | 19.0 | 2.7 | 1.5 | 14.6 | 2.5 |
| | | | | | | | |
| Bangor | 38.1 | 9.3 | 50.6 | 5.9 | 3.4 | 41.0 | 2.2 |
| Caernarfon | 13.3 | 5.4 | 80.4 | 6.5 | 3.6 | 69.9 | 1.2 |
| Llŷn | 21.0 | 5.3 | 72.9 | 5.2 | 3.0 | 64.5 | 1.0 |
| Porthmadog | 25.8 | 6.6 | 66.6 | 5.3 | 3.0 | 58.0 | 1.3 |
| Ffestiniog | 17.2 | 4.6 | 77.2 | 5.8 | 3.1 | 68.2 | 1.1 |
| Dolgellau | 35.7 | 8.6 | 54.0 | 6.3 | 3.6 | 43.9 | 1.9 |
| Penllyn | 17.7 | 5.4 | 75.8 | 5.9 | 3.5 | 66.3 | 1.2 |
| Tywyn | 51.0 | 8.7 | 38.6 | 4.0 | 3.4 | 31.0 | 1.9 |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis KS207WA*

Mae sgiliau iaith Gymraeg pobl sy'n byw yng Ngwynedd yn uwch o lawer nac yng Nghymru yn gyffredinol.
Gall 65.4% o'r boblogaeth dros 3 oed siarad Cymraeg, a gall 56% siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 19% a 14.6% yng Nghymru.

Fodd bynnag, y mae gwahaniaethau mawr mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd, gydag ardal Caernarfon â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar 80.4%, ac ardal Tywyn a'r ganran isaf ar 38.6%.
Mae hyn hefyd yn wir am y sawl fedr siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Ardal Caernarfon sydd â'r ganran uchaf ar 69.9%, ac ardal Tywyn sydd â'r ganran isaf ar 31%.
Ardal Tywyn hefyd sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth heb unrhyw sgiliau Cymraeg - 51%.

DRAFT

**Cyfansoddiad Aelwydydd**

Yn 2013, yr oedd cyfanswm o 52,473 aelwyd yng Ngwynedd, ac o'r rhain, yr oedd 13,014 a phlant dibynnol.

| | Pob aelodwyd â phlant dibynnol | Pâr priod neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw | Pâr yn cydfyw | Rhiant sengl | Mathau eraill o aelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 13,014 | 6,402 | 2,574 | 3,054 | 984 |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis KS207WA*

Yng Ngwynedd mae 22,441 o rieni gyda phlant dibynnol, ac o'r rhain mae 19,932 naill ai gyda'r ddau yn gweithio, neu ag un rhiant yn gweithio. Mae 2509 o rieni gyda phlant dibynnol heb fod yn gweithio.

| | Pob categori: Statws teulu yn ôl nifer y rhieni yn gweithio | Teulu cwpl: Cyfanswm | Teulu cwpl: Y ddau riant yn gweithio | Teulu cwpl: Un rhiant yn gweithio | Teulu cwpl: Yr un o'r rhieni yn gweithio | Teulu un rhiant: Cyfanswm | Teulu un rhiant: rhiant yn gweithio | Teulu un rhiant: Rhiant heb fod yn gweithio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant Dibynnol** | | | | | | | | |
| Pob categori: Plant dibynnol yn y teulu | 22,441 | 18,907 | 13,486 | 4,218 | 1,203 | 3,534 | 2,228 | 1,306 |
| Un plentyn dibynnol yn y teulu | 9,260 | 7,258 | 5,344 | 1,469 | 445 | 2,002 | 1,333 | 669 |
| Dau blentyn dibynnol yn y teulu | 8,608 | 7,569 | 5,734 | 1,455 | 380 | 1,039 | 656 | 383 |
| Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu | 4,573 | 4,080 | 2,408 | 1,294 | 378 | 493 | 239 | 254 |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis DC1601EWLA*

DRAFT

Yng Ngwynedd mae 16.8% o blant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd ar incwm isel. Mae hyn yn cymharu â 22.6% i Gymru gyfan.

- Mae 2520 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Cymorth Incwm neu Lwfans Ceisiwr Swydd Seiliedig ar Incwm.
- Mae 350 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant, ac y mae eu hincwm yr adroddwyd amdano yn llai na 60% o'r incwm cymedrig.
- Mae 455 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Credyd Treth plant yn unig, ac y mae eu hincwm yr adroddir amdano yn llai na 60% o'r incwm cymedrig.
- Mae 19,845 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Budd-dâl Plant.

**Argaeledd Car neu Fan**

Yng Ngwynedd mae 21.4% heb allu mynd at gar neu fan. Mae hyn yn ganran fymryn yn is na Chymru gyfan – 22.9%. Ond gan mai Gwynedd yw un o siroedd mwyaf gwledig Cymru, mae methu mynd at gar neu fan yn anfantais o'r mwyaf.

| Argaeledd Car neu Fan | | |
|---|---|---|
| **Pob aelwyd** | 52,473 | |
| Dim car neu fan gan yr aelwyd | 11,230 | 21.4% |
| 1 car neu fan gan yr aelwyd | 22,788 | 43.4% |
| 2 gar neu fan gan yr aelwyd | 13,628 | 26.0% |
| 3 char neu fan gan yr aelwyd | 3,417 | 6.5% |
| 4 neu fwy o geir gan yr aelwyd | 1,410 | 2.7% |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis KS207WA*

DRAFT

**Cefndir Ethnig**
Dengys y tabl isod ym mha grŵp ethnig y mae pobl o Wynedd yn eu gosod eu hunain.

| Grŵp Ethnig | | |
|---|---|---|
| **Pob preswylydd arferol** | **121,874** | |
| **Gwyn** | **117,573** | **96.5%** |
| Saeson/Cymry/Albanaidd/Gogledd Iwerddon /Prydeinig | 115,072 | 94.4% |
| Gwyddelig | 570 | 0.5% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 153 | 0.1% |
| Gwyn Arall | 1,778 | 1.5% |
| **Grŵp ethnig cymysg/lluosog** | **964** | **0.8%** |
| Gwyn a Du Caribiaidd | 287 | 0.2% |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 126 | 0.1% |
| Gwyn ac Asiaidd | 332 | 0.3% |
| Cymysg Arall | 219 | 0.2% |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | **2,170** | **1.8%** |
| Indiaidd | 461 | 0.4% |
| Pacistanaidd | 220 | 0.2% |
| Bangladeshaidd | 176 | 0.1% |
| Tsineaidd | 905 | 0.7% |
| Asiaidd Arall | 408 | 0.3% |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | **289** | **0.2%** |
| Affricanaidd | 195 | 0.2% |
| Caribïaidd | 70 | 0.1% |
| Du Arall | 24 | 0.0% |
| **Grŵp ethnig arall** | **878** | **0.7%** |
| Arabaidd | 700 | 0.6% |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 178 | 0.1% |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011  Tabl KS201EW*

DRAFT

# 5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Llefydd

## Nifer y Darparwyr Gofal Plant a Mathau o Wasanaethau

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg cyflawn o'r holl leoliadau gofal plant yn y sir gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan Gwynedd-Ni (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) yn Rhagfyr 2016.

| Math o Ofal Plant | Cyfanswm Nifer | Cyfanswm Nifer y Llefydd Cofrestredig |
|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 101 | 640 |
| Meithrinfeydd Gofal Dydd Llawn | 20 | 919 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (Sesiynol) | 67 | 1957 |
| Cofleidiol | 27 | 703 |
| Clybiau ar ôl Ysgol (cofrestredig) | 29 | 713 |
| Clybiau ar ôl Ysgol (heb gofrestru) | 9 | 196 |
| Clybiau Gwyliau | 15 | 416 |
| Cynlluniau Chwarae Adeg Gwyliau | 3 | 86 |
| Clybiau Brecwast | 84 | 2737 |

Defnyddiwyd data o Hunanasesiad Gwasanaeth (HAG) AGGCC i gwblhau'r adrannau a ganlyn. Fodd bynnag, gan mai dim ond 81% o leoliadau gofal plant a lenwodd eu ffurflenni HAG nid yw hyn yn rhoi darlun cyflawn i ni o'r cyflenwad gofal plant yn y sir. Nid oes data gennym yn y tablau canlynol am leoliadau heb eu cofrestru – y rhai sy'n gweithredu am lai na 2 awr y dydd a heb gofrestru gydag AGGCC. Yr ydym yn ymwybodol o 9 Clwb ar ôl Ysgol heb eu cofrestru a 2 Gylch Meithrin Sesiynol heb eu cofrestru yng Ngwynedd.

Mae'r lleoliadau gofal plant wedi cwblhau eu data HAG yn ôl eu cofrestriad AGGCC, sydd weithiau yn golygu fod eu 'Math o Ofal Plant' fymryn yn wahanol i'r hyn a nodir gan Gwynedd – Ni.
e.e. mae llawer o leoliadau Grŵp Chwarae Sesiynol yn awr yn gofrestredig gydag AGGCC fel 'Gofal Dydd Llawn' oherwydd yr oriau y maent ar agor.

DRAFT

| Math o Ofal Plant | Cofrestredig | Heb gofrestru/ Cymeradwywyd | Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir | Cofrestredig | Heb gofrestru/ Cymeradwywyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 77 | | Gofal dydd llawn trwy gydol y flwyddyn | 77 | |
| | | | Gofal hanner diwrnod trwy gydol y flwyddyn | 53 | |
| | | | Cyn ysgol | 53 | |
| | | | Ar ôl ysgol | 64 | |
| | | | Cofleidiol | 36 | |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 52 | |
| | | | Arall | 1 | |
| Gofal Dydd | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 25 | | Meithrinfa ddydd llawn trwy gydol y flwyddyn | 20 | |
| | | | Meithrinfa hanner diwrnod trwy gydol y flwyddyn | 15 | |
| | | | Cyn ysgol | 6 | |
| | | | Grŵp chwarae / Cylch Meithrin bore | 7 | |
| | | | Grŵp chwarae / Cylch Meithrin prynhawn | 5 | |
| | | | Ar ôl ysgol | 14 | |
| | | | Cofleidiol | 11 | |
| | | | Amser cinio | 10 | |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 13 | |
| | | | Crèche | 4 | |
| | | | Arall | | |
| Gofal Dydd Sesiynol | 51 | | Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Bore | 44 | |
| | | | Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Prynhawn | 10 | |
| | | | Cofleidiol | 10 | |
| | | | Amser cinio | 16 | |
| | | | Arall | 1 | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Crèches | 0 | | Yn gweithredu Diwrnod Llawn | | |
| | | | Yn gweithredu yn y Boreau | | |
| | | | Yn gweithredu yn y Prynhawniau | | |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | | |
| | | | Arall | | |
| Gofal Tu Allan i oriau Ysgol | 9 | | Cyn ysgol | 1 | |
| | | | Ar ôl ysgol | 8 | |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 3 | |
| | | | Sesiynau cynllun chwarae | 1 | |
| | | | Arall | | |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | | Cyn ysgol | | |
| | | | Ar ôl ysgol | | |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | | |
| | | | Sesiynau cynllun chwarae | | |
| | | | Arall | | |
| Nani | 0 | | Gofal dydd llawn trwy gydol y flwyddyn | | |
| | | | Gofal hanner diwrnod trwy gydol y flwyddyn | | |
| | | | Cyn ysgol | | |
| | | | Ar ôl ysgol | | |
| | | | Cofleidiol lleoliad Addysg Gynnar rhan-amser, e.e., grŵp chwarae neu feithrinfa ysgol | | |
| | | | Darpariaeth adeg gwyliau ysgol | | |
| | | | Arall | | |
| CYFANSWM | 162 | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

**Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a Ddarperir**

Mae dosbarthiad yr holl ddarparwyr gofal plant yn anwastad iawn ar draws Gwynedd.
Ardaloedd 1 a 2 (Bangor a Chaernarfon) sydd â'r cyflenwad mwyaf o bob math o ofal plant; hwy hefyd yw ardaloedd mwyaf poblog y sir - cyfanswm poblogaeth o 29,416 a 32,647. Dyma hefyd yr ardaloedd gyda chyflogwyr mwyaf y sir - Cyngor Gwynedd, Ysbyty Gwynedd a Phrifysgol Bangor.
Mae gostyngiad graddol yn nifer y darparwyr wrth i chi deithio ymhellach i dde'r sir, gydag Ardaloedd 7 ac 8 (Penllyn a Thywyn) â chyflenwad cyfyngedig o bob math o ofal plant. Dyma ardaloedd lleiaf poblog y sir– cyfanswm poblogaeth o 4,445 a 7,416.

Ardal 1 (Bangor): dosbarthiad da o bob math o ofal plant

Ardal 2 (Caernarfon) : dosbarthiad da o bob math o ofal plant, a'r nifer uchaf o warchodwyr plant cofrestredig yn y sir.
Mae wardiau o fewn yr ardal hon, megis Cwm y Glo / Llanberis sydd â nifer fawr o warchodwyr plant o gymharu â'r boblogaeth sy'n byw yno, a lle na fyddai mwy o gofrestriadau yn gynaliadwy.

Ardal 3 (Llŷn) : er yr ymddengys bod cyflenwad da o ofal plant yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf ohono ym 'mhen uchaf' yr ardal (Llanystumdwy / Pwllheli / Nefyn) heb fawr ddim cyflenwad ym mhen draw Llŷn.
Cylchoedd Meithrin sesiynol yn unig sydd gan Aberdaron / Bryncroes / Llanengan, ac y mae hon yn ardal eang heb ofal dydd llawn, gwarchodwyr plant, darpariaeth ar ôl ysgol nac yn ystod y gwyliau.

Ardal 4 (Porthmadog) : er yr ymddengys bod cyflenwad da o ofal plant yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf ohono ym mhrif dref Porthmadog neu'r cyffiniau, heb fawr ddim cyflenwad yn yr ardaloedd gwledig.

Ardal 5 (Ffestiniog) : mae cyflenwad rhesymol o warchodwyr plant yn ardal Blaenau Ffestiniog, ac un feithrinfa gofal dydd llawn; fodd bynnag, darpariaeth heb gofrestru yn unig sydd ar gael ar ôl ysgol ac adeg gwyliau. Unwaith eto, ychydig os o gwbl o ofal plant sydd ar gael yng nghefn gwlad.

Ardal 6 (Dolgellau) :cyfyngedig dros ben yn y cyflenwad o warchodwyr plant, gyda dim ond 2 o warchodwyr plant cofrestredig yn gweithio mewn un lleoliad yn Nyffryn Ardudwy. Dim ond 2 Feithrinfa Gofal Dydd Llawn sy'n ymdrin ag ardal fawr iawn, a darpariaeth gyfyngedig iawn sydd yn ystod y gwyliau. Mae'r ddarpariaeth ar ôl ysgol wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf gydag agor clwb ar ôl ysgol newydd yn Nolgellau.

DRAFT

Ardal 7 (Penllyn) : cyflenwad cyfyngedig iawn o bob math o ofal plant, gyda dim ond un feithrinfa gofal dydd llawn yn y Bala, sydd hefyd â chlwb ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau. Unwaith eto, gofal plant cyfyngedig iawn, os o gwbl, sydd yng nghefn gwlad.

Ardal 8 (Tywyn) : cyflenwad cyfyngedig iawn o bob math o ofal plant, ond cafwyd gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf gydag agor meithrinfa gofal dydd llawn gyda chlwb ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau yn yr ardal.

DRAFT

DRAFT

**Llefydd Gofal Plant - Cyflenwad a Galw yn ôl y Math o Ofal Plant**

**Darpariaeth Gofrestredig – Adeg Tymor**

| Math o Ofal Plant | Nifer llefydd cofrestredig | Tymor Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol | Nifer Plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth | Nifer Llefydd Gwag* | Nifer plant ar y Rhestr Aros | Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen |
| Gwarchodwr Plant | 540 | 652 | 558 | 292 | 12 | 97 |
| Gofal Dydd | | | | | | |
| Meithrinfa Dydd Llawn | 962 | 1766 | 1272 | 751 | 26 | 125 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 1046 | 1520 | 1399 | 678 | 64 | 65 |
| Crèches** | | | | | | 28 |
| Gofal tu allan i oriau Ysgol | 262 | 234 | 299 | 162 | 67 | 55 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | | | | | 29 |
| Nani | 0 | | | | | 24 |

**Darpariaeth Gofrestredig – Gwyliau Ysgol**

| Math o Ofal Plant | Nifer llefydd cofrestredig | Gwyliau Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol | Nifer Plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth | Nifer Llefydd Gwag * | Nifer plant ar y Rhestr Aros | Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen |
| Gwarchodwr Plant | 414 | 414 | 1323 | 62 | 8 | 18 |
| Gofal Dydd | | | | | | |
| Meithrinfa Dydd Llawn | 781 | 781 | 2808 | 8 | 0 | 6 |
| Sesiynol Gofal Dydd | 96 | 96 | 102 | 0 | 0 | 0 |
| Crèches** | | | | | | 13 |
| Gofal tu allan i oriau Ysgol | 112 | 112 | 359 | 182 | 0 | 38 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | | | | | 30 |
| Nani | 0 | | | | | 6 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

**Mae data am nifer y llefydd gwag yn anghyson oherwydd bod lleoliadau wedi defnyddio gwahanol ddulliau o weithio allan – felly nid oes modd ystyried y data fel adlewyrchiad llawn o nifer y llefydd gwag yn y lleoliad gofal plant.*

***Mae llawer o rieni yn cyfeirio at Feithrinfeydd Dydd Llawn fel 'Crèche', felly gall data dan y pennawd hwn fod yn gamarweiniol*

**Dosbarthiad Daearyddol Llefydd Gofal Plant fesul y Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Adeg Tymor**

Ardal 1 (Bangor)  Dim ond lleoliadau Gofal Dydd Llawn a adroddodd fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor, ac yr oedd y rhain wedi'u dosbarthu'n wastad ar draws y tri thymor, ac am feithrinfa dydd llawn yn unig.

Ardal 2 (Caernarfon)  Dywedodd Gwarchodwyr Plant, lleoliadau Sesiynol a Gofal tu allan i oriau Ysgol oll fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor.
Gwarchodwyr Plant – yr oedd y rhestr aros am ofal dydd llawn yn unig
Lleoliadau sesiynol – yr oedd y rhestr aros am sesiynau bore Cylch Meithrin Cymraeg, a'r gyfran uchaf am dymor yr haf
Gofal tu allan i oriau Ysgol – yr oedd y rhestr aros am ofal ar ôl ysgol yn y 3 tymor

Yr ardal hon sydd gyda'r cyflenwad mwyaf o ofal plant, ond yma mae'r galw uchaf hefyd oherwydd y boblogaeth uchel a dwysedd cyflogwyr.

Ardal 3 (Llŷn)  Dywedodd Gwarchodwyr Plant a lleoliadau Sesiynol fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor.
Gwarchodwyr Plant – yr oedd y rhestr aros am ofal dydd llawn yn unig
Lleoliadau Sesiynol – yr oedd y rhestr aros am sesiynau bore Cylch Meithrin dwyieithog yn ystod tymor yr haf

Ardal 4 (Porthmadog)  Dywedodd lleoliadau Gofal Dydd Llawn a Sesiynol fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor.
Gofal Dydd Llawn – yr oedd y rhestr aros yn bennaf yn ystod tymor yr haf, am feithrinfa dydd llawn a gofal ar ôl ysgol.
Lleoliadau Sesiynol - yr oedd y rhestr aros am sesiynau bore Cylch Meithrin Cymraeg yn ystod tymor yr haf

Ardal 5 (Ffestiniog) Dim ond Gwarchodwyr Plant a ddywedodd fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor, ac yr oedd hyn am ofal dydd llawn Cymraeg yn ystod tymor yr haf.

Ardal 6 (Dolgellau) dim rhestrau aros wedi'u crybwyll
Ardal 7 (Penllyn) dim rhestrau aros wedi'u crybwyll

Ardal 8 (Tywyn)  Dim ond lleoliadau Sesiynol a ddywedodd fod ganddynt restr aros yn ystod y tymor; yr oedd hyn am sesiynau bore a phrynhawn Saesneg yn ystod y tri thymor.

DRAFT

**Dosbarthiad Daearyddol Llefydd Gofal Plant fesul y Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Gwyliau Ysgol**

Yr unig restrau aros a grybwyllwyd yn ystod gwyliau'r ysgol oedd am warchodwyr plant yn Ardaloedd 2 (Caernarfon) a 5 (Ffestiniog)

- Yr oedd hyn am ofal dydd llawn yn ystod gwyliau'r haf a hanner tymor Hydref yn unig

---

Ni dderbyniwyd data HAG am Ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored na Nanis; fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol o 3 Cynllun Chwarae sy'n rhedeg yn ystod gwyliau'r ysgol yn Ardal 1(Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon), ac o 3 Nani sy'n gweithio yn Ardal 2 (Caernarfon), Ardal 3 (Llŷn) ac Ardal 6 (Dolgellau).
Dengys data o'r Holiadur Rhieni alw am Ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored a Nanis, yn ystod tymor yr ysgol a'r gwyliau.

DRAFT

# 6. Cyflenwad Gofal Plant

## 6.1 Gwarchodwr Plant

**Dadansoddiad o'r Cyflenwad o Ddarpariaeth Gofal Plant**


Yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 101 o leoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig yn darparu cyfanswm o 640 o lefydd cofrestredig. Hefyd, mae 5 gwarchodwr plant sydd ar hyn o bryd wedi atal eu cofrestriad yn wirfoddol (h.y. wedi cofrestru gydag AGGCC ond ddim yn darparu gwasanaeth ar hyn o bryd)

Yn ystod y 2 flwyddyn ddiwethaf cawsom 19 cofrestriad newydd mewn lleoliadau ar draws y sir, ond yn ystod y 2 flynedd yma mae 30 o warchodwyr plant wedi canslo eu cofrestriadau, gan roi gostyngiad net i ni o 11 gwarchodwr plant mewn 2 flynedd.

Mae gennym ar hyn o bryd 10 ymgeisydd naill ai ar hyfforddiant cyn-gofrestru, wrthi'n cwblhau eu cais am gofrestriad AGGCC neu sydd wedi cyflwyno eu cais ac yn aros am eu cofrestriad AGGCC.

O'r 101 o leoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig, dim ond 77 a lenwodd y cofnod HAG arlein yn 2016.

Dengys y siart isod nad oes dosbarthiad cyfartal o warchodwyr plant ar draws y Sir, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y gwarchodwyr plant yn ardaloedd y de.




*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

**Amred gwasanaethau a ddarperir**

Dengys y tabl isod amred y gwasanaethau a gynigir gan warchodwyr plant ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Nifer Gwarchodwyr Plant | 12 | 31 | 16 | 6 | 4 | 2 | 3 | 3 |
| Gofal Dydd Llawn | 12 | 31 | 16 | 6 | 4 | 2 | 3 | 3 |
| Gofal am Hanner Diwrnod (yb) | 10 | 20 | 13 | 5 | 2 | | 1 | 2 |
| Gofal am Hanner Diwrnod (yh) | 10 | 19 | 11 | 4 | 2 | | 1 | 2 |
| Cyn Ysgol | 7 | 21 | 12 | 6 | 3 | | 3 | 1 |
| Ar ôl Ysgol | 10 | 24 | 15 | 6 | 4 | | 3 | 2 |
| Cofleidiol | 3 | 17 | 6 | 5 | 2 | | 1 | 2 |
| Darpariaeth Gwyliau | 10 | 19 | 11 | 6 | 2 | | 2 | 2 |
| Arall:- penwythnosau/gyda'r nos wedi 6yh | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Yr oedd mwyafrif y gwarchodwyr plant yn cynnig amred lawn o wasanaethau; fodd bynnag, dim ond 46% sy'n cynnig gwasanaeth cofleidiol a dim ond un warchodwraig plant a nododd ei bod yn cynnig gwasanaeth penwythnos / gyda'r nos wedi 6yh i rieni. Mae Gwarchodwyr Plant yn Ardal 6 (Dolgellau) yn darparu gwasanaeth gofal dydd llawn yn unig.

DRAFT

**Nifer a math o lefydd i blant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, ad hoc)**
**Tymor Ysgol**
Dengys y tabl isod uchafswm nifer y llefydd sydd ar gael yn ystod tymor ysgol

| | |
|---|---|
| Gofal dydd llawn | 316 |
| Gofal Hanner Diwrnod (yb) | 43 |
| Gofal Hanner Diwrnod (yh) | 40 |
| Cyn Ysgol | 77 |
| Ar ôl Ysgol | 151 |
| Cofleidiol | 25 |
| **Cyfanswm Uchafswm Capasiti** | **652** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwyd yn ôl math y gwasanaeth

| | Llawn Amser | Rhan Amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Gofal dydd llawn | 120 | 177 | 8 |
| Gofal Hanner Diwrnod (yb) | 10 | 23 | 3 |
| Gofal Hanner Diwrnod (yh) | 5 | 16 | 1 |
| Cyn Ysgol | 20 | 22 | 1 |
| Ar ôl Ysgol | 56 | 70 | 9 |
| Cofleidiol | 4 | 12 | 1 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **215** | **320** | **23** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 39% o'r plant mewn lleoliad gwarchodwr plant yn mynychu'n llawn amser, 57% yn mynychu yn rhan amser a dim ond 4% sy'n mynychu ad hoc.
Mae'r niferoedd yn amrywio fymryn mewn gwahanol ardaloedd, ond mae'r darlun yn debyg iawn ledled y Sir, gyda'r ganran uchaf o blant yn mynychu'n rhan amser.



DRAFT

**Gwyliau Ysgol**
Yn ôl data HAG AGGCC, mae cyfanswm o 414 o lefydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dengys y tabl isod nifer y llefydd sydd ar gael ym mhob ardal

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm capasiti yn ystod gwyliau'r ysgol | 60 | 166 | 93 | 30 | 17 | 20 | 14 | 14 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwyd yn ystod pob gwyliau

| | Llawn Amser | Rhan Amser | Ad hoc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwyliau'r Haf | 90 | 205 | 14 | 309 |
| Hanner Tymor Hydref | 73 | 144 | 12 | 229 |
| Gwyliau Nadolig | 38 | 75 | 10 | 123 |
| Hanner Tymor Chwefror | 68 | 144 | 13 | 225 |
| Gwyliau'r Pasg | 59 | 140 | 13 | 212 |
| Hanner Tymor Mai | 73 | 139 | 13 | 225 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **401** | **847** | **75** | **1323** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 30% o blant sy'n mynychu lleoliad gwarchodwr plant yn llawn amser yn ystod gwyliau'r ysgol, 64% yn rhan amser a 5% yn mynychu ad hoc.
Mae presenoldeb ar ei uchaf yn ystod gwyliau'r haf, gyda phresenoldeb yn ystod gwyliau hanner tymor a'r Pasg yn debyg iawn; mae presenoldeb yn isel yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig.
Mae'r niferoedd yn amrywio ychydig mewn ardaloedd gwahanol, ond mae'r darlun yn debyg iawn ar draws y Sir i gyd, gyda'r ganran uchaf o blant yn mynychu rhan amser.

DRAFT

**Nifer llefydd a lenwir gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd**

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd | 1 | 3 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Nifer plant gyda datganiadau neu sy'n disgwyl asesiadau ffurfiol | | | | | | | | |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | | 1 | | 1 | 1 | | | |
| Anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, Dyspracsia) | | 1 | | | | | | |
| Anawsterau clyw | | | | | | | | |
| Anawsterau dysgu (e.e. oedi datblygiadol cyffredinol etc.) | | 1 | | 1 | | | | |
| Anawsterau gweld | | | | | | | | |
| Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol | | | | | | | | |
| Corfforol | 1 | | | | | | | |
| Cyflwr meddygol (nodwch) | | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Nifer fach o warchodwyr plant yng Ngwynedd a ddywedodd eu bod yn gofalu am blentyn ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.

DRAFT

**Nifer llefydd Cymraeg a lenwyd**

O’r 77 gwarchodwr plant a lenwodd gofnod HAG AGGCC, dywedodd 18 fod eu gwasanaeth yn Gymraeg, 47 yn Gymraeg a Saesneg (dwyieithog), 11 yn Saesneg ac 1 yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

Dengys y tabl isod nifer y gwarchodwyr plant yn ôl iaith eu darpariaeth, ym mhob ardal

| Iaith Darpariaeth | **Ardal 1** | **Ardal 2** | **Ardal 3** | **Ardal 4** | **Ardal 5** | **Ardal 6** | **Ardal 7** | **Ardal 8** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | | 8 | 3 | 2 | 4 | | 1 | |
| Cymraeg a Saesneg | 8 | 21 | 11 | 3 | | 2 | 2 | |
| Saesneg | 4 | 2 | 2 | 1 | | | | 2 |
| Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | | | | | | | | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 85% o’r ddarpariaeth gwarchodwyr plant yng Ngwynedd naill ai yn Gymraeg neu’n ddwyieithog, a dim ond 15% sy’n cael ei gyflwyno yn Saesneg neu yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
Fodd bynnag, mae amrywiad mawr mewn rhai ardaloedd, gydag Ardal 5 (Ffestiniog) â darpariaeth Gymraeg yn unig, ac Ardal 8 (Tywyn) gyda darpariaeth Saesneg neu Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Mae 33% o’r ddarpariaeth gwarchod plant yn Ardal 1(Bangor) yn Saesneg.

Dengys y tabl isod gyfanswm y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ôl iaith y ddarpariaeth.

| Nifer llefydd sydd ar gael | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
|---|---|---|---|---|
| Tymor Ysgol | 168 | 395 | 82 | 7 |
| Gwyliau Ysgol | 78 | 272 | 64 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

**Llefydd Gwag a Rhestrau Aros**

Mae niferoedd y llefydd gwag yn data HAG AGGCC yn anghyson oherwydd bod lleoliadau wedi defnyddio dulliau gwahanol o weithio allan – felly nid oes modd cymryd y data i ystyriaeth fel adlewyrchiad cywir o nifer y llefydd gwag. Mae rhai lleoliadau hefyd wedi cofnodi fod ganddynt restr aros am yr un gwasanaeth ag y gwnaethant gofnodi lle gwag.

Dengys y tabl isod nifer y gwarchodwyr plant gyda rhestr aros, fesul ardal, yn  ôl iaith eu darpariaeth

| | **Iaith y Ddarpariaeth** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | | | **Cymraeg a Saesneg** | | | **Saesneg a rhai elfennau dwyieithog** | | | **Saesneg** | | |
| | **Ardal** | | | **Ardal** | | | **Ardal** | | | **Ardal** | | |
| | **2** | **3** | **5** | **2** | **3** | **5** | **2** | **3** | **5** | **2** | **3** | **5** |
| Tymor y Gwanwyn | | | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 2 | 1 | | 2 | | | | | | | | |
| Tymor yr Haf | | | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | | | 2 | | | | | | | | | |
| Tymor yr Hydref | | | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | | 1 | | 2 | 2 | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Gwyliau'r Haf | | | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | | | 2 | 2 | | | | | | | | |
| Hanner Tymor Hydref | | | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | | | | 3 | | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dim ond gwarchodwyr plant Cymraeg a dwyieithog yn Ardaloedd 2, 3 a 5 ddywedodd fod ganddynt restr aros, naill ai yn ystod y tymor neu wyliau'r ysgol neu'r ddau.

DRAFT

**Amseroedd Agor**
Dangosodd data HAG AGGCC amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau i warchodwyr plant ar hyd a lled Gwynedd.
Mae’r tabl isod yn crynhoi’r data yn ôl iaith y ddarpariaeth

| | | Amser Cychwyn | Amser Gorffen |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 11 o warchodwyr plant | 2 cyn 07:30<br>8 am 08:00<br>1 am 08:30 | 2 am 17:00<br>4 am 17:30<br>5 am 18:00 |
| Cymraeg a Saesneg | 35 o warchodwyr plant | 12 cyn 07:30<br>20 cyn 08:00<br>3 am 08:30 | 1 am 16:30<br>6 am 17:00<br>15 am 17:30<br>13 am 18:00 |
| Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | 1 gwarchodwraig plant | 08:00 | 15:30 |
| Saesneg | 10 o warchodwyr plant | 4 cyn 07:30<br>4 am 08:00<br>2 am 08:30 | 1 am 16:30<br>2 am 17:30<br>6 am 18:00<br>1 am 18:30 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Ni roddodd 20 o warchodwyr plant ateb i’r rhan hon o’r cofnod HAG.
Dywedodd 18 o warchodwyr plant eu bod yn dechrau gwaith cyn 7:30yb, gyda’r mwyafrif yn gorffen erbyn 6yh; dim ond 1 a nododd ei bod yn gorffen gwaith am 6:30yh.
Nid oedd y data am nifer yr wythnosau lle’r oeddent ar agor yn ystod gwyliau’r ysgol yn gyflawn, ond o’r rhai a lenwodd yr adran hon, yr oedd y mwyafrif ar agor yn ystod gwyliau’r hanner tymor ac am nifer amrywiol o wythnosau yn ystod gwyliau’r haf. Ychydig iawn a ddywedodd eu bod ar agor yn ystod gwyliau’r Pasg a’r Nadolig.

Un warchodwraig yn unig, yn Ardal 2 (Bangor) a nododd ei bod yn cynnig gwasanaeth penwythnos / gyda’r nos wedi 6yh i rieni.

DRAFT

**Ystod Oedran y Plant**

Dengys y tabl isod ystod oedran y plant y gall gwarchodwyr plant eu cymryd. Mae'r mwyafrif llethol yn gofalu am blant rhwng 12 mis a 7 mlwydd oed, gyda llai yn gofalu am blant iau na 12 mis a hŷn nac 8 oed, a dim ond dwy warchodwraig ddywedodd eu bod yn gallu gofalu am blant 12-14 oed.


| Ystod Oedran | Nifer Gwarchodwyr Plant |
|---|---|
| Dan 12 mis | 39 |
| 12 – 18 mis | 74 |
| 19 – 23 mis | 74 |
| 2 flwydd | 77 |
| 3 blwydd | 75 |
| 4 blwydd | 69 |
| 5 – 7 mlwydd | 61 |
| 8 – 11 mlwydd | 42 |
| 12 – 14 mlwydd | 2 |
| 15 – 17 mlwydd | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

Tud. 51

Dengys y siart isod nifer y plant mewn lleoliad gwarchod plant yn ystod tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau




*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n mynychu yn ystod gwyliau'r ysgol ar draws yr holl ystod oedran, ac eithrio am y rhai dan 12 mis oed.

**Amrywiaeth Tâl a Godir**

Mae'n hynod anodd dadansoddi amred y taliadau a godir gan i rai gwarchodwyr plant lenwi'r adran hon gan ddefnyddio eu cyfran fesul awr, eraill eu cyfradd fesul diwrnod, ac eraill eu cyfradd am sesiwn. Ni lenwodd rhai gwarchodwyr plant yr adran hon.
Heb syniad o'r oriau dan sylw, mae'n anodd iawn crynhoi gwir gost pob sesiwn; fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos amred y ffioedd am bob gwasanaeth a ddarperir ganddynt, fel y rhoddwyd yng nghofnod HAG AGGCC.

| | Amred costau fesul Gwasanaeth a Ddarperir | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
| Gofal Dydd Llawn | £22.50 - £38.00 | £28.00 - £45.00 | £30.00 - £32.00 | |
| Gofal Hanner Diwrnod (yb) | £15.00 - £18.90 | £14.00 - £25.00 | £15.00 - £20.00 | |
| Gofal Hanner Diwrnod (yh) | £17.00 - £18.00 | £14.00 - £25.00 | £15.00 - £20.00 | |
| Cyn Ysgol | £2.50 - £10.00 | £3.50 - £15.00 | £3.00 - £15.00 | |
| Ar ôl Ysgol | £3.80 - £15.00 | £3.50 - £17.50 | £4.00 - £15.00 | |
| Cofleidiol | £3.20 - £10.00 | £3.10 - £32.00 | £10.00 - £10.00 | |
| Darpariaeth Gwyliau (yb) | £4.50 - £17.00 | £4.00 - £32.00 | £4.00 -£15.00 | |
| Darpariaeth Gwyliau (yh) | £4.50 - £17.00 | £4.00 - £30.00 | £4.00 - £15.00 | |
| Arall | £5.00 - £22.00 | £3.20 - £4.50 | £5.00 - £12.00 | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Y gyfradd gofal dydd lawn isaf yw £22.50 yn Ardal 2 (Caernarfon), a'r gyfradd gofal dydd lawn uchaf yw £45 yn Ardal 4 (Porthmadog)
Dywedodd 8 o warchodwyr plant eu bod yn codi'n ychwanegol am brydau, byrbrydau, clytiau, cludiant a thripiau.

Dywedodd 8 o warchodwyr plant eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd; yr oedd hyn yn amrywio o ostyngiad 10 - 30%, £2.00 - £5.00 o ostyngiad y dydd, 50c - £1.00 o ostyngiad yr awr.
Dywedodd 55 o ofalwyr plant nad ydynt yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o warchodwyr plant ar draws y sir; mae'r niferoedd uchaf yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon), a dyma hefyd yr ardaloedd gyda'r boblogaeth uchaf a'r mwyaf o gyfleoedd gwaith.
Ychydig iawn o warchodwyr plant sydd ar gael yn Ardal 6 (Dolgellau), gyda dim ond 3 o warchodwyr plant yn gweithio mewn un lleoliad cofrestredig yn yr ardal gyfan.
Dewis cyfyngedig o warchodwyr plant sydd mewn llawer ardal wledig, yn enwedig pen draw Llŷn (Ardal 3), ac yn Ardaloedd 7 (Penllyn) ac 8 (Tywyn).

Mae trosiant uchel iawn o gofrestriadau gwarchodwyr plant o gymharu â mathau eraill o ofal plant. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, cawsom 19 o warchodwyr plant yn cofrestru gydag AGGCC, ond yn ystod y cyfnod hwn, mae 30 o warchodwyr plant wedi canslo eu cofrestriadau, gan roi i ni golled net o 11 o warchodwyr plant.

Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau; fodd bynnag, dim ond 46% sy'n cynnig gwasanaeth cofleidiol, a dim ond 1 warchodwraig plant a ddywedodd ei bod yn cynnig gwasanaeth penwythnosau / gyda'r nos wedi 6yh i rieni.


Ar draws y sir, mae gwarchodwyr plant yn cynnig gwasanaeth hyblyg i rieni, gyda 61% o blant yn mynychu yn rhan amser neu ad hoc.
Gall gwarchodwyr plant ar draws y sir ateb anghenion rhieni sy'n gweithio, gyda 23% yn cychwyn gwaith cyn 7:30am, 43% erbyn 8:00am, ac 8% erbyn 8:30am. Ni atebodd 26% o warchodwyr plant y rhan hon o'r cofnod HAG.

Mae llai o lefydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol; uchafswm y capasiti yw 652 lle yn ystod tymor ysgol, a dim ond 414 o lefydd yn ystod y gwyliau. Ychydig sy'n mynychu dros gyfnod gwyliau'r Nadolig, a all fod yn adlewyrchiad o'r ffaith fod llawer o warchodwyr plant yn cau yn ystod y cyfnod hwn, neu fod diffyg galw.
Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n mynychu yn ystod gwyliau'r ysgol ar draws yr holl oedrannau, ac eithrio am y rhai dan 12 mis oed.

Dim ond 7 o blant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd sy'n mynychu lleoliad gwarchodwr plant; fodd bynnag, mae'r mwyafrif llethol yn dweud ar eu ffurflenni GGT y buasent yn barod i ofalu am blentyn gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.

DRAFT

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth yn y Gymraeg ar draws y rhan fwyaf o'r sir, gyda 23% o warchodwyr plant yn dweud eu bod yn lleoliad Cymraeg, 62% yn dweud eu bod yn Gymraeg a Saesneg, a dim ond 15% yn dweud eu bod naill ai'n lleoliadau Saesneg neu'n Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
Mae 33% o'r ddarpariaeth gwarchod plant yn Ardal 2 (Bangor) yn Saesneg, ac y mae gan Ardal 8 (Tywyn) ddarpariaeth Saesneg yn unig neu Saesneg gyda pheth darpariaeth ddwyieithog.




Dim ond gwarchodwyr plant yn Ardaloedd 2, 3 a 5 a ddywedodd fod ganddynt restr aros, naill ai yn ystod tymor yr ysgol neu wyliau'r ysgol neu'r ddau.

Mae mwyafrif helaeth y gwarchodwyr plant yn gofalu am blant rhwng 12 mis a 7 mlwydd oed, gyda llai yn gofalu am blant dan 12 mis a hŷn nag 8 oed.
Dim ond dau o warchodwyr plant a ddywedodd eu bod yn gofalu am blant 12 - 14 oed, ac ni ddywedodd yr un eu bod yn gofalu am blant 15 - 17 oed. Gall hyn fod oherwydd nad oes galw, gan fod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn barod i gymryd plant hŷn os oes angen.

Mae amrywiaeth eang yn yr hyn sy'n cael ei godi am ddarpariaeth diwrnod llawn ar draws y sir gyfan, gyda'r gyfradd isaf o £22.50 yn Ardal 2 (Caernarfon) a'r gyfradd uchaf o £45 yn Ardal 4 (Porthmadog)
Mae 40% o warchodwyr plant yn codi rhwng £30 - £35 am ofal dydd llawn, a 12% yn codi rhwng £36 - £45 am ofal dydd llawn.


## 6.2 Gofal Dydd Llawn

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**

Yng Ngwynedd, mae gennym gyfanswm o 20 meithrinfa gofal dydd llawn, yn darparu cyfanswm o 919 lle cofrestredig. Yn ychwanegol i'r meithrinfeydd gofal dydd llawn hyn, mae lleoliadau eraill wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn ond yn darparu ystod o sesiynau trwy gydol y dydd, neu maent ar agor yn ystod tymor ysgol yn unig.
Dros y ddwy flynedd diwethaf, cawsom 2 feithrinfa ddydd llawn yn cofrestru, un yn Ardal 4 (Porthmadog) ac un yn Ardal 8 (Tywyn) ond caeodd 2 feithrinfa ddydd llawn hefyd yn ystod yr amser hwn, y ddau yn Ardal 1 (Bangor).

Llenwodd 25 o ddarparwyr gofal dydd llawn gofnod HAG arlein yn 2016.

Dengys y siart isod nad oes dosbarthiad gwastad o ddarparwyr gofal dydd llawn ar draws y sir, gyda gostyngiad sylweddol mewn niferoedd yn ardaloedd y de.




*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

**Ystod o wasanaethau a ddarperir**
Dengys y tabl isod ystod y gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gofal dydd llawn ym mhob un o'r ardaloedd.

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gofal Dydd Llawn | 10 | 5 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | 7 | 4 | 1 | 2 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yb) | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yh) | 6 | 3 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 2 | 1 | 1 | | 1 | 2 | | |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | | 1 | 1 | | 1 | 2 | | |
| Cyn yr Ysgol | 2 | 1 | | 1 | 1 | | 1 | |
| Ar ôl Ysgol | 4 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Cofleidiol | 2 | 3 | 2 | | 1 | 2 | 1 | |
| Cinio | 4 | 1 | 1 | | 1 | 3 | 1 | |
| Darpariaeth Gwyliau | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Crèche | 1 | | 1 | | 1 | 1 | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 20 lleoliad yn cynnig darpariaeth meithrinfa diwrnod llawn, 14 yn cynnig darpariaeth wedi'r ysgol, 13 â Darpariaeth Gwyliau ond dim ond 11 sy'n cynnig gwasanaeth cofleidiol a chinio. Mae 4 lleoliad yn cynnig darpariaeth crèche.
Un Feithrinfa Diwrnod Llawn, darpariaeth wedi'r ysgol a Darpariaeth Gwyliau sydd yn Ardal 8 (Tywyn).

DRAFT

**Nifer a math o lefydd i blant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, ad hoc)**
**Tymor Ysgol**

Dengys y tabl isod uchafswm nifer y llefydd sydd ar gael yn ystod tymor ysgol.

| | |
|---|---|
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | 744 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yb) | 202 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yh) | 241 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 86 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | 72 |
| Cyn yr Ysgol | 59 |
| Ar ôl Ysgol | 220 |
| Cofleidiol | 24 |
| Cinio | 68 |
| Crèche | 50 |
| **Cyfanswm Llefydd** | **1766** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwyd yn ôl y math o wasanaeth.

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | 219 | 393 | 22 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yb) | 26 | 71 | 2 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yh) | 24 | 72 | 1 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 15 | 38 | 17 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | 22 | 15 | 18 |
| Cyn yr Ysgol | 22 | 14 | 4 |
| Ar ôl Ysgol | 30 | 96 | 3 |
| Cofleidiol | 0 | 23 | 22 |
| Cinio | 3 | 71 | 0 |
| Crèche | 0 | 15 | 14 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **361** | **808** | **103** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Ar gyfartaledd, mae 28% o blant yn mynychu lleoliad gofal dydd llawn yn llawn amser, 64% yn mynychu yn rhan amser, gyda 8% yn mynychu sesiynau ad hoc.
Mae'r niferoedd yn amrywio ychydig ar draws y gwahanol wasanaethau;

- Mae 55% o blant yn mynychu cyn ysgol yn llawn amser
- Mae 23% o blant yn mynychu ar ôl ysgol yn llawn amser
- Nid oes yr un plentyn yn mynychu darpariaeth cofleidiol llawn amser

Ar draws y sir, mae amrywiaeth mawr yng nghanran y plant sy'n mynychu lleoliad gofal dydd llawn yn llawn amser:

Ardal 1 - 40%; Ardal 2 – 16%; Ardal 3 – 10%; Ardal 4 – 7%; Ardal 5 – 10%; Ardal 6 – 53%; Ardal 7 – 19%; Ardal 8 - 0%

DRAFT

**Gwyliau'r Ysgol**

Yn ôl data HAG AGGCC, mae cyfanswm o 781 lle ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dengys y tabl isod  nifer y llefydd sydd ar gael ym mhob ardal.

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm llefydd yn ystod gwyliau'r ysgol | 338 | 173 | 29 | 78 | 43 | 89 | 31 | Dim wedi'i nodi |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod  nifer y llefydd gofal plant a lenwyd yn ystod pob gwyliau.

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwyliau'r Haf | 103 | 406 | 51 | 560 |
| Hanner Tymor yr Hydref | 67 | 394 | 27 | 488 |
| Gwyliau'r Nadolig | 38 | 280 | 17 | 335 |
| Hanner Tymor Chwefror | 68 | 385 | 21 | 474 |
| Gwyliau'r Pasg | 72 | 366 | 22 | 460 |
| Hanner Tymor Mai | 56 | 412 | 23 | 491 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **404** | **2243** | **161** | **2808** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dim ond 14% o blant sy'n mynychu lleoliad gofal dydd llawn yn llawn amser yn ystod gwyliau'r ysgol, 80% yn mynychu'n rhan amser a 6% yn mynychu sesiynau ad hoc.
Mae presenoldeb ar ei uchaf yn ystod gwyliau'r  haf, gyda phresenoldeb yn ystod gwyliau'r hanner tymor a'r Pasg yn debyg iawn; mae presenoldeb yn is yn ystod gwyliau'r Nadolig.
Mae'r niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwahanol ardaloedd, ond tebyg iawn yw'r darlun ar draws y sir gyfan, gyda'r ganran uchaf o blant yn mynychu'n rhan amser.

DRAFT

**Nifer y llefydd a lenwir gan blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd**

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y plant gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd | 9 | 9 | 3 | 1 | 6 | 10 | 0 | 0 |
| Nifer y plant gyda datganiadau neu sy'n aros am asesu ffurfiol | | | | | | | | |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 5 | 5 | 2 | | 2 | 2 | | |
| Dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, Dyspracsia) | 1 | 1 | | 1 | | 4 | | |
| Anawsterau clywed | | | 1 | | | 2 | | |
| Anawsterau dysgu (e.e. oedi datblygiadol cyffredinol etc.) | | 1 | | | | | | |
| Anawsterau gweld | | 1 | | | | | | |
| Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol | 1 | 1 | 1 | | 2 | | | |
| Corfforol | | 1 | | | 2 | 1 | | |
| Cyflwr meddygol - ecsema | 1 | | | | | 1 | | |
| Cyflwr meddygol - diabetes | | 1 | | | | | | |
| Cyflwr meddygol – syndrom turner | | 1 | | | | | | |
| Cyflwr meddygol - epilepsi | | | | | | 1 | | |
| Cyflwr meddygol - sbectrwm awtistig | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 38 o blant gydag anghenion dysgu ychwanegol, neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd yn derbyn gofal mewn lleoliadau gofal dydd llawn ar draws y rhan fwyaf o'r sir. Ni nododd yr un lleoliad gofal dydd llawn yn Ardaloedd 7 nac 8 eu bod yn gofalu am unrhyw blentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd.

DRAFT

**Nifer y llefydd Cymraeg a lenwir**

O’r 25 lleoliad gofal dydd llawn a lenwodd gofnod HAG AGGCC, dywedodd 10 fod eu gwasanaeth yn Gymraeg, 14 yn Gymraeg a Saesneg (dwyieithog) ac 1 yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

Dengys y tabl isod nifer y lleoliadau gofal dydd llawn yn ôl iaith eu darpariaeth, ym mhob un ardal:

| Iaith Darpariaeth | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 2 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| Cymraeg a Saesneg | 8 | 2 | 1 | 1 | | 1 | | 1 |
| Saesneg | | | | | | | | |
| Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | | | | | | 1 | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 96% o’r ddarpariaeth gofal dydd llawn yng Ngwynedd naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog, dim ond 4% sydd yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
Does dim darpariaeth gofal dydd llawn Saesneg yn unig yng Ngwynedd.

Dengys y tabl isod gyfanswm nifer y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| Nifer y llefydd sydd ar gael | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Saesneg |
|---|---|---|---|---|
| Tymor ysgol | 656 | 905 | 205 | |
| Gwyliau’r ysgol | 313 | 427 | 41 | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

**Llefydd Gwag a Rhestr Aros**

Mae nifer y llefydd gwag a gofnodir yn data HAG AGGCC yn anghyson am fod lleoliadau wedi defnyddio dulliau gwahanol o weithio allan - felly ni ellir ystyried y data fel adlewyrchiad cywir o nifer y llefydd gwag. Mae rhai lleoliadau hefyd wedi cofnodi rhestr aros a lle gwag ar gyfer yr un gwasanaeth.

Dengys y tabl isod nifer y lleoliadau gofal dydd llawn gyda rhestr aros yn ystod tymor ysgol, fesul ardal, yn ôl iaith eu darpariaeth:

| | Iaith y Ddarpariaeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | Cymraeg a Saesneg | | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | | Saesneg | |
| | Ardal 1 | Ardal 4 | Ardal 1 | Ardal 4 | Ardal 1 | Ardal 4 | Ardal 1 | Ardal 4 |
| Tymor y Gwanwyn | | | | | | | | |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | | | 8 | | | | | |
| Tymor yr Haf | | | | | | | | |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | | | 5 | 3 | | | | |
| Ar ôl Ysgol | | | | 2 | | | | |
| Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin (yb) | | | | 1 | | | | |
| Tymor yr Hydref | | | | | | | | |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | | | 6 | 1 | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dim ond lleoliadau yn Ardaloedd 1 a 4 ddywedodd fod ganddynt restr aros, 73% yn Ardal 1 (Bangor) am ddarpariaeth meithrinfa dydd.
Ni ddywedodd yr un lleoliad fod ganddynt restr aros yn ystod gwyliau'r ysgol.

DRAFT

**Amseroedd Agor**
Dengys data HAG AGGCC amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau am ddarparwyr gofal dydd llawn ar draws Gwynedd yn ystod tymor ysgol.
Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| Iaith | Cychwyn | Gorffen | Nifer y lleoliadau |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 07:30 | 18:00 | 2 |
| | 07:45 | 18:00 | 1 |
| | 07:50 | 17:30 | 1 |
| | 08:00 | 17:30 | 1 |
| | 08:45 | 15:15 | 1 |
| | 09:00 | 15:10 | 1 |
| | 09:15 | 15:00 | 1 |
| | 09:15 | 15:30 | 1 |
| Cymraeg a Saesneg | 07:00 | 18:00 | 2 |
| | 07:30 | 18:00 | 3 |
| | 07:35 | 17:55 | 1 |
| | 08:00 | 18:00 | 5 |
| | 08:30 | 17:30 | 1 |
| Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | 08:00 | Dim amser gorffen wedi'i nodi | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Ni roes 3 lleoliad ateb i'r rhan hwn o gofnod HAG.
Mae16 lleoliad ar agor erbyn 8yb bob dydd, gyda 7 o'r rhain ar agor cyn 7:30yb. Nid oes yr un lleoliad ar agor wedi 6yh.
Mae'r lleoliadau sesiynol a gofrestrwyd fel gofal dydd llawn ar agor am lai o oriau bob dydd o gymharu â meithrinfeydd dydd llawn.
Un feithrinfa dydd llawn yn Ardal 4 (Porthmadog) a nododd ei bod ar agor ar ddydd Sadwrn.
Yr oedd y data am oriau agor yn ystod gwyliau'r ysgol yn anghyflawn. O ran y rhai a lenwodd yr adran hon, yr oedd yr oriau agor am feithrinfeydd dydd llawn yr un fath ag yn ystod tymor ysgol, a'u bod ar agor yn ystod holl wyliau'r ysgol ac eithrio am 2 a ddywedodd eu bod ar gau yn ystod gwyliau'r Nadolig.





DRAFT

**Ystod oedran y plant**
Dengys y tabl isod oedrannau'r plant y gall lleoliadau gofal dydd llawn eu cymryd:


| Ystod Oedran | Nifer y Lleoliadau Gofal Dydd Llawn | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Dan 12 mis | 7 | 4 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| 12 – 18 mis | 7 | 4 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| 19 – 23 mis | 7 | 4 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| 2 flwydd | 10 | 5 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 3 oed | 10 | 5 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 4 oed | 9 | 5 | 2 | 2 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 5 – 7 oed | 6 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| 8 – 11 oed | 5 | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| 12 – 14 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 – 17 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae mwyafrif y lleoliadau gofal dydd llawn yn gofalu am blant o dan 12 mis oed, gyda'r niferoedd yn gostwng wedi'r grŵp oedran 5-7. Ni ddywedodd yr un lleoliad eu bod yn gofalu am blant hyn nac 11 oed.

DRAFT

Dengys y siart isod nifer y plant sy’n mynychu lleoliad gofal dydd llawn yn ystod tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y data am wyliau’r ysgol yn anghyflawn.




*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae rhai o’r lleoliadau sesiynol a gofrestrwyd fel gofal dydd llawn ond yn derbyn plant 2 – 4 oed, sydd yn esbonio’r cynnydd yn nifer y plant sy’n mynychu yn ystod tymor ysgol yn y grŵp oedran hwn.
Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y plant 8 – 11 oed sy’n mynychu lleoliadau gofal dydd llawn, a allai fod yn adlewyrchiad o lai o alw neu lai o leoliadau sy’n cymryd  plant o’r oed yma.

**Ystod Tâl a Godir**

Mae'n anodd iawn dadansoddi ystod y tâl a godir gan i rai lleoliadau lenwi'r adran hon gan ddefnyddio eu cyfradd fesul awr, eraill fesul dydd, a rhai fesul sesiwn. Ni lenwodd rhai lleoliadau'r adran hon.

Heb syniad o'r oriau yr ymdrinnir â hwy, mae'n anodd iawn crynhoi gwir gost pob sesiwn; fodd bynnag, dengys y tabl isod ystod y ffioedd am bob gwasanaeth a ddarperir, fel y'i rhoddwyd yng nghofnod HAG AGGCC.

| | Ystod Costau yn ôl Gwasanaeth a Ddarperir | | |
|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | £3.60 - £4.18/awr<br>£22 - £37 | £3.66 - £3.88/awr<br>£34.50 - £41 | £4.76/awr |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yb) | £3.70 - £5.27/awr<br>£24 | £4.40 – £5.55/awr<br>£20 - £28 | £4.76/awr |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (yh) | £3.90 - £5.80/awr<br>£24 | £4.00 - £5.55/awr<br>£12 - £28 | £4.76/awr |
| Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae(yb) | £2.00 - £7.00 | £7.50 | |
| Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae(yh) | £2.00 - £7.00 | | |
| Cyn yr Ysgol | £3.80 - £5.00 | £2.85 - £7.50 | |
| Ar ôl Ysgol | £3.00 - £9.00 | £2.75 - £14 | £4.96/awr |
| Cofleidiol | £4.00 - £17.00 | | |
| Crèche | £4.00 | £10.00 | £4.96/awr |
| Cinio | £2.00 - £8.00 | | £1.20 |
| Darpariaeth Gwyliau (yb) | | £5.55/awr<br>£10 - £35 | £4.76/awr |
| Darpariaeth Gwyliau (yh) | | £5.55/awr<br>£10 - £28 | £4.76/awr |
| Arall | | £2.00 - £29 | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

Mae'r gyfradd gofal dydd llawn isaf o £22 yn Ardal 3 (Llŷn), a'r uchaf o £41 yn Ardal 1 (Bangor).

Dywedodd 4 o leoliadau gofal dydd llawn eu bod yn codi'n ychwanegol am brydau, byrbrydau, clytiau, cludiant a thripiau. Yr oedd y lleoliadau hyn yn Ardal 1 a 2 yn unig.

Dywedodd 10 o leoliadau gofal dydd llawn eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd; yr oedd y gostyngiad yn amrywio o 5% - 15%.

Dywedodd 15 o leoliadau gofal dydd llawn nad ydynt yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

DRAFT

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o ddarparwyr gofal dydd llawn ar draws y sir: mae'r niferoedd uchaf yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon), a hwy hefyd yw'r ardaloedd gyda'r boblogaeth uchaf a'r mwyaf o gyfleoedd gwaith.
Dewis cyfyngedig o ddarpariaeth gofal dydd llawn sydd yn Ardal 3 (Llŷn), Ardal 5 (Ffestiniog) Ardal 6 (Dolgellau) Ardal 7 (Penllyn) ac Ardal 8 (Tywyn).
Fodd bynnag, oherwydd natur wledig yr ardaloedd hyn a'r lefelau poblogaeth is, efallai na fyddai darpariaeth gofal dydd llawn yn gynaliadwy.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, cawsom 2 feithrinfa ddydd llawn yn cofrestru, un yn Ardal 4 (Porthmadog) ac un yn Ardal 8 (Tywyn) ond caeodd 2 feithrinfa ddydd llawn hefyd yn ystod yr amser hwn, y ddau yn Ardal 1 (Bangor).

Mae 20 lleoliad yn cynnig darpariaeth meithrinfa diwrnod llawn, 14 yn cynnig darpariaeth ar ôl ysgol, mae gan 13 ddarpariaeth gwyliau ond dim ond 11 sy'n cynnig gwasanaeth cofleidiol a chinio.
Un feithrinfa ddydd llawn, darpariaeth ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau sydd yn Ardal 8 (Tywyn).

Ar draws y sir, mae amrywiaeth mawr o ran canran y plant sy'n mynychu lleoliad gofal dydd llawn yn llawn amser yn ystod y tymor:
Ardal 1 - 40%; Ardal 2 – 16%; Ardal 3 – 10%; Ardal 4 – 7%; Ardal 5 – 10%; Ardal 6 – 53%; Ardal 7 – 19%; Ardal 8 - 0%
Mae llai yn manteisio ar lefydd gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, ac y mae 80% yn mynychu'n rhan amser; mae hyn yn gwneud staffio a chynaliadwyedd yn anodd i'r lleoliadau.

Mae meithrinfeydd dydd llawn ar draws y sir yn gallu ateb anghenion rhieni sy'n gweithio, gydag 16 lleoliadau ar agor erbyn 8yb bob dydd; mae 7 yn agor cyn 7:30yb. Mae 13 lleoliad ar agor tan 6yh.
Mae'r lleoliadau sesiynol a gofrestrwyd fel gofal dydd llawn ar agor am lai o oriau bob dydd o gymharu â meithrinfeydd dydd llawn.
Dim ond un feithrinfa dydd llawn yn Ardal 4 (Porthmadog) a ddywedodd ei bod ar agor ar ddydd Sadwrn.

Mae darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dda. Yr oedd 38 o blant gydag amrywiaeth o wahanol anghenion yn cyrchu darpariaeth gofal dydd llawn ar draws y rhan fwyaf o'r sir; fodd bynnag, ni nododd yr un lleoliad yn Ardaloedd 7 a 8 eu bod yn gofalu am blentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Cymraeg ar draws y sir - mae 96% o'r ddarpariaeth gofal dydd llawn yng Ngwynedd naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, dim ond 4% sydd yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
Does dim darpariaeth gofal dydd llawn Saesneg yn unig yng Ngwynedd.

Dim ond lleoliadau yn Ardaloedd 1(Bangor) a 4 (Porthmadog) a ddywedodd fod ganddynt restr aros yn ystod tymor ysgol; yr oedd 73% yn Ardal 1 am ddarpariaeth meithrinfa dydd llawn.
Ni ddywedodd yr un lleoliad fod ganddynt restr aros yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae mwyafrif y lleoliadau gofal dydd llawn ar draws y sir yn cymryd plant o 0 - 7 oed; ni nododd yr un lleoliad eu bod yn gofalu am blant hŷn nac 11 oed.

Mae amrywiaeth mawr iawn yn y tâl a godir am ddarpariaeth meithrinfa dydd llawn ar draws y sir gyfan, gyda'r gyfradd isaf o £22 yn Ardal 3 (Llŷn), a'r gyfradd uchaf o £41 yn Ardal 1 (Bangor).
Mae 48% o leoliadau yn codi rhwng £35 - £41 am ddarpariaeth meithrinfa diwrnod llawn.

DRAFT


### 6.3 Gofal Dydd Sesiynol

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**

Yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 65 o leoliadau gofal dydd sesiynol cofrestredig sy'n darparu cyfanswm o 1929 o lefydd cofrestredig, a 2 leoliad sesiynol heb eu cofrestru yn darparu 28 o lefydd yn ychwanegol.
Yn ystod y 2 flynedd diwethaf, caeodd 2 leoliadau gofal sesiynol cofrestredig, un yn Ardal 1(Bangor) ac un yn Ardal 3(Llŷn) ac agorodd un lleoliad newydd yn Ardal 8(Tywyn).

O'r 65 lleoliad gofal sesiynol yma, dim ond 51 a lenwodd y cofnod HAG arlein yn 2016.

Dengys y siart isod nad oes dosbarthiad gwastad o leoliadau gofal sesiynol ar draws y sir, gyda gostyngiad sylweddol mewn niferoedd mewn ardaloedd yn y de:




*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

**Ystod y gwasanaethau a ddarperir**

Dengys y tabl isod ystod y gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr gofal dydd sesiynol ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gofal Dydd Sesiynol | 8 | 17 | 7 | 7 | 2 | 4 | 4 | 2 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 6 | 15 | 7 | 6 | 2 | 4 | 3 | 2 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | 2 | 4 | | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Cinio | 1 | 9 | | 3 | | 2 | | 1 |
| Cofleidiol | 2 | 4 | | 1 | 1 | 1 | | |
| Arall | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 88% o leoliadau yn cynnig sesiynau bore a dim ond 24% sy'n cynnig sesiynau prynhawn. Dim ond 31% sy'n cynnig gwasanaeth cinio ac 18% sy'n cynnig gofal cofleidiol.
Nid oes gofal cinio na chofleidiol yn Ardal 3 (Llŷn) nac Ardal 7 (Bala).

DRAFT

**Nifer a math o lefydd i blant a lenwir (llawn amser, rhan amser, ad hoc)**
**Adeg tymor**
Dengys y tabl isod uchafswm nifer y llefydd sydd ar gael yn ystod tymor ysgol:

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 855 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | 354 |
| Cinio | 224 |
| Cofleidiol | 76 |
| Arall | 11 |
| **Cyfanswm Llefydd** | **1520** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod  nifer y llefydd gofal plant a lenwyd yn ôl y math o wasanaeth:

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yb) | 359 | 479 | 15 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae (yh) | 145 | 167 | 2 |
| Cinio | 23 | 115 | 0 |
| Cofleidiol | 35 | 34 | 0 |
| Arall | 3 | 22 | 0 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **565** | **817** | **17** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Ar gyfartaledd, mae 40% o blant yn mynychu lleoliad sesiynol yn llawn amser, 59% yn mynychu yn rhan amser a dim ond 1% sy'n mynychu ad hoc.
Mae'r nifer yn amrywio ar draws y gwasanaethau, gyda dim ond 17% o blant yn mynychu darpariaeth cinio yn llawn amser ond 51% yn mynychu darpariaeth cofleidiol llawn amser.
Ar draws y sir, mae amrywiaeth mawr yng nghanran y plant sy'n mynychu lleoliad gofal dydd sesiynol yn llawn amser:
Ardal 1  - 23%; Ardal 2 – 51%; Ardal 3 – 23%; Ardal 4 – 20%; Ardal 5 – 33%; Ardal 6 – 48%; Ardal 7 – 83%; Ardal 8 -  18%

DRAFT

**Gwyliau'r ysgol**
Yn ôl data HAG AGGCC, mae cyfanswm o 96 o lefydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm llefydd yn ystod gwyliau'r ysgol | 12 | 64 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwir yn ystod pob gwyliau:

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwyliau'r Haf | 57 | 23 | 2 | 82 |
| Hanner Tymor yr Hydref | 67 | 9 | 1 | 77 |
| Gwyliau'r Nadolig | 41 | 9 | 1 | 51 |
| Hanner Tymor Chwefror | 87 | 9 | 1 | 97 |
| Gwyliau'r Pasg | 41 | 9 | 1 | 51 |
| Hanner Tymor Mai | 92 | 9 | 1 | 102 |
| **Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu** | **385** | **68** | **7** | **460** |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Rhaid nodi nad oedd rhai lleoliadau wedi llenwi'r adran oedd yn nodi uchafswm eu llefydd, ond wedi llenwi'r adran gyda nifer y llefydd a lenwyd, felly mae'n anodd cael darlun llawn o'r llefydd ar gael ac a ddefnyddir yn ystod gwyliau'r ysgol.

Yr oedd 84% o blant yn mynychu lleoliad gofal dydd sesiynol yn llawn amser yn ystod gwyliau'r ysgol, 15% yn mynychu'n rhan amser ac 1% yn mynychu sesiynau ad hoc.

DRAFT

**Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd**

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol or anabledd | 17 | 35 | 1 | 2 | 1 | 6 | 4 | 3 |
| Nifer y plant gyda datganiadau neu sy'n aros am asesu ffurfiol | | | | | | | | |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 4 | 15 | 1 | 2 | 1 | 3 | 3 | 1 |
| Dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, Dyspracsia) | 3 | 1 | | | | | | 1 |
| Anawsterau clywed | 2 | 1 | | | | | | |
| Anawsterau dysgu (e.e. oedi datblygiadol cyffredinol etc.) | | 7 | | 1 | | 2 | 1 | |
| Anawsterau gweld | | 1 | | | | | | |
| Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol | 2 | 8 | | | | 1 | 1 | |
| Corfforol | | 1 | | | | | | 1 |
| Cyflwr meddygol – bag colostomi | 1 | | | | | | | |
| Cyflwr meddygol – alergeddau | | 1 | | | | | | |
| Cyflwr meddygol – hypersymudedd | | 1 | | | | | | |
| Cyflwr meddygol - epilepsi | | 1 | | | | | | |
| Cyflwr meddygol – syndrom PHACE | | | | | | | | 1 |
| Arall – spectrwm awtistig | | 1 | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Yr oedd 69 o blant ag anghenion dysgu ychwanegol, neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd yn derbyn gofal mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol. Mae'r niferoedd yn amrywio'n fawr ar draws y sir, gyda 75% o'r plant yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon).

DRAFT

**Nifer y llefydd Cymraeg a lenwir**

O'r 51 lleoliad gofal dydd sesiynol a lenwodd gofnod HAG AGGCC, dywedodd 43 fod eu gwasanaeth yn Gymraeg, 7 yn Gymraeg a Saesneg (dwyieithog) ac 1 yn Saesneg.

Dengys y tabl isod nifer y lleoliadau gofal dydd sesiynol yn ôl iaith eu darpariaeth, ym mhob un ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | **Ardal 1** | **Ardal 2** | **Ardal 3** | **Ardal 4** | **Ardal 5** | **Ardal 6** | **Ardal 7** | **Ardal 8** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 6 | 15 | 6 | 6 | 1 | 4 | 4 | 1 |
| Cymraeg a Saesneg | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | | | |
| Saesneg | | | | | | | | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 84% o'r ddarpariaeth gofal dydd sesiynol yng Ngwynedd yn Gymraeg, 14% yn Gymraeg a Saesneg a dim ond 2% yn cael ei gyflwyno yn Saesneg.
Darpariaeth Gymraeg yn unig sydd yn Ardal 6 (Dolgellau) ac Ardal 7 (Penllyn), ac Ardal 8 (Tywyn) yw'r unig ardal yn y sir gyda darpariaeth gofal dydd sesiynol Saesneg.

Dengys y tabl isod gyfanswm nifer y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| Nifer y llefydd ar gael | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg |
|---|---|---|---|
| Tymor ysgol | 1235 | 237 | 48 |
| Gwyliau'r ysgol | 84 | 12 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

**Llefydd Gwag a Rhestr Aros**

Mae nifer y llefydd gwag a gofnodir yn data HAG AGGCC yn anghyson am fod lleoliadau wedi defnyddio dulliau gwahanol o weithio allan - felly ni ellir ystyried y data fel adlewyrchiad cywir o nifer y llefydd gwag. Mae rhai lleoliadau hefyd wedi cofnodi rhestr aros a lle gwag ar gyfer yr un gwasanaeth.

Dengys y tabl isod nifer y lleoliadau gofal dydd sesiynol gyda rhestr aros yn ystod tymor ysgol, fesul ardal, yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| | Iaith y Ddarpariaeth | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | | | Cymraeg a Saesneg | | | | Saesneg |
| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 8 |
| Tymor y Gwanwyn | | | | | | | | | |
| Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Bore | | 1 | | | | | | | 3 |
| Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Prynhawn | | | | | | | | | 4 |
| Tymor yr Haf | | | | | | | | | |
| Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin Bore | | 11 | | 5 | | | 14 | | 5 |
| Tymor yr Hydref | | | | | | | | | |
| Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin Bore | | 3 | | | | | | | 12 |
| Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin Prynhawn | | | | | | | | | 6 |

Dywedodd lleoliadau yn Ardaloedd 2, 3, 4 ac 8 fod ganddynt restr aros, 47% ar gyfer darpariaeth Saesneg yn Ardal 8 (Tywyn), 55% am sesiynau bore yn nhymor yr haf.

Ni ddywedodd yr un lleoliad fod ganddynt restr aros yn ystod gwyliau'r ysgol.

DRAFT

**Amseroedd Agor**

Dengys data HAG AGGCC amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau i ddarparwyr gofal dydd sesiynol ar draws Gwynedd yn ystod tymor ysgol

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r data yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| Iaith | Cychwyn | Gorffen | Nifer y lleoliadau |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 08:40 | 11:10 | 1 |
| | 08:40 | 11:40 | 1 |
| | 08:45 | 10:55 | 1 |
| | 08:45 | 11:15 | 3 |
| | 08:50 | 11:00 | 1 |
| | 08:50 | 12:50 | 1 |
| | 08:55 | 11:00 | 1 |
| | 09:00 | 13:00 | 2 |
| | 09:00 | 11:00 | 5 |
| | 09:00 | 11:30 | 10 |
| | 09:00 | 11:40 | 1 |
| | 09:00 | 13:00 | 1 |
| | 09:10 | 11:40 | 1 |
| | 09:15 | 11:45 | 3 |
| | 11:00 | 13:00 | 4 |
| | 11:15 | 12:15 | 1 |
| | 11:15 | 13:00 | 1 |
| | 11:15 | 15:00 | 1 |
| | 11:30 | 14:55 | 1 |
| | 12:00 | 14:30 | 1 |
| | 12:00 | 14:50 | 1 |
| | 12:15 | 14:45 | 1 |
| | 12:15 | 15:00 | 1 |
| | 12:30 | 15:00 | 4 |
| | 12:45 | 14:50 | 1 |
| | 12:45 | 15:15 | 1 |
| | 12:50 | 15:00 | 1 |
| | 13:00 | 15:00 | 2 |
| | 13:15 | 15:45 | 1 |
| | 13:30 | 15:30 | 1 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymraeg a Saesneg | 09:00 | 11:30 | 3 |
| | 09:00 | 12:00 | 1 |
| | 09:10 | 11:40 | 1 |
| | 11:00 | 14:55 | 1 |
| | 11:30 | 12:55 | 1 |
| | 11:30 | 13:00 | 1 |
| | 12:15 | 14:45 | 1 |
| | 12:30 | 14:55 | 1 |
| | 12:30 | 15:00 | 1 |
| Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | 09:00 | 13:00 | 1 |
| | 13:00 | 15:00 | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Nid oes yr un lleoliad ar agor cyn 8:40yb, ac y mae mwyafrif y sesiynau bore yn cychwyn rhwng 8:45yb a 9:15yb.
3:45yh yw’r amser cau olaf.
Nid oes yr un lleoliad gofal dydd sesiynol ar agor ar benwythnosau.

Ni fu modd dadansoddi’r amseroedd agor yn ystod gwyliau’r ysgol oherwydd anghysondebau yn y data HAG.

DRAFT

**Oedrannau'r plant**
Dengys y tabl isod oedrannau'r plant y gall lleoliadau gofal dydd sesiynol eu cymryd.

| Ystod oedran | Nifer y Lleoliadau Gofal Dydd Sesiynol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Dan 12 mis | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 12 – 18 mis | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 19 – 23 mis | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 flwydd | 8 | 16 | 7 | 7 | 2 | 4 | 4 | 2 |
| 3 oed | 8 | 17 | 7 | 7 | 2 | 4 | 4 | 2 |
| 4 oed | 6 | 14 | 4 | 5 | 2 | 4 | 4 | 2 |
| 5 – 7 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 8 – 11 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 12 – 14 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 – 17 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae mwyafrif llethol y lleoliadau gofal dydd sesiynol yn gofalu am blant o 2 – 4 oed; un lleoliad yn unig ddywedodd eu bod yn gofalu am blant o 12 – 23 mis oed.
Nid oes yr un lleoliad yn gofalu am blant dros 5 oed.

DRAFT

Tud. 80

Dengys y siart isod nifer y plant sy’n mynychu lleoliad gofal dydd sesiynol yn ystod tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y data ar gyfer gwyliau’r ysgol yn anghyflawn.




Mae cynnydd sylweddol yn nifer y plant 3 oed sy’n mynychu lleoliadau gofal sesiynol, fwy na thebyg oherwydd bod 63 o’r 65 lleoliad cofrestredig dan gontract i gyflwyno 10 awr o Addysg Feithrin i blant y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3.

**Ystod Tâl a Godir**
Mae'n anodd iawn dadansoddi ystod y tâl a godir gan i rai lleoliadau lenwi'r adran hon gan ddefnyddio eu cyfradd fesul awr, eraill fesul dydd, a rhai fesul sesiwn. Ni lenwodd rhai lleoliadau'r adran hon.
Heb syniad o'r oriau yr ymdrinnir â hwy, mae'n anodd iawn crynhoi gwir gost pob sesiwn; fodd bynnag, dengys y tabl isod ystod y ffioedd am bob gwasanaeth a ddarperir, fel y rhoddwyd yng nghofnod HAG AGGCC.

| | Ystod Costau yn ôl y Gwasanaeth a Ddarperir | | |
|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg |
| Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae (am) | £1.38 - £8.40 | £2.00 - £5.00 | £10.00 |
| Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae (yh) | £1.00 - £10.00 | £3.50 - £6.00 | £5.00 |
| Cinio | £2.00 - £6.00 | £3.66 - £6.50 | |
| Cofleidiol | £2.40 - £4.00 | £6.50 - £10.00 | |
| Arall | £1.00 - £2.50 | £7.00 | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dywedodd 2 leoliadau gofal dydd sesiynol eu bod yn codi cost ychwanegol am brydau, byrbrydau, clytiau, cludiant a thripiau. Mae 1 lleoliad yn Ardal 6 (Dolgellau) a'r llall yn Ardal 8 (Tywyn).

Dywedodd 4 lleoliad eu bod yn  cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd; yr oedd dau o'r rhain i efeilliaid yn unig. Dywedodd 47 lleoliad nad oeddent yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o ddarparwyr gofal dydd sesiynol ar draws y sir; mae'r niferoedd uchaf yn Ardal 1 (Bangor) Ardal 2 (Caernarfon), Ardal 3 (Llŷn) ac Ardal 4 (Porthmadog).

Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, caeodd dau leoliad gofal sesiynol cofrestredig, un yn Ardal 1(Bangor) ac un yn Ardal 3(Llŷn) ac agorodd un lleoliad newydd yn Ardal 8(Tywyn).

Mae ystod y gwasanaethau a gynigir yn gyfyngedig o gymharu â'r mathau eraill o ddarparwyr gofal plant, ac y mae cyfran uchel yn cynnig sesiynau bore yn unig - 88% o leoliadau sy'n cynnig sesiynau bore, a dim ond 24% sy'n cynnig sesiynau prynhawn. 31% yn unig sy'n cynnig gwasanaeth cinio ac y mae 18% yn cynnig gofal cofleidiol.
Nid oes gofal cinio na chofleidiol yn Ardal 3 (Llŷn) nac Ardal 7 (Bala).

Ar draws y sir, mae amrywiaeth mawr yng nghanran y plant sy'n mynychu lleoliad gofal dydd sesiynol yn llawn amser:
Ardal 1 - 23%; Ardal 2 – 51%; Ardal 3 – 23%; Ardal 4 – 20%; Ardal 5 – 33%; Ardal 6 – 48%; Ardal 7 – 83%; Ardal 8 - 18%
Mae'r niferoedd hefyd yn amrywio ar draws y gwasanaethau, gyda dim ond 17% o blant yn mynychu darpariaeth cinio yn llawn amser ond 51% yn mynychu darpariaeth gofleidiol llawn amser.

Nid yw gofal dydd sesiynol yn ateb anghenion y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio, gan nad oes yr un lleoliad ar agor cyn 8:40yb, a'r mwyafrif o sesiynau bore yn cychwyn rhwng 8:45yb a 9:15yb, gyda 3:45yh yr amser cau olaf.
Nid oes yr un lleoliad gofal dydd sesiynol ar agor ar benwythnosau.

Mae'r ddarpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dda iawn. Yr oedd 69 o blant gydag amrywiaeth o wahanol anghenion yn derbyn gofal mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol ar draws y sir, ond mae'r niferoedd yn amrywio'n fawr ar draws y sir, gyda 75% o'r plant yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon).

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Gymraeg ar draws y sir, gyda 98% o'r ddarpariaeth gofal dydd sesiynol naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gyda dim ond 2% yn Saesneg.

Dywedodd lleoliadau yn Ardal 2, 3, 4 a 8 fod ganddynt restr aros; yr oedd 47% am ddarpariaeth Saesneg yn Ardal 8 (Tywyn), 55% am sesiynau bore yn ystod tymor yr haf.

DRAFT

## 6.4 Crèches

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**
Nid oes lleoliadau crèche cofrestredig penodol yn y sir; fodd bynnag, dywedodd 4 darparwr gofal dydd llawn eu bod yn cynnig gwasanaeth crèche.

Mae meithrinfa'r awdurdod lleol a meithrinfa Barnardo's yn cynnig cyfleusterau crèche symudol i gefnogi rhaglenni rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae nifer y plant yn dibynnu ar faint yr ystafell ac oedran y plant sy'n mynychu.

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Mae'r fffaith fod cyfleusterau crèche symudol ar gael yn sicrhau gofal plant o safon uchel i gefnogi rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mae'r galw'n uchel ac ni ellir rhoi darpariaeth i bob cwrs; gallai mwy o ddarpariaeth yn ardaloedd Dechrau'n Deg gwrdd â'r anghneion hynny.

Mae angen i Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg gaffael gwasanaethau crèche o'r tu allan i'r sir oherwydd y galw uchel ar adegau. Mae hyn yn wendid ac mae angen datblygu mwy o cyfleusterau crèche lleol ar gyfer y rhaglenni.

DRAFT

DRAFT

## 6.5 Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol

Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 29 o glybiau tu allan i oriau ysgol cofrestredig yn darparu cyfanswm o 725 o lefydd, a 10 clwb heb eu cofrestru sy'n darparu 208 o lefydd ychwanegol.

O'r 29 clwb tu allan i oriau ysgol cofrestredig, mae 12 mewn lleoliadau meithrinfa dydd a gellir gweld eu manylion yn adran 6.2.

Mae'r 17 clwb cofrestredig arall yn gymysgedd o ddarparwyr preifat a rhai gwirofddol a redir gan bwyllgor. Agorodd 5 clwb newydd yn y 2 flynedd ddiwethaf mewn ardaloedd ar draws y sir; fodd bynnag, mae 2 eraill wedi cau, y ddau ohonynt yn Ardal 1 (Bangor)

O'r 17 clwb tu allan i oriau ysgol cofrestredig, dim ond 9 a lenwodd gofnod HAG arlein yn 2016; yr oedd 2 o'r rhain yn Ardal 1 (Bangor) a 7 yn Ardal 2 (Caernarfon). Nid yw'r data felly yn rhoi darlun cywir i ni o'r ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol yn y sir.

Ystod y gwasanaethau a ddarperir
Dengys y tabl ystod y gwasanaethau a gynigir gan glybiau tu allan i oriau ysgol ym mhob un ardal:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Darparwyr Tu Allan i oriau Ysgol | 2 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyn yr Ysgol | | 1 | | | | | | |
| Ar ôl Ysgol | 1 | 7 | | | | | | |
| Darpariaeth Gwyliau | 1 | 2 | | | | | | |
| Sesiynau cynllun chwarae | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Nifer a math o lefydd i blant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, ad hoc)
Adeg tymor
Dengys y tabl isod uchafswm nifer y llefydd sydd ar gael yn ystod tymor ysgol:

| | |
|---|---|
| Cyn Ysgol | 14 |
| Ar ôl Ysgol | 204 |
| Sesiynau cynllun chwarae | 16 |
| Cyfanswm Llefydd | 234 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwyd, yn ôl y math o wasanaeth:

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Cyn Ysgol | 1 | 13 | 0 |
| Ar ôl Ysgol | 15 | 225 | 27 |
| Sesiynau cynllun chwarae | | | |
| Cyfanswm Nifer y plant sy'n Mynychu | 16 | 238 | 27 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 95% o blant yn mynychu sesiynau ar ôl ysgol, a 84% o'r rhain yn mynychu'n rhan amser.

DRAFT

Gwyliau'r ysgol
Yn ôl data HAG AGGCC, mae cyfanswm o 112 o lefydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm llefydd yn ystod gwyliau'r ysgol | 56 | 56 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y tabl isod nifer y llefydd gofal plant a lenwir yn ystod pob gwyliau:

| | Llawn amser | Rhan amser | Ad hoc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwyliau'r Haf | 21 | 42 | 24 | 87 |
| Hanner Tymor yr Hydref | 19 | 27 | 5 | 51 |
| Gwyliau'r Nadolig | 2 | 23 | 0 | 25 |
| Hanner Tymor Chwefror | 21 | 33 | 1 | 55 |
| Gwyliau'r Pasg | 22 | 41 | 16 | 79 |
| Hanner Tymor Mai | 19 | 40 | 3 | 62 |
| Cyfanswm Nifer y Plant sy'n Mynychu | 104 | 206 | 49 | 359 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae 29% o blant yn mynychu lleoliad tu allan i oriau ysgol yn llawn amser yn ystod gwyliau'r ysgol, 58% yn mynychu'n rhan amser a 13% yn mynychu sesiynau ad hoc.

DRAFT

Nifer y llefydd a lenwyd gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd

Yn ôl data HAG data yr oedd 2 o blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd yn derbyn gofal mewn darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn Ardal 2 (Caernarfon); yr oedd gan un anhawster gweld, a'r llall ag anhwylder ar y spectrwm awtistig.

Yr ydym, er hynny, yn ymwybodol o 3 phlentyn sy'n mynychu darpariaeth tu allan i oriau ysgol sy'n cael eu cyllido am gefnogaeth Dwylo Ychwanegol trwy'r Grant Gofal Plant Tu Allan i oriau Ysgol.

Nifer y llefydd Cymraeg a lenwyd

O'r 9 lleoliad gofal tu allan i oriau ysgol a lenwodd gofnod HAG AGGCC, dywedodd 6 fod eu gwasanaeth yn Gymraeg ac yr oedd 3 yn Gymraeg a Saesneg.

Dengys y tabl isod gyfanswm nifer y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| Nifer y llefydd ar gael | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg |
|---|---|---|
| Tymor ysgol | 180 | 54 |
| Gwyliau'r ysgol | 96 | 16 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

DRAFT

Llefydd Gwag a Rhestr Aros

Mae nifer y llefydd gwag a gofnodir yn data HAG AGGCC yn anghyson am fod lleoliadau wedi defnyddio dulliau gwahanol o weithio allan – felly ni ellir ystyried y data fel adlewyrchiad cywir o nifer y llefydd gwag. Mae rhai lleolaidau hefyd wedi cofnodi rhestr aros a lle gwag ar gyfer yr un gwasanaeth.

Dengys y tabl isod  nifer y lleoliadau gofal tu allan i oriau ysgol gyda rhestr aros yn ystod tymor ysgol, fesul ardal, yn ôl iaith y ddarpariaeth:

| | Iaith y Ddarpariaeth | |
|---|---|---|
| | Cymraeg | |
| | Ardal 1 | Ardal 2 |
| Tymor y Gwanwyn | | |
| Ar ôl Ysgol | | 21 |
| Tymor yr Haf | | |
| Ar ôl Ysgol | | 21 |
| Tymor yr Hydref | | |
| Ar ôl Ysgol | | 25 |

Dim ond lleoliadau Cymraeg yn Ardal 2 (Caernarfon) a ddywedodd fod ganddynt restr aros, ac yr oedd hyn ar gyfer gofal ar ôl ysgol yn unig.

Ni ddywedodd yr un lleoliad fod ganddynt restr aros yn ystod gwyliau'r ysgol.

DRAFT

Amseroedd Agor
Mae data HAG AGGCC yn dangos amrywiaeth o amseroedd agor a chau gwahanol i ddarparwyr gofal tu allan i oriau ysgol ar draws Gwynedd.
Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data yn ôl iaith y ddarpariaeth yn ystod tymor ysgol:

| Iaith | Cychwyn | Gorffen | Nifer y lleoliadau |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 07:30<br>11:00<br>15:00<br>15:00<br>15:00 | 09:00<br>13:00<br>17:30<br>17:45<br>18:00 | 1<br>1<br>2<br>2<br>2 |
| Cymraeg a Saesneg | 15:00 | 18:00 | 2 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data yn ystod gwyliau'r ysgol:

| Iaith | Cychwyn | Gorffen | Nifer y lleoliadau |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 07:30<br>08:00<br>08:30<br>13:00<br>13:00 | 13:00<br>18:00<br>13:00<br>17:30<br>18:00 | 1<br>1<br>1<br>1<br>1 |
| Cymraeg a Saesneg | 09:00 | 17:00 | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae un lleoliad yn Ardal 2 (Caernarfon) yn agor am 7:30yb – 9yb a 3yh – 6yh yn ystod tymor ysgol a, 7:30yb – 1yh a 1yh – 6yh yn ystod gwyliau'r ysgol.
Nid oes un lleoliadau gofal tu allan i oriau ysgol ar agor wedi 6yh nac ar benwythnosau.

DRAFT

Ystod Oedran y Plant
Dengys y tabl isod oedrannau'r plant y gall lleoliadau gofal tu allan i oriau ysgol eu cymryd:

| Ystod Oedran | Nifer y Lleoliadau Gofal Tu Allan i'r Ysgol | |
|---|---|---|
| | Ardal 1 | Ardal 2 |
| 3 oed | 1 | 3 |
| 4 oed | 1 | 7 |
| 5 – 7 oed | 1 | 7 |
| 8 – 11 oed | 2 | 7 |


*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Mae'r holl lleoliadau gofal tu allan i oriau ysgol yn gofalu am blant 3 – 11 oed, sef oedran ysgol gynradd.

Dengys y siart isod nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth tu allan i oriau ysgol yn ystod tymor ysgol ac yn ystod y gwyliau.



DRAFT




DRAFT

Ystod Tâl a Godir

Mae’n anodd iawn dadansoddi ystod y tâl a godir gan i rai lleoliadau lenwi’r adran hon gan ddefnyddio eu cyfradd fesul awr, eraill fesul dydd, a rhai fesul sesiwn. Ni lenwodd rhai lleoliadau'r adran hon.

Heb syniad o’r oriau yr ymdrinnir â hwy, mae’n anodd iawn crynhoi gwir gost pob sesiwn; fodd bynnag, dengys y tabl isod ystod y ffioedd am bob gwasanaeth a ddarperir, fel y rhoddwyd yng nghofnod HAG AGGCC.

| | Cyn yr Ysgol | Wedi’r Ysgol | Darpariaeth Gwyliau | Sesiynau cynllun chwarae |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | £5.00 | £2.18 - £15.00 | £2.22 - £37.00 | |
| | | | | |
| Cymraeg a Saesneg | | £7.50 - £10.50 | | £2.25 |
| | | | | |

Dywedodd un lleoliad yn Ardal 2 (Caernarfon) eu bod yn codi’n ychwanegol am brydau, byrbrydau, clytiau, cludiant a thripiau.

Dywedodd un lleoliad yn Ardal 2 (Caernarfon) eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd o ‘Dalu am 2 ac mae’r 3ydd am ddim’

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Mae gofal plant tu allan i oriau ysgol yn cynnwys cyn ysgol, ar ôl ysgol, cofleidiol, darpariaeth gwyliau a chynlluniau chwarae adeg gwyliau.
Mae'r cyfan neu rai o'r gwasanaethau gofal plant hyn hefyd yn cael eu darparu gan leoliadau gofal dydd llawn, lleoliadau gofal sesiynol a gwarchodwyr plant, felly er mwyn cael darlun cyflawn o'r ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol, rhaid ystyried yr adrannau blaenorol hefyd.

Gan mai dim ond 9 o leoliadau tu allan i oriau ysgol a lenwodd gofnod HAG AGGCC yn 2016 mae'n anodd iawn dadansoddi gwir gryfderau a gwendidau'r sector hwn.

Yr ydym yn ymwybodol o 17 clwb tu allan i oriau ysgol gofrestredig a 10 clwb heb gofrestriad. Nid yw eu dosbarthiad ar draws y sir yn wastad, ac fel gyda mathau eraill o ofal plant, mae'r niferoedd uchaf yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon).
Dim ond un ddarpariaeth gofal tu allan i oriau ysgol heb gofrestriad sydd yn Ardal 5 (Ffestiniog).

Agorodd 5 clwb tu allan i oriau ysgol newydd yn y 2 flynedd ddiwethaf, mewn ardaloedd ar draws y sir; fodd bynnag, caeodd 2 glwb yn Ardal 1 (Bangor) yn ystod yr amser yma.

Dangosodd data HAG AGGCC fod mwy o ddarpariaeth ar gael ar ôl ysgol o gymharu â darpariaeth gwyliau.
Mae 84% o blant yn mynychu darpariaeth ar ôl ysgol yn rhan amser o gymharu â 58% sy'n mynychu'n rhan amser yn ystod gwyliau'r haf.

Nid oes yr un lleoliad gofal tu allan i oriau ysgol ar agor ar ôl 6yh nac ar benwythnosau.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Gymraeg, gyda 100% o'r lleoliadau a lenwodd eu cofnod HAG yn dweud eu bod naill ai yn Gymraeg neu'n Gymraeg a Saesneg.

Dim ond lleoliadau Cymraeg yn Ardal 2 (Caernarfon) a ddywedodd fod ganddynt restr aros, ac am ofal ar ôl ysgol yn unig yr oedd hyn.
Ni ddywedodd yr un lleoliad fod ganddynt restr aros yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae gofal tu allan i oriau ysgol yn helpu i ateb anghenion rhieni sy'n gweithio trwy ddarparu gwasanaethau cyn yr ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, ac y mae llawer o'r lleoliadau cofrestredig ar safleoedd ysgolion cynradd.

DRAFT

## 6.6 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

| |
|---|
| **Dadansoddiad o Ddarpariaeth Cyflenwad Gofal Plant**<br><br>Nid oedd data am ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn y cofnod HAG.<br><br>Mae 3 cynllun chwarae cofrestredig adeg gwyliau yng Ngwynedd, rhoddwyd manylion amdanynt yn yr adrannau blaenorol. |

DRAFT

### 6.7 Nani

| **Dadansoddiad o Ddarpariaeth Cyflenwad Gofal Plant** |
| --- |
| Nid oedd data am Nanis yn y cofnod HAG.<br>Hyd yma nid ydym wedi derbyn manylion gan AGGCC am y rhai a gofrestrwyd ar y cynllun cymeradwyo gwirfoddol.<br><br>Yr ydym yn ymwybodol o 3 nani yn gweithio yn y sir. |

| **Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol** |
| --- |
| Mae arnom angen mwy o wybodaeth am nanis yn gweithio yn y sir, ac mae angen annog pob nani bresennol i gofrestru ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ac i hysbysebu eu gwasanaethau ar Gwynedd-Ni (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd). |

DRAFT

## 7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

**Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda rhieni yn ystod Tachwedd - Rhagfyr 2016, gan ddefnyddio holiadur ar-lein a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio, er mwyn dal data cyson ar draws Cymru. Mae manylion pellach am yr ymgynghoriad yn Adran 2.

Llenwyd cyfanswm o 347 arolwg, ond ni wnaeth llawer o ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

O ystyried bod 22,441 o rieni gyda phlant dibynnol yn y sir, gwybodaeth gyfyngedig mae'r arolwg yn ei roi, ac nid yw o raid yn cynrychioli gwir anghenion gofal plant rhieni.

Dyma'r ymatebion i'r arolwg:-

| Statws | Nifer |
|---|---|
| Rhiant/ Gofalydd mewn gwaith (heb fod yn disgwyl plentyn) | 247 |
| Rhiant/ Gofalydd mewn addysg neu hyfforddiant (heb fod yn disgwyl plentyn) | 5 |
| Rhiant/ Gofalydd yn chwilio am waith (heb fod yn disgwyl plentyn) | 9 |
| Rhiant/ Gofalydd yn chwilio am addysg neu hyfforddiant (heb fod yn disgwyl plentyn) | 4 |
| Disgwyl neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth gyda'r plentyn cyntaf | 20 |
| Mabwysiadu'r plentyn cyntaf | 0 |
| Rhiant/ Gofalydd yn disgwyl neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth gyda phlant ychwanegol | 43 |
| Mabwysiadau neu ar absenoldeb mabwysiadu gyda phlant ychwanegol | 0 |
| Rhiant/ Gofalydd heb fod mewn gwaith | 19 |
| Rhiant/ Gofalydd heb fod mewn addysg na hyfforddiant | 0 |





DRAFT

**Ymatebwyr fesul incwm blynyddol yr aelwyd**

| Cyfartaledd Incwm Blynyddol yr Aelwyd | Nifer |
|---|---|
| £0-£10,000 | 16 |
| £10,001-£20,000 | 26 |
| £20,001-£30,000 | 39 |
| £30,001-£40,000 | 23 |
| £40,001-£50,000 | 8 |
| £50,001-£60,000 | 14 |
| £60,001-£70,000 | 5 |
| £70,000+ y flwyddyn | 5 |
| Dewis peidio dweud | 17 |

**Ymatebwyr fesul Grŵp Ethnig**

| Grŵp Ethnig | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 150 |
| Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog | 3 |
| Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | 0 |
| Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig | 0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1 |

**Iaith Ymatebwyr (y brif iaith a siaredir yn y cartref)**

| Iaith | Nifer |
|---|---|
| Cymraeg yn unig | 68 |
| Saesneg yn unig | 20 |
| Dwyieithog | 48 |
| Ieithoedd eraill | 2 |

DRAFT

**Plant yr ymatebwyr fesul grŵp oedran**

| Oedran | Nifer |
|---|---|
| Dan 12 mis | 42 |
| 12-18 mis | 33 |
| 19-23 mis | 26 |
| 2 flwydd | 62 |
| 3 oed | 62 |
| 4 oed | 45 |
| 5-7 oed | 119 |
| 8-11 oed | 96 |
| 12-14 oed | 60 |
| 15-17 oed | 46 |

**Ymatebwyr gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd**

| Anghenion dysgu ychwanegol / Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Lleferydd ac iaith | 29 |
| Dysgu penodol (dyslecsia) | 12 |
| Anawsterau clyw | 3 |
| Anawsterau dysgu | 11 |
| Anawsterau gweld | 5 |
| Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol | 14 |
| Corfforol | 4 |
| Cyflwr meddygol | 4 |
| Arall | 5 |

DRAFT

### 7.1. Defnydd Presennol o Ofal Plant

**Dadansoddiad o'r Defnydd Presennol o Ddarpariaeth Gofal Plant**
Gofynnwyd i rieni am eu defnydd presennol o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol a thu allan i'r awdurdod lleol, yn ystod tymor yr ysgol a gwyliau'r ysgol.
Gan nad oedd nifer o rieni wedi cynnwys eu côd post, ni fu modd dadansoddi'r data i 8 Ardal fel yn yr adrannau blaenorol.
**Ystod y Gwasanaethau a Ddefnyddir**
Dengys y tabl isod nifer y rhieni yn defnyddio pob math o wasanaeth yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod tymor ysgol:

| | Iaith y lleoliad gofal plant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Saesneg | CYFANSWM |
| Gwarchodwr Plant | 13 | 3 | 1 | 1 | 18 |
| Meithrinfa | 13 | 9 | 0 | 1 | 22 |
| Cylch Meithrin/ Grŵp chwarae (yb) | 18 | 1 | 0 | 0 | 19 |
| Cylch Meithrin/ Grŵp chwarae (yh) | 8 | 1 | 0 | 0 | 9 |
| Addysg Gynnar rhan amser yn yr ysgol | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Lle Dechrau'n Deg | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Crèche* | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Clwb Ar ôl Ysgol | 6 | 3 | 0 | 0 | 9 |
| Clwb Brecwast | 5 | 4 | 0 | 0 | 9 |
| Clwb Brecwast am ddim | 17 | 6 | 0 | 0 | 23 |
| Cynllun chwarae | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |

Dengys y tabl isod nifer y rhieni sy'n defnyddio pob math o wasanaeth yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod gwyliau'r ysgol.

| | Iaith y lleoliad gofal plant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Saesneg | TOTAL |
| Gwarchodwr Plant | 11 | 4 | 1 | 0 | 16 |
| Meithrinfa | 11 | 7 | 0 | 0 | 18 |
| Lle Dechrau'n Deg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèche* | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cynllun chwarae | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Clwb gwyliau | 4 | 4 | 0 | 0 | 8 |
| Arall | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |

**mae llawer o rieni yn cyfeirio at ddarpariaeth meithrinfa fel crèche*

Yn gyffredinol, mae mwy o ddefnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol, a'r hyn a ddefnyddir amlaf yw clybiau brecwast am ddim, meithrinfeydd, Cylch Meithrin yn y bore a gwarchodwyr plant.
Yn ystod gwyliau'r ysgol, meithrinfeydd a gwarchodwyr plant a ddefnyddir fwyaf.


Dywedodd 24 o rieni eu bod yn defnyddio darpariaeth gofal plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol; yr oedd 14 o'r rhain yn ystod tymor ysgol a 10 yn ystod gwyliau'r ysgol. Gwarchodwyr plant oedd 55% o'r ddarpariaeth oedd yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd 9 o rieni eu bod yn defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth y tu mewn a'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol; yr oedd 7 o'r rhain yn ystod tymor ysgol a 2 yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dywedodd 69 o rieni eu bod yn defnyddio teulu a/neu gyfeillion i gwrdd â'u hanghenion gofal plant.

DRAFT

**Llefydd gofal plant a ddefnyddir yn ôl categori iaith**

Dengys y siart isod iaith y gwasanaethau a ddefnyddir gan rieni, yn ardal yr awdurdod lleol adeg tymor a gwyliau'r ysgol.




Mae 98% o'r ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddir gan rieni yn y sir naill ai'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yr oedd rhieni a ddefnyddiodd ofal plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn defnyddio 83% o leoliadau Cymraeg neu ddwyieithog, ac 17% leoliadau Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

DRAFT

**Nifer a Math o lefydd a ddefnyddiwyd (llawn amser, rhan amser, ad hoc)**

Nid pob rhiant a lenwodd yr adran hon o'r holiadur; i'r rhai a wnaeth, dengys y tabl isod y math o lefydd a ddefnyddir gan rieni:

| | Llawn Amser | Rhan Amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 22 | 27 | 7 |
| Gofal Diwrnod Llawn | 23 | 36 | 9 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 16 | 31 | 12 |
| Crèche* | 14 | 12 | 0 |
| Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | 11 | 25 | 10 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 5 | 9 | 5 |
| Nani | 1 | 4 | 2 |
| Teulu a Chyfeillion | 25 | 47 | 16 |

* *mae llawer o rieni yn cyfeirio at ddarpariaeth meithrinfa fel crèche*

Ar draws yr holl fathau o ofal plant, mae 32% o blant yn mynychu'n llawn amser, 53% yn rhan amser a 16% i sesiynau ad hoc.

DRAFT

**Ystod oedran y plant sy'n defnyddio gofal plant**

Dengys y tabl isod nifer y plant, ar draws y gwahanol oedrannau, oedd yn defnyddio gofal plant, yn ôl yr arolwg rhieni:

| Ystod oedran | Gwarchodwr Plant | Gofal Dydd Llawn | Gofal Sesiynol | Crèche | Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | Chwarae Mynediad Agored | Nani | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 5 | 6 | 6 | 3 | 2 | 1 | 0 | 22 |
| 12 – 18 mis | 11 | 9 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 | 30 |
| 19 – 23 mis | 3 | 3 | 0 | 1 | 1 | 6 | 0 | 8 |
| 2 flwydd | 14 | 22 | 17 | 10 | 11 | 2 | 2 | 76 |
| 3 oed | 11 | 13 | 20 | 5 | 10 | 3 | 1 | 60 |
| 4 oed | 3 | 5 | 7 | 1 | 7 | 2 | 0 | 25 |
| 5 – 7 oed | 6 | 8 | 6 | 4 | 9 | 2 | 1 | 36 |
| 8 – 11 oed | 3 | 2 | 0 | 0 | 3 | 0 | 1 | 38 |
| 12 – 14 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 – 17 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Rhaid holi a yw'r holl rieni wedi deall y diffiniadau o ofal plant, gan na fyddai darpariaeth chwarae mynediad agored fel arfer ond yn darparu ar gyfer plant 5 oed a hŷn, ac na fyddai'n addas i blant dan 3 oed; dylid felly anwybyddu'r ffigyrau a amlygwyd mewn coch yn y tabl uchod.

O'r rhai a lenwodd yr arolwg, yr oedd 46% yn defnyddio gofal plant i blant 2 a 3 oed; nid oedd dim ymatebwyr yn denfyddio gofal plant i blant dros 11 oed.

DRAFT

**Rhesymau dros ddefnyddio gofal plant**
Dengys y tabl isod y prif resymau pam fod rhieni yn defnyddio gofal plant:

| Rhesymau | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Gwaith | 82 |
| Gwaith gwirfoddol di-dâl | 3 |
| Astudio | 1 |
| Chwilio am waith | 2 |
| Chwilio am gyfleoedd hyfforddiant neu addysg | 1 |
| Manteision cymdeithasol neu ddysgu i'm plentyn/plant | 11 |
| Llefydd gyda Chymorth | 0 |
| Manteisio ar Hawl i Addysg Feithrin | 2 |
| Manteisio ar Hawl i Ddechrau'n Deg | 2 |
| Arall | 4 |

Fel y gellid disgwyl, dywedodd 76% o'r rhieni a lenwodd yr arolwg mai gwaith oedd y prif reswm pam yr oeddent yn defnyddio gofal plant.
Yr oedd 10% arall yn defnyddio gofal plant oherwydd y manteision cymdeithasol neu ddysgu i'w plentyn/plant.

DRAFT

**Ystod oedran plant heb fod yn defnyddio gofal plant**
Dengys y tabl isod nifer y plant, ar draws y gwahanol oedrannau, nad oedd yn defnyddio gofal plant, yn ôl yr arolwg rhieni:

| Ystod Oedran | Nifer plant |
|---|---|
| Dan 12 mis | 16 |
| 12 – 18 mis | 11 |
| 19 – 23 mis | 6 |
| 2 flwydd | 10 |
| 3 oed | 17 |
| 4 oed | 20 |
| 5 – 7 oed | 73 |
| 8 – 11 oed | 67 |
| 12 – 14 oed | 47 |
| 15 – 17 oed | 35 |
| D/G | 41 |

DRAFT

**Rhesymau dros beidio defnyddio gofal plant**

Dengys y tabl isod y rhesymau pam nad yw rhieni yn defnyddio gofal plant i rai o'u plant neu'r cyfan:

| Rhesymau | | Nifer ymatebwyr |
|---|---|---|
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain | | 29 |
| Yr wyf i/fy nghymar yn rhiant sy'n aros adref a does dim angen gofal plant arna'i | | 17 |
| Mae fy nghymar/teulu/ffrindiau yn gofalu am fy mhlant | | 68 |
| Does dim gofal plant ar gael ar yr adegau y mae arna'i ei angen | | 17 |
| Amseroedd pan nad yw gofal plant ar gael: | Cyn 8 am | 42 |
| | Wedi 6 yh | 42 |
| | Gofal dros nos | 10 |
| | Gofal Penwythnosau | 34 |
| | Arall (nodwch) | 22 |
| Does dim gofal plant all ofalu am anghenion ychwanegol fy mhlant/mhlentyn | | 4 |
| Does dim gofal cofleidiol neu clwb ar ôl ysgol yn ysgol fy mhlant/mhlentyn | | 19 |
| Does dim gofal plant yn y lleoliad cywir | | 8 |
| Does dim gofal plant all ofalu am anghenion diwylliannol fy mhlant/mhlentyn | | 0 |
| Does dim darpariaeth Cymraeg addas | | 0 |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | | 62 |
| Mae gennyf broblemau gyda chludiant | | 5 |
| Arall (nodwch) | | 26 |

DRAFT

Gallai rhieni ddewis 1 neu fwy o'r rhesymau oedd yn gymwys iddynt hwy.

Dywedodd 28% o'r rhai a atebodd nad ydynt yn defnyddio gofal plant naill ai am eu bod yn rhiant sydd yn aros gartref, eu bod yn defnyddio teulu neu ffrindiau neu fod y plant/plentyn yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain.
Dywedodd 15% fod gofal plant yn rhy ddrud, 10% fod arnynt angen gofal plant naill ai cyn 8yb neu wedi 6yh gyda 3% angen gofal dros nos ac 8% angen gofal dros y penwythnos.

Yr oedd 5% o rieni angen darpariaeth gofleidiol neu ar ôl ysgol, yn ysgol eu plentyn.


Dywedodd 4 o rieni nad oedd gofal plant a all ofalu am anghenion ychwanegol eu plentyn/plant.

Ni ddywedodd yr un rhiant nad oedd modd iddynt ddod o hyd i ofal plant Cymraeg addas, a dim ond 2% o ymatebwyr a ddywedodd nad oedd gofal plant yn y lle iawn, sy'n arwydd fod gennym ddarpariaeth Gymraeg digonol i gwrdd ag anghenion a bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd lle mae ei angen.

DRAFT

Tud. 107

**Hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant**
Dengys y graff isod farn rhieni am awgrymiadau am welliannau i hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant yng Ngwynedd yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol:



Y prif faes a awgrymwyd gan rieni oedd angen gwella yn ystod tymor yr ysgol a gwyliau'r ysgol oedd fforddiadwyedd gofal plant; nododd 49 o rieni y maes hwn ar gyfer gwella yn ystod tymor yr ysgol a 37 am wyliau'r ysgol.

Yn ystod tymor yr ysgol, amlygwyd argaeledd cyn yr ysgol, ar ôl ysgol ac wedi 6yh fel meysydd sydd angen gwella, yn ogystal ag argaeledd gofal dros benwythnosau.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, amlygwyd argaeledd Gofal Diwrnod Llawn fel y prif faes oedd angen gwella.

DRAFT

**Barn rhieni ar y gofal plant sydd i'w gynnig**

Dengys y tabl isod foddhad rhieni gyda'r ddarpariaeth gofal plant yr oeddent yn ddefnyddio adeg yr arolwg:

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rwy'n fodlon gydag ansawdd gofal fy mhlant yn ystod tymor ysgol | 72 | 8 | 4 |
| Rwy'n fodlon gydag ansawdd gofal fy mhlant yn ystod gwyliau'r ysgol | 48 | 16 | 4 |
| Mae dewis da o ofal plant yn y sir | 29 | 44 | 14 |
| Dyw gofal plant ddim ar gael ar yr amser y byddaf ei eisiau | 35 | 28 | 13 |
| Nid oes fawr o ddewis yn y mathau o ofal plant ar gael a'r gwasanaethau a gynigir | 44 | 30 | 8 |
| Mae gofal plant mewn lleoliadau da | 54 | 24 | 6 |
| Dim gofal plant ar gael i oedran fy mhlentyn | 13 | 50 | 5 |
| Mae gofal plant yn cwrdd ag anghenion fy mhlant/mhlentyn | 54 | 15 | 7 |
| Hoffwn i 'mhlant/mhlentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (cynnydd mewn oriau) | 34 | 39 | 5 |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | 74 | 9 | 3 |
| Buasai'n well gen i ddefnyddio teulu/cyfeillion am ofal plant | 28 | 43 | 9 |
| Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n torri i lawr neu sy'n annibynadwy | 20 | 49 | 5 |
| Mae diffyg gofal plant yn rhwystr i mi gyrchu gwaith neu hyfforddiant | 22 | 44 | 7 |
| Gwn lle i gael gwybodaeth am ofal plant | 53 | 24 | 7 |
| Gwn lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant | 28 | 42 | 15 |
| Mae digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg | 62 | 16 | 8 |
| Mae digon o ofal plant ar gael yn fy newis iaith | 52 | 23 | 11 |

DRAFT

Amlygwyd fforddiadwyedd gofal plant eto gan rieni yn y rhan hwn o'r arolwg, gyda 86% yn cytuno fod gofal plant yn rhy ddrud

Yr oedd 86% o rieni yn fodlon gydag ansawdd gofal plant yn ystod tymor ysgol; fodd bynnag, disgynnodd hyn i 71% yn ystod gwyliau'r ysgol.
Yr oedd ychydig dan 50% yn cytuno fod dewis da o ofal plant yn y sir; fodd bynnag, cytunodd 64% fod gofal plant mewn lleoliadau da.

Amlygwyd diffyg gofal plant gan 30% o ymatebwyr fel rhwystr iddynt gyrchu gwaith neu hyfforddiant, gyda 49% hefyd yn nodi nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant.
Nododd 28% hefyd nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant yng Ngwynedd.



DRAFT

I’r rhieni hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio gofal plant ffurfiol, mae’r tabl isod yn amlygu pa ffactorau fyddai’n bwysig petaent yn defnyddio gofal plant yn y dyfodol:

| **Ffactorau pwysig** | | **Nifer ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Dewis o wahanol fathau o ofal plant | | 23 |
| Gofal plant o ansawdd da | | 35 |
| Gofal plant fforddiadwy | | 162 |
| Cludiant/ Codi | | 149 |
| Agos i gartref | | 52 |
| Agos i’r gwaith | | 120 |
| Agos at ysgol y plentyn | | 44 |
| Dewis iaith | | 85 |
| Dewis iaith a amlygwyd: | Cyfrwng Cymraeg | 85 |
| | Cyfrwng Cymraeg a Saesneg | 49 |
| | Cyfrwng Saesneg | 5 |
| | Unrhyw ieithoedd eraill (nodwch) | 1 |
| Cyfleoedd chwarae | | 83 |
| Ar ôl ysgol / Yn ystod gwyliau | | 113 |
| Talu hyblyg | | 63 |
| Darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol / anabledd | | 26 |
| Cyfleoedd cymdeithasol | | 36 |
| Gofal plant sy’n gofalu am anghenion diwylliannol/ychwanegol fy mhlentyn | | 18 |
| Oriau hyblyg / Ad hoc | | 88 |
| Arall | | 3 |

Y meysydd pwysicaf i rieni oedd fforddiadwyedd, rhywun allai gludo/codi eu plentyn, gofal plant yn nes at eu man gwaith a darpariaeth ar ôl ysgol / gwyliau.
Yr oedd darpariaeth Gymraeg, oriau hyblyg a chyfleoedd chwarae hefyd yn bwysig.

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Ymateb gwael gafwyd i'r arolwg sydd felly yn rhoi gwybodaeth gyfyngedig i ni, ac nid yw o raid yn cynrychioli gwir anghenion gofal plant rhieni.

Rhaid cwestiynau peth o'r data a dderbyniwyd; dywedodd rhai rhieni fod eu plant yn mynychu darpariaeth gofal plant na fyddai ar gael i blant o'u hoed hwy.
Dywedodd rhai rhieni hefyd fod eu plentyn yn mynychu crèche, yn ein profiad ni, mae nifer o rieni yn cyfeirio at ddarpariaeth meithrinfa dydd llawn fel 'crèche'.

Yr oedd cyfradd boddhad o 86% gyda gofal plant yn ystod tymor ysgol, ond cwympodd hyn fymryn i 71% yn ystod gwyliau'r ysgol.

Fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif faes yr awgrymodd rhieni fel un sydd angen ei wella yn ystod tymor yr ysgol a gwyliau.
Dywedodd 15% o rieni oedd ddim yn defnyddio gofal plant mai fforddiadwyedd oedd y prif reswm.

Meysydd eraill a awgrymwyd gan rieni sy'n defnyddio gofal plant sydd angen eu gwella oedd argaeledd cyn yr ysgol (7:30 – 9yb), wedi'r ysgol (3:30 – 6yh), ar ôl 6yh a gofal penwythnos. Y meysydd hynny a amlygwyd hefyd gan rieni fel rhesymau pam nad oeddent yn defnyddio gofal plant.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, amlygwyd argaeledd darpariaeth gofal diwrnod llawn fel y prif faes sydd angen gwella.

Ni ddywedodd yr un rhieni na allent ddod o hyd i ofal plant addas yn Gymraeg, a dim ond 2% o ymatebwyr a ddywedodd nad oedd gofal plant yn y lle iawn, gan awgrymu fod gennym ddigon o ddarpariaeth Gymraeg i gwrdd ag anghenion rhieni ac y mae mwyafrif y ddarpariaeth lle mae ei angen.

Dywedodd 4 o rieni nad oedd gofal plant i ofalu am anghenion ychwanegol eu plentyn/plant.

Amlygwyd diffyg gofal plant gan 30% o ymatebwyr fel rhwystr i gyrchu gwaith neu hyfforddiant.
Nododd 28% o rieni nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant yng Ngwynedd, a dywedodd 49% nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth na chymorth ariannol am ofal plant.

DRAFT

### 7.2. Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

**Dadansoddiad o’r Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant**

Gofynnwyd i rieni am eu gofynion gofal plant yn y dyfodol yn yr arolwg rhieni. Yr oedd rhieni a lenwodd y rhan hon o’r arolwg yn:

- rhieni sydd yn awr yn defnyddio gofal plant ac yn bwriadu defnyddio gwasanaethau newydd neu ychwanegol yn y dyfodol; neu
- rhieni nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio gofal plant ond y bwriadant wneud hynny yn y dyfodol.

Ni ofynnwyd i rieni sydd eisoes yn defnyddio gofal plant ond nad oeddent yn bwriadu cynyddu swm y gofal plant lenwi’r adran hon.

Dylai’r adran hon felly roi syniad i ni o’r ddarpariaeth gofal plant y mae’n rhaid i ni ddatblygu yn y sir.

Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ymateb uchel yn yr adran hon ac anghysonderau yn y data, rhaid holi a yw’r rhieni wedi llawn ddeall y rhan hon o’r arolwg, ac o’r herwydd canllaw yn hytrach na gwybodaeth ddiffiniol a welir yma.

Nid oedd llawer o rieni wedi cynnwys eu côd post felly ni fu modd dadansoddi’r data yn 8 Ardal fel yn yr adrannau blaenorol.

**Ystod y gwasanaethau sydd eu hangen**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn fel y gallai rhieni ddangos y math o ofal plant y carent ddefnyddio yn y dyfodol a’r gwasanaethau y buasent eu hangen o fewn y math hwnnw o ofal plant. Gofynnwyd i rieni dicio’r holl wasanaethau y gallant fod eisiau, felly fe all un ymatebydd fod wedi ticio mwy nac un gwasanaeth.

Mae’r tabl ar y tudalennau canlynol yn dangos ystod y gwasanaethau sydd eu hangen yn ôl math o ofal plant a gofynion iaith.

DRAFT

DRAFT

| Math o Ofal Plant | GWASANAETH GOFAL PLANT | Iaith y Ddarpariaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg | Cyfanswm |
| Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | 20 | 9 | 0 | 29 |
| | Gofal hanner diwrnod (yb) | 7 | 3 | 0 | 10 |
| | Gofal hanner diwrnod (yh) | 9 | 2 | 0 | 11 |
| | Cyn ysgol | 5 | 2 | 0 | 7 |
| | Ar ôl ysgol | 17 | 6 | 0 | 23 |
| | Cofleidiol o gwmpas lleoliad Addysg Feithrin rhan amser, e.e. Cylch Meithrin neu ysgol neu feithrinfa | 8 | 7 | 1 | 16 |
| | Darpariaeth gwyliau | 10 | 7 | 1 | 18 |
| | Arall – nodwch | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Gofal Dydd Llawn | Meithrinfa diwrnod llawn | 14 | 9 | 0 | 23 |
| | Meithrinfa hanner diwrnod (yb) | 8 | 2 | 0 | 10 |
| | Meithrinfa hanner diwrnod (yh) | 3 | 3 | 0 | 6 |
| | Cyn ysgol | 5 | 5 | 0 | 10 |
| | Ar ôl ysgol | 12 | 8 | 0 | 20 |
| | Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin (yb) | 7 | 2 | 0 | 9 |
| | Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin (yh) | 5 | 2 | 0 | |
| | Crèche | 8 | 5 | 0 | 13 |
| | Cofleidiol o gwmpas lleoliad Addysg Feithrin rhan amser, e.e. Cylch Meithrin neu ysgol neu feithrinfa | 15 | 10 | 1 | 26 |
| | Cinio | 3 | 3 | 0 | 6 |
| | Darpariaeth gwyliau | 3 | 3 | 0 | 6 |
| | Arall – nodwch | 2 | 0 | 0 | 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Sesiynol | Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin (yb) | 18 | 16 | 1 | 35 |
| | Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin (yh) | 6 | 6 | 0 | 12 |
| | Cofleidiol o gwmpas lleoliad Addysg Feithrin rhan amser, e.e. Cylch Meithrin neu ysgol neu feithrinfa | 6 | 6 | 0 | 12 |
| | Cinio | 5 | 1 | 0 | 6 |
| | Arall – nodwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèches | Gofal diwrnod llawn | 11 | 8 | 0 | 19 |
| | Boreau'n unig | 1 | 3 | 0 | 4 |
| | Prynhawniau'n unig | 3 | 1 | 0 | 4 |
| | Gofal plant adeg gwyliau | 6 | 7 | 0 | 13 |
| | Arall – nodwch | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | Cyn ysgol (Clwb Brecwast) | 13 | 11 | 0 | 24 |
| | Ar ôl ysgol | 18 | 13 | 0 | 31 |
| | Gofal plant gwyliau trwy gydol y dydd | 12 | 10 | 0 | 22 |
| | Sesiynau cynllun chwarae | 12 | 4 | 0 | 16 |
| | Arall – nodwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | Cyn ysgol | 5 | 5 | 0 | 10 |
| | Ar ôl ysgol | 12 | 7 | 0 | 19 |
| | Cynllun chwarae'r gwyliau | 11 | 10 | 1 | 22 |
| | Sesiynau cynllun chwarae | 5 | 3 | 0 | 8 |
| | Arall – nodwch | 0 | 0 | 0 | 0 |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nani (Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol) | Gofal diwrnod llawn | 3 | 2 | 0 | 5 |
| | Gofal hanner diwrnod (yb) | 3 | 0 | 0 | 3 |
| | Gofal hanner diwrnod (yh) | 2 | 0 | 0 | 2 |
| | Cyn ysgol | 3 | 0 | 0 | 3 |
| | Ar ôl ysgol | 4 | 1 | 0 | 5 |
| | Cofleidiol o gwmpas lleoliad Addysg Feithrin rhan amser, e.e. Cylch Meithrin neu ysgol neu feithrinfa | 2 | 1 | 0 | 3 |
| | Cinio | 3 | 0 | 0 | 3 |
| | Gofal plant adeg gwyliau | 4 | 2 | 0 | 6 |
| | Arall – nodwch | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Teulu a/neu gyfeillion | | 42 | 26 | 1 | 69 |

Gofal Diwrnod Llawn yw'r math o ofal plant y mae'r mwyaf o alw amdano, yna Gwarchodwyr Plant a Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol. Dywedodd 69 o rieni y buasent am i deulu/cyfeillion ofalu am eu plentyn /plant.

Ar draws pob math o ofal plant, darpariaeth diwrnod llawn y gofynnir amdano fwyaf, yna gwasanaethau ar ôl ysgol, gofal gwyliau a chofleidiol.
O fewn gofal dydd sesiynol, mae 75% o rieni angen sesiwn bore o gymharu â 25% sydd eisiau sesiwn prynhawn.

Mae 61% o rieni angen darpariaeth Gymraeg, 38% angen darpariaeth Cymraeg a Saesneg, a dim ond 1% fyddai'n edrych am ddarpariaeth Saesneg yn y dyfodol.

DRAFT

**Nifer a math o lefydd fydd eu hangen i blant (llawn amser, rhan amser, ad hoc)**

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o lefydd y bydd ar rieni eu hangen yn y dyfodol:

| | Llawn Amser | Rhan Amser | Ad hoc |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 25 | 29 | 8 |
| Gofal Dydd Llawn | 23 | 29 | 8 |
| Gofal Diwrnod Sesiynol | 17 | 23 | 6 |
| Crèche | 18 | 14 | 5 |
| Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | 17 | 18 | 7 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 11 | 12 | 7 |
| Nani | 5 | 4 | 4 |

Byddai 40% o rieni yn chwilio am ofal plant llawn amser, sy'n gynnydd bychan ar y 32% o blant sydd ar hyn o bryd yn mynychu'n llawn amser.
Byddai 45% o rieni yn chwilio am ofal plant rhan amser, sy'n ostyngiad bychan ar y 53% sydd ar hyn o bryd yn mynychu'n rhan amser.

DRAFT

**Amser y mae angen gofal plant**
Mae'r tabl isod yn dangos yr amseroedd pryd y byddai rhieni angen gofal plant yn y dyfodol.

| Amseroedd | Gwarchodwr plant | Gofal dydd llawn | Gofal dydd sesiynol | Crèche | Gofal tu allan i Oriau ysgol | Darpariaeth chwarae mynediad agored | Nani |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8:00 - 18:00 | 43 | 33 | 20 | 20 | 25 | 16 | 5 |
| 7:00 – 9:00 | 8 | 6 | 6 | 4 | 7 | 2 | 0 |
| 9:00 - 12:00 | 12 | 14 | 11 | 6 | 8 | 4 | 2 |
| 12:00 - 13:00 | 9 | 10 | 8 | 6 | 7 | 3 | 2 |
| 13:00 - 15:30 | 9 | 7 | 8 | 6 | 8 | 4 | 2 |
| 15:30 –18:00 | 13 | 12 | 6 | 7 | 15 | 6 | 3 |
| Wedi 18:00 | 3 | 4 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 |
| 18:00 - 7.00 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |

Byddai'r rhan fwyaf o rieni yn chwilio am ddarpariaeth diwrnod llawn (08:00 – 18:00), gyda chanran fechan eisiau gofal plant sydd ar gael wedi 6yh neu dros nos.

DRAFT

**Ystod oedran plant y mae angen gofal plant ar eu cyfer**
Gofynnwyd i rieni sy'n bwriadu defnyddio gofal plant yn y dyfodol faint fydd oed eu plentyn / plant pan fyddant yn dechrau defnyddio gofal plant.

| Ystod oedran | Nifer plant |
|---|---|
| Dan 12 mis | 72 |
| 12 – 18 mis | 26 |
| 19 – 23 mis | 11 |
| 2 flwydd | 27 |
| 3 oed | 44 |
| 4 oed | 14 |
| 5 – 7 oed | 50 |
| 8 – 11 oed | 24 |
| 12 – 14 oed | 0 |
| 15 – 17 oed | 0 |

Nid oes galw yn y dyfodol am ofal plant i blant dros 11 oed.
Byddai ar y rhan fwyaf o rieni angen gofal plant i blentyn dan 12 mis oed.

**Nifer llefydd sydd eu hangen i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**
O'r rhieni a ymatebodd, dim ond 3 a ddywedodd y buasent angen gofal plant yn y dyfodol i blentyn ag anghenion ychwanegol.

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Mae 61% o rieni angen darpariaeth Gymraeg, 38% angen Cymraeg a Saesneg, a dim ond 1% fyddai'n chwilio am ddarpariaeth Saesneg yn y dyfodol. Byddai hyn yn gyson â'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sir ar hyn o bryd.

Byddai 40% o rieni yn chwilio am ofal plant llawn amser, sy'n gynnydd bychan ar y 32% o blant sydd ar hyn o bryd yn mynychu'n llawn amser.
Byddai 45% o rieni yn chwilio am ofal plant rhan amser, sy'n ostyngiad bychan ar y 53% sydd ar hyn o bryd yn mynychu'n rhan amser.

Byddai canran fechan o rieni angen gofal plant sydd ar gael wedi 6yh. Dyma faes a nodwyd fel un sydd angen gwelliant yn yr adran flaenorol.

DRAFT

### 7.3. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

**Hygyrchedd Darpariaeth Gofal Plant**

Yn ychwanegol i'r ymgynghoriad rhieni y cyfeiriwyd ato yn yr adrannau blaenorol, datblygwyd holiadur byrrach hefyd i'w ddefnyddio yn ystod grwpiau ffocws rhieni, a hefyd gan y Tîm Cefnogi Teuluoedd yn ystod eu grwpiau neu gyrsiau hyfforddiant.

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

1. Ydych chi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am y gofal plant sydd ar gael yn eich ardal?
2. Ydych chi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant?
3. Beth, os rhywbeth, sy'n eich atal rhag defnyddio gofal plant?
4. Pa ddatblygiadau gofal plant eraill yr hoffech chi weld?

Llenwyd 48 holiadur byr.

Cwestiwn 1:
Dywedodd 42% nad oeddent yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant, ond dim ond 8 ymatebydd a nododd 'Gwynedd-Ni' (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd)

Cwestiwn 2:
Dywedodd 58% nad oeddent yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant; dim ond 1 a nododd Gwynedd-Ni, gyda 3 arall yn nodi'r Ganolfan Waith

Cwestiwn 3:
O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 22 stated mai cost oedd y rhwystr mwyaf i gyrchu gofal plant. Ymysg y sylwadau yr oedd:
"rhatach i mi aros adref gyda 'mhlentyn"
"ddim yn defnyddio gofal plant am ei fod yn costio gormod"
"agweddau ariannol a cholli amser gyda fy mhlentyn"

Dywedodd 6 arall fod ymddiriedaeth yn broblem, gyda sylwadau gan gynnwys:
"peidio gwybod pwy sydd gyda fy mhlant"
"eisiau edrych ar ôl fy mhlentyn fy hun, ei chael hi'n anodd ymddiried fy mhlentyn ifanc i ddieithryn"
"peidio gwybod at bwy mae fy mhlentyn yn mynd"

Dywedodd un rhiant hefyd mai'r rhwystr i ddefnyddio gofal plant oedd: "cael plentyn gydag anghenion ychwanegol a pheidio gallu defnyddio gofal plant iddo"

DRAFT

Cwestiwn4:
Dywedodd 17 ymatebwr yr hoffent 'fwy o ddewis / oriau agor hwy / mwy o hyblygrwydd mewn oriau agor'
Sylwodd 1 'peidio gorfod talu am gefnogaeth 1-1 i blant ag anghenion ychwanegol'
Soniodd 2 am 'fwy o glybiau gwyliau'
Dywedodd 5 yr hoffent 'ansawdd uwch'
Dywedodd 1 y byddai 'oriau gwaith rhad / am ddim yn help'

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda rhieni ym Mhlas Pawb, Maesincla lle nodwyd y canlynol:
'anodd defnyddio'r 10 awr o Addysg Feithrin pan fyddwch yn gweithio'
'nid yw rhai meithrinfeydd yn rhoi gwasanaeth codi plant o'r ysgol'
'anodd os ydych yn gweithio a bod trefniadau'n torri i lawr ar fyr rybudd'

Yr oedd y rhwystrau a nodwyd gan y rhieni a gwblhaodd yr holiadur ar-lein yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd yn yr holiadur byr:

Dywedodd 28% nad oeddent yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant yng Ngwynedd.
Dywedodd 49% nad oeddent yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant.
Fforddiadwyedd yw'r prif faes a awgrymwyd gan rieni sydd angen ei wella, a dywedodd 15% o rieni oedd ddim yn defnyddio gofal plant mai fforddiadwyedd oedd y prif reswm.
Mae angen mwy o wasanaeth cyn ysgol, ar ôl ysgol ac ar ôl 6yh, yn ogystal â mwy o ofal ar benwythnosau.

Ni ddywedodd unrhyw rieni nad oeddent yn gallu dod o hyd i ofal plant Cymraeg, gydag un rhiant yn dweud yn y grŵp ffocws 'fod digon o ddewis o ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal'.
Dim ond 2% o ymatebwyr i'r holiadur ar-lein a ddywedodd nad oedd gofal plant yn y lle iawn, sy'n arwydd fod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn yr ardal lle mae ei angen.

DRAFT

**Rhwystrau i grwpiau targed penodol**

(i) Rhieni sy'n Gweithio
Dywedodd 76% o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein mai gwaith oedd y prif reswm pam eu bod yn defnyddio gofal plant. Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy oedd y prif faes a awgrymwyd gan y rhieni hyn fel un angen gwella. Nodwyd hefyd argaeledd cyn yr ysgol (7:30 – 9yb) ac ar ôl yr ysgol (3:30 – 6yh) yn ogystal â mwy o ofal ar benwythnosau fel meysydd oedd angen gwella.

(ii) Rhieni sydd yn chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant
Dywedodd 22 o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein fod diffyg gofal plant yn rhwystr iddynt rhag mynd i waith neu hyfforddiant. Unwaith eto, amlygwyd fforddiadwyedd ac argaeledd cyn 8yb, wedi 6yh ac ar benwythnosau fel rhesymau pam nad yw rhieni yn defnyddio gofal plant

(iii) Aelwydydd Di-waith
Dywedodd 4% o rieni a ymatebodd i'r arolwg ar-lein nad ydynt yn defnyddio gofal plant am eu bod yn rhiant sydd yn aros gartref, ac nid ydynt angen gofal plant.
Nodwyd cost ac argaeledd eto fel rhesymau dros beidio defnyddio gofal plant.

(iv) Teuluoedd ar incwm isel
Fforddiadwyedd yw'r prif rwystr i deuluoedd ar incwm isel. Mater o bryder yw nifer uchel y rhieni nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant.

(v) Teuluoedd un rhiant
Dywedodd un rhiant yn y grŵp ffocws ei bod yn 'anodd os ydych yn gweithio a bod trefniadau'n torri i lawr ar fyr rybudd'

(vi) Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
Ychydig iawn o deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Ngwynedd, a dim ond 2.5% o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein a ddywedodd eu bod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Yr oedd y rhwystrau'r un fath a'r rhai i'r holl rieni.

DRAFT

<u>(vii) Teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, neu anabledd</u>

Dywedodd 4 o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein nad oes gofal plant all ofalu am anghenion ychwanegol eu plenty.

Dywedodd un rhiant a lenwodd yr holiadur byr mai'r rhwystr iddi hi ddefnyddio gofal plant oedd: 'cael plentyn ag anghenion ychwanegol a methu gallu defnyddio gofal plant iddo', a nododd un arall mai datblygiad yr hoffai hi weld oedd 'peidio â gorfod talu am gefnogaeth 1-1 i blant ag anghenion ychwanegol'

DRAFT

## 8. Addysg Feithrin Rhan Amser (Cyfnod Sylfaen) a Darpariaeth Dechrau'n Deg

**Dadansoddiad o Addysg Feithrin Rhan Amser (Cyfnod Sylfaen)**
Dengys y tabl isod nifer y darparwyr a gyllidir i ddarparu Addysg Feithrin Rhan Amser, fesur categori iaith ac ardal:

| | **Gofal Dydd Llawn / Meithrinfa** | | | | | | | | **Gofal Dydd Sesiynol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ardal** | | | | | | | | **Ardal** | | | | | | | |
| Iaith | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| Cymraeg | | | | | | 1 | | | 9 | 18 | 8 | 8 | 4 | 5 | 4 | 2 |
| Cymraeg a Saesneg | 2 | | | | | | | | 2 | | 1 | | | 1 | | 1 |

Mae 66 o ddarparwyr Addysg Feithrin, 62 ohonynt yn Gylchoedd Meithrin y Mudiad Meithrin, 1 Grŵp Chwarae a 3 meithrinfa gofal dydd llawn.
Ni chyllidir unrhyw warchodwyr plant i ddarparu Addysg Feithrin.

Mae'r holl Addysg Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gyflwyno yn ôl polisi iaith Cyngor Gwynedd, gyda'r amodau canlynol yn eu contract:

- Bydd y darparwr yn darparu addysg sydd yn cydymffurfio â Chynllun Addysg Gymraeg Cyngor Gwynedd, trwy ofalu bod ansawdd y Gymraeg yn ddigonol i sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Wrth dderbyn y cytundeb, bydd gofyn i'r darparwr gydymffurfio â'r amcanion perthnasol a nodir yng Nghynllun Addysg Gymraeg Cyngor Gwynedd:

- Yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, gosodir seiliau cadarn trwy drochi'r plant yn yr iaith Gymraeg. Rhaid sicrhau mai Cymraeg yw prif iaith y dysgu. Bydd hyn yn sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol uwchradd.

DRAFT

Dengys y tabl isod nifer yr ysgolion a gyllidir i ddarparu Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar:

| | **Lleoliad yr Ysgolion** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Cymraeg | 14 | 24 | 19 | 10 | 6 | 8 | 2 | 4 |
| Cymraeg a Saesneg | 1 | | | | | | | |

Mae pob un ond un Ysgol Gynradd yng Ngwynedd yn cyflwyno Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar yn Gymraeg.

Gwelir isod nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth gan ddarparwyr gofal plant:

| | **Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 3 oed** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Cymraeg | 125 | 192 | 72 | 44 | 8 | 41 | 35 | 9 |
| Cymraeg a Saesneg | 29 | | 4 | | | 7 | | 14 |
| **Cyfanswm** | **154** | **192** | **76** | **44** | **8** | **48** | **35** | **23** |

| | **Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 4 oed** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Cymraeg | | | | | | 9 | 38 | |
| Cymraeg a Saesneg | | | | | | 12 | | |
| **Cyfanswm** | | | | | | **21** | **38** | |

Casglwyd y data gan yr holl ddarparwyr Addysg Feithrin yn ystod tymor haf 2016. Yr oedd 639 o blant yn cael eu cyllido: 580 yn 3 oed a 59 yn 4 oed.
Dim ond rhai darparwyr yn Ardal 6 a 7 (Dolgellau + Penllyn) a gyllidir ar gyfer plant 4 oed oherwydd nad yw eu hysgol gynradd leol yn derbyn plant tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4.

DRAFT

DRAFT

Dengys y tablau isod broffil mynychu wythnosol plant sy'n mynychu darpariaeth gan ddarparwyr gofal plant:

| | **Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 3 oed** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | | Ardal 2 | | Ardal 3 | | Ardal 4 | | Ardal 5 | | Ardal 6 | | Ardal 7 | | Ardal 8 | |
| Iaith | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh |
| Cymraeg | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Llun | 21 | 15 | 83 | 24 | 36 | 10 | 26 | | 4 | | 12 | 5 | 23 | 6 | 5 | |
| Mawrth | 23 | 15 | 101 | 16 | 30 | 9 | 26 | | | | 15 | 2 | 23 | 9 | 6 | |
| Mercher | 25 | 19 | 100 | 14 | 34 | | 26 | | | | 20 | 1 | 32 | 10 | 6 | |
| Iau | 18 | 6 | 92 | 16 | 25 | 4 | 24 | | | | 20 | 2 | 30 | 9 | 7 | |
| Gwener | 20 | 4 | 79 | 15 | 27 | 4 | 8 | | | | 12 | 3 | 16 | | 6 | |
| Cymraeg a Saesneg | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Llun | 16 | 5 | 2 | | 11 | | | | 2 | | | | | | 13 | |
| Mawrth | 17 | 5 | 2 | | 13 | | | | 1 | | | | | | 12 | |
| Mercher | 16 | 5 | 2 | | 12 | | | | 1 | | | | | | 12 | |
| Iau | 16 | 5 | 2 | | 12 | | | | 3 | | | | | | 13 | |
| Gwener | 16 | 3 | 2 | | | | | | | | | | | | 12 | |

| | **Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 4 oed** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | | Ardal 2 | | Ardal 3 | | Ardal 4 | | Ardal 5 | | Ardal 6 | | Ardal 7 | | Ardal 8 | |
| Iaith | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh |
| Cymraeg | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Llun | | | | | | | | | | | | | 15 | 32 | | |
| Mawrth | | | | | | | | | | | 3 | | 15 | 32 | | |
| Mercher | | | | | | | | | | | | 5 | 19 | 32 | | |
| Iau | | | | | | | | | | | | | 18 | 32 | | |
| Gwener | | | | | | | | | | | | | 18 | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Casglwyd y data yn y tablau blaenorol o gofnod HAG AGGCC. Nid oedd yr holl ddarparwyr wedi cwblhau'r adran hon, felly dylid defnyddio'r data fel canllaw yn hytrach na diffiniad.
Mae 78% o'r plant yn mynychu sesiynau bore, ac y mae dosbarthiad gwastad o bresenoldeb ar draws yr holl ddyddiau ac eithrio am ddydd Gwener pan fo'r niferoedd yn sylweddol is.

Dangosir nifer y plant sy'n mynychu'r ddarpariaeth a ddarperir gan yr ysgolion isod:

| | **Nifer plant 3/4 oed** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | | Ardal 2 | | Ardal 3 | | Ardal 4 | | Ardal 5 | | Ardal 6 | | Ardal 7 | | Ardal 8 | |
| Iaith | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh |
| Cymraeg | 238 | 64 | 235 | 121 | 133 | 52 | 66 | 30 | 49 | 25 | 28 | 27 | 27 | 0 | 23 | 20 |
| Cymraeg a Saesneg | 8 | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm | 310 | | 356 | | 185 | | 96 | | 74 | | 55 | | 27 | | 43 | |

Darparwyd y data yn y tabl gan yr Adran Addysg am blant oedd yn mynychu ysgol ym Medi 2016.
Mae 70% o'r plant yn mynychu sesiynau bore.

Ar hyn o bryd mae 2243 o lefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gael ar draws y sir; mae 1097 o'r rhain mewn lleoliadau gofal plant a 1146 yn ysgolion cynradd yr awdurdod lleol.
Mae ysgolion cynradd yn derbyn plant yn nhymor yr Hydref yn unig, tra bod lleoliadau gofal plant yn derbyn plant yn nhymhorau'r Hydref, Gwanwyn a Haf.
Mae nifer y llefydd fydd eu hangen yn cael ei ddadansoddi trwy ddata poblogaeth / genedigaethau byw; mae'r niferoedd yn amrywio bob blwyddyn a nifer y llefydd yn hyblyg. Bydd lleoliadau ac ysgolion yn gwneud llefydd ychwanegol ar gael os bydd galw gan rieni a bod ganddynt le.

DRAFT

O'r rhieni a lenwodd yr arolwg rhieni arlein, dywedodd 24 eu bod yn hawlio Addysg Blynyddoedd Cynnar am ddim a dywedodd 18 nad oeddent.
Dangosir y rhesymau dro beidio â hawlio yn y tabl isod:

| Rhesymeg | Gwynedd |
|---|---|
| Ddim yn gwybod am yr hawl | 12 |
| Tydw i ddim yn meddwl y bydd fy mhlentyn/plant yn elwa | 0 |
| Mae fy mhlentyn/plant eisoes mewn addysg llawn amser | 3 |
| Mae tâl ychwanegol am oriau ychwanegol | 0 |
| Allwn i ddim cael lle gyda'r darparwr o'm dewis | 0 |
| Does dim darpariaeth Gymraeg addas ar gael | 0 |
| Nid yw amseru'r sesiwn yn cwrdd â'm hanghenion | 1 |
| Arall | 2 |

Amlygwyd y gofynion gofal plant ychwanegol isod gan rieni fel yr hyn y buasent ei angen er mwyn gallu derbyn eu hawliad:

| Gofynion gofal plant | Gwynedd |
|---|---|
| Clwb Brecwast | 10 |
| Clwb Cinio | 7 |
| Sesiwn ychwanegol mewn Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin/ Meithrinfa (9yb-12yh) | 6 |
| Sesiwn ychwanegol mewn Grŵp Chwarae/ Cylch Meithrin/ Meithrinfa (12yh a 3.30yh) | 6 |
| Darpariaeth wedi'r feithrinfa/ysgol | 13 |

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Ar draws Gwynedd mae digon o lefydd Addysg Feithrin Rhan Amser i'r holl blant sydd eisiau manteisio ar eu hawl.
Mae mwy yn cymryd llefydd yn yr ysgolion cynradd lleol o gymharu â'r lleoliadau gofal plant nas cynhelir. Fodd bynnag, mae mwy o hyblygrwydd yn y lleoliadau gofal plant am eu bod yn derbyn plant bob tymor a gellir rhannu'r hawl ar draws mwy nag un lleoliad.
Hefyd, nid oes isafswm nifer y sesiynau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn derbyn yr hawliad.

Mae Grŵp Ansawdd Blynyddoedd Cynnar Gwynedd yn cydlynu a rheoli'r cymorth sydd ei angen gan y lleoliadau Cyfnod Sylfaen nas cynhelir. Mae'r Athrawon Cefnogol Cyfnod Sylfaen yn categoreiddio'r lleoliadau ar system goleuadau traffig er mwyn rheoli dwysedd y cymorth i'r lleoliadau. Mae hefyd yn cael ei nodi yn eu cytundeb gyda Chyngor Gwynedd pe byddai ansawdd y gwasanaeth yn gwanhau maent yn cael eu categoreiddio i gael cefnogaeth bellach. Mae hyn yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

O'r 22 arolwg Estyn a wnaed ar leoliadau nas gynhelir rhwng Gorffennaf 2014 a Mehefin 2016, graddiwyd 86% yn 'Dda' a 14% yn 'Foddhaol'.

Mae mwy o sesiynau bore ar gael, ac mae mwy o leoliadau ac ysgolion yn cynnig yr hawl yn Ardaloedd 1 a 2.


Dim ond 3 Meithrinfa Dydd Llawn sydd â'r hawl i gyflwyno Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar, gyda'r mwyafrif helaeth mewn lleoliadau Gofal Dydd Sesiynol.
Mae llawer o rieni sy'n gweithio angen gwasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast/gofal cofleidiol er mwyn gallu derbyn eu hawliad.


Dywedodd 12 o rieni a lenwodd yr arolwg rhieni ar-lein nad oeddent yn gwybod am yr hawl.

DRAFT

**Dadansoddiad o Ddarpariaeth Dechrau'n Deg**

Yn dilyn ehangu Dechrau'n Deg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu Cyngor Gwynedd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu swm y llefydd gofal plant sydd eu hangen yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae gan y chwe ardal Dechrau'n Deg ddigon o ofal plant i'r plant dyflwydd oed sydd yn y cynllun. Cofrestrwyd y lleoliad gofal plant olaf gyda Dechrau'n Deg ym Medi 2016 i roi gwasanaeth i ardaloedd a ychwanegwyd at bentref Penygroes.
Yn ystod ehangu'r rhaglen yn ddiweddar, derbyniodd yr holl leoliadau fuddsoddiad cyfalaf o £549,578 i wella ansawdd yr amgylchedd er mwyn cyrraedd safonau ansawdd Dechrau'n Deg. Mae 13 lleoliad Dechrau'n Deg yn cael eu monitro'n agos gan athrawon Dechrau'n Deg sydd yn ymweld yn rheolaidd i gefnogi a gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i wella safonau yn barhaus.
Ers 2011 mae presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg wedi gwella'n raddol, sydd yn gryfder yn y rhaglen – gweler y tabl isod. Mae wedi gwella o 76% i 83% yn 2015-16.






Dengys y siart uchod fod nifer y sesiynau a gontractiwyd wedi cynyddu yn y cyfnod diwethaf oherwydd i'r rhaglen ehangu.

Mae tîm Dechrau'n Deg yn monitro'r ffigyrau presenoldeb yn rheolaidd gyda'r lleoliadau ac ymdrinnir â phresenoldeb isel trwy drafodaethau amlasiantaethol os oes angen, i drafod materion sy'n codi a phroblemau sydd gan rai rhieni wrth fynychu'r lleoliadau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni nad ydynt yn manteisio ar yr hawl i ofal plant yn defnyddio math arall o ofal plant nad ydyw wedi'i gontractio o fewn y rhaglen, h.y., meithrinfa diwrnod llawn neu Gylch Meithrin y tu allan i'r dalgylch.

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Ansawdd y gofal plant yw cryfder y rhaglen.
Buddsoddodd Dechrau'n Deg yn natblygiad gweithlu gofal plant Dechrau'n Deg gyda dewislen o hyfforddiant megis Elklan, Makaton, Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol – Cai &Mai, Tatty Bumpkin – Yoga, Maethiad – Tiny Tums, SOGS, Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd a Diogelu Plant. Hefyd, cyrhaeddodd mwyafrif y staff gymhwyster Lefel 3 neu'n uwch yn y 13 lleoliad Dechrau'n Deg.

| | |
|---|---|
| **Nifer lleoliadau** | **13** |
| **Nifer arweinwyr gofal a gymhwysodd i lefel 5 (4 gynt)** | **9** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd i lefel 5 (4 gynt)** | **5** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd i lefel 3** | **79** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd yn is na lefel 3** | **8** |
| **Nifer staff dros ben o fewn yr uchod** | **19** |

*Ffigyrau Ion 2017 – Data Monitro Dechrau'n Deg*


Mae'r holl leoliadau wedi cyrraedd nod sicrwydd ansawdd gofal plant neu'n gweithio tuag ato.

Cofrestrodd yr holl leoliadau Dechrau'n Deg gyda Chynllun Cyn-Ysgolion Iach a Chynaliadwy Gwynedd ac y maent wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gan y cydlynydd a swyddogion i hybu bwyta'n iach, sgiliau coginio, hylendid bwyd, gweithgaredd corfforol, etc.

Mae holl ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r plant

DRAFT

Mae'r holl ddarparwyr wedi cofrestru gyda'r Cynllun Gwèn, a llwyddodd rhai i gael yr achrediad Cynllun Gwên.




*Achrediad Cynllun Gwên i leoliadau Dechrau'n Deg 2014 - 2016*

## 9. Darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim

Dadansoddiad o Ddarpariaeth Clwb Brecwast am Ddim

| Ardal | Enw'r Ysgol | Nifer yn Mynychu |
|---|---|---|
| 1 | Bodfeurig | 12 |
| | Penybryn, Bethesda | 50 |
| | Glanadda | 20 |
| | Llanllechid | 76 |
| | Glancegin | 48 |
| | Babanod, Coedmawr | 9 |
| | Abercaseg | 45 |
| | Y Felinheli | 55 |
| | Hirael | 25 |
| | Llandygai | 49 |
| | Tregarth | 33 |
| | Cae Top | 44 |
| | Ein Harglwyddes | 53 |
| 2 | Gwaun Gynfi | 48 |
| | Llanrug | 90 |
| | Bethel | 28 |
| | Brynaerau | 13 |
| | Gelli | 52 |
| | Dolbadarn | 50 |
| | Felinwnda | 17 |
| | Llanllyfni | 26 |
| | Baladeulyn | 17 |
| | Nebo | 11 |
| | Penisarwaen | 29 |
| | Bro Lleu | 54 |
| | Rhiwlas | 20 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **2** | Rhosgadfan | 25 |
| | Talysarn | 40 |
| | Waunfawr | 61 |
| | Yr Hendre | 80 |
| | Bontnewydd | 65 |
| | Bro Llifon | 50 |
| | Maesincla | 110 |
| | Santes Helen | 20 |
| **3** | Nefyn | 9 |
| | Abererch | 29 |
| | Chwilog | 19 |
| | Edern | 20 |
| | Bro Plenydd | 16 |
| | Llanbedrog | 27 |
| | Llangybi | 21 |
| | Morfa Nefyn | 15 |
| | Yr Eifl | 13 |
| | Cymerau | 44 |
| | Foelgron | 16 |
| **4** | Beddgelert | 6 |
| | Borthygest | 22 |
| | Treferthyr | 28 |
| | Garndolbenmaen | 35 |
| | Eifion Wyn | 44 |
| | Y Garreg | 9 |
| | Y Gorlan | 30 |
| | Cefn Coch | 46 |
| | Talsarnau | 25 |
| | Tanycastell | 28 |

DRAFT

| Ardal | Enw'r Ysgol | Nifer yn Mynychu |
|---|---|---|
| **5** | Bro Cynfal | 33 |
| | Edmwnd Prys | 22 |
| | Manod | 28 |
| | Tanygrisiau | 45 |
| | Bro Hedd Wyn | 32 |
| | Maenofferen | 50 |
| **6** | Y Traeth | 33 |
| | Dyffryn Dulas | 11 |
| | Ganllwyd | 5 |
| | Llanbedr | 12 |
| | Ieuan Gwynedd | 8 |
| | Dolgellau | 16 |
| **7** | Bro Tegid | 25 |
| | O M Edwards | 31 |
| | Bro Tryweryn | 17 |
| | Ffridd y Llyn | 25 |
| | Beuno Sant | 10 |
| **8** | Pennal | 11 |
| | Penybryn, Tywyn | 34 |
| | Y Friog | 15 |
| | Craig y Deryn | 28 |

Mae gan  76 ysgol gynradd ar draws Gwynedd ddarpariaeth clwb brecwast am ddim gyda 2418 o blant yn mynychu. Nid oes cyfyngiad ar nifer y plant gaiff fynychu.
Mae mwyafrif y lleoliadau ar agor am 8yb

DRAFT

**10. Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr/ Gofal Plant Rhydd o Dreth**

**Dadansoddiad o Gredyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr/ Gofal Plant Rhydd o Dreth**

Dengys y tabl isod nifer y rhieni a lenwodd yr arolwg arlein, ac a ddywedodd eu bod yn hawlio elfen gofal plant credyd treth gwaith / credyd cynhwysol:

| Nifer ymatebwyr yn hawlio | Math o ofal plant a ddefnyddiwyd | Nifer plant sy'n mynychu |
|---|---|---|
| 24 | Gwarchodwr Plant | 7 |
| | Meithrinfa | 14 |
| | Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae | 11 |
| | Crèche | 3 |
| | Clwb ar ôl Ysgol | 7 |
| | Clwb Brecwast | 12 |
| | Cynllun chwarae | 0 |
| | Mynediad Agored | 0 |
| | Nani | 0 |

Dengys y tabl isod nifer y rhieni a lenwodd yr arolwg arlein, ac a ddywedodd eu bod yn hawlio gofal plant rhydd o dreth neu eu bod yn cael cymorth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr:

| Nifer ymatebwyr yn hawlio | Math o ofal plant a ddefnyddiwyd | Nifer plant sy'n mynychu |
|---|---|---|
| 19 | Gwarchodwr Plant | 11 |
| | Meithrinfa | 5 |
| | Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae | 2 |
| | Crèche | 3 |
| | Clwb Wedi'r Ysgol | 2 |
| | Clwb Brecwast | 3 |
| | Cynllun chwarae | 3 |
| | Mynediad Agored | 0 |
| | Nani | 0 |

DRAFT

Dengys y tabl isod nifer y rhieni a lenwodd yr arolwg arlein, ac a ddywedodd nad oeddent yn hawlio elfen gofal plant credyd treth gwaith / credyd cynhwysol:

| | Cyfanswm Gwynedd | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 | Ardal anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer ymatebwyr heb fod yn hawlio | 94 | 14 | 37 | 15 | 5 | 7 | 5 | 1 | 4 | 6 |
| Bwriadu hawlio yn y dyfodol | 9 | 1 | 3 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Ddim yn bwriadu hawlio yn y dyfodol | 55 | 8 | 23 | 11 | 3 | 2 | 3 | 1 | 2 | 2 |
| Ansicr a fyddant yn hawlio yn y dyfodol a'i peidio | 29 | 5 | 11 | 3 | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 3 |

O'r 347 o rieni a lenwodd yr arolwg arlein, mae 27% ddim yn hawlio'r elfen gofal plant y credyd treth gwaith / credyd cynhwysol. Mae 24% heb fwriadu hawlio neu maent yn ansicr a fyddant yn hawlio ai peidio yn y dyfodol. Dim ond 9 o rieni a ddywedodd y bwriadant hawlio yn y dyfodol.

Gofynion gofal plant rhieni sy'n bwriadu hawlio yn y dyfodol oedd:

| | **Nifer plant** |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 6 |
| Meithrinfa | 13 |
| Crèche | 12 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 3 |
| Clwb Brecwast | 8 |

DRAFT

Dengys y tabl isod nifer y rhieni a lenwodd yr arolwg arlein, ac a ddywedodd nad oeddent yn hawlio gofal plant rhydd o dreth neu gymorth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr:

| | Cyfanswm Gwynedd | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 | Ardal anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer ymatebwyr heb fod yn hawlio | 114 | 17 | 45 | 15 | 9 | 7 | 10 | 1 | 3 | 7 |
| Bwriadu hawlio yn y dyfodol | 23 | 4 | 9 | 3 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Ddim yn bwriadu hawlio yn y dyfodol | 59 | 10 | 24 | 9 | 4 | 1 | 5 | 0 | 2 | 4 |
| Ansicr a fyddant yn hawlio yn y dyfodol ai peidio | 47 | 7 | 19 | 4 | 3 | 4 | 5 | 1 | 2 | 2 |

O’r 347 o rieni a lenwodd yr arolwg arlein, mae 33% ddim yn hawlio gofal plant rhydd o dreth neu gymorth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr. Mae 30% heb fod yn bwriadu hawlio neu’n ansicr a fyddant yn hawlio ai peidio yn y dyfodol. Dywedodd 23 o rieni y bwriadant hawlio yn y dyfodol.

Gofynion gofal plant rhieni sy’n bwriadu hawlio yn y dyfodol oedd:

| | **Nifer plant** |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 11 |
| Meithrinfa | 9 |
| Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae | 9 |
| Crèche | 2 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 8 |
| Clwb Brecwast | 6 |
| Cynllun chwarae | 3 |

DRAFT

Dengys y tabl isod the rhesymau a roddwyd gan rieni dros beidio â bwriadu hawlio elfen gofal plant y credyd treth gwaith / credyd cynhwysol:

| Rhesymeg | Nifer ymatebwyr |
| --- | --- |
| Dwi ddim yn gwybod am elfen gofal plant y credyd treth gwaith / credyd cynhwysol | 27 |
| Rwy'n gwybod nad wyf yn gymwys | 36 |
| Dwi ddim yn siŵr a wyf yn gymwys ai peidio | 29 |
| Rwy'n dewis peidio â'i hawlio | 3 |
| Mae'r broses yn rhy gymhleth | 9 |
| Does gen i ddim amser i'w hawlio | 3 |
| Fedra'i ddim cael y wybodaeth neu'r cyngor sydd arnaf ei angen i gwblhau fy nghais (cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol am gymorth) | 0 |
| Mae fy amgylchiadau yn newid yn rhy aml i'm galluogi i hawlio yn hawdd | 4 |
| Dwi ddim yn talu am y gofal plant y byddaf yn defnyddio | 8 |
| Lleoliad heb ei gofrestru /Nanis na chymeradwywyd dan Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Llywodraeth Cymru | 1 |
| Arall | 5 |

DRAFT

Dengys y tabl isod the rhesymau a roddwyd gan rieni dros beidio â bwriadu hawlio gofal plant rhydd o dreth neu gymorth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr:

| Reasoning | Nifer ymatebwyr |
|---|---|
| Dwi ddim yn gwybod am elfen gofal plant y credyd treth gwaith / credyd cynhwysol | 42 |
| Rwy’n gwybod nad wyf yn gymwys | 17 |
| Dwi ddim yn siŵr a wyf yn gymwys ai peidio | 30 |
| Rwy’n dewis peidio â’i hawlio | 5 |
| Mae’r broses yn rhy gymhleth | 5 |
| Does gen i ddim amser i’w hawlio | 2 |
| Fedra’i ddim cael y wybodaeth neu’r cyngor sydd arnaf ei angen i gwblhau fy nghais (cysyltlwch â’ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol am gymorth) | 1 |
| Mae fy amgylchiadau yn newid yn rhy aml i’m galluogi i hawlio yn hawdd | 2 |
| Dwi ddim yn talu am y gofal plant y byddaf yn ddefnyddio | 8 |
| Lleoliad heb ei gofrestru /Nanis na chymeradwywyd dan Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Llywodraeth Cymru | 4 |
| Arall | 6 |

DRAFT

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Dim ond 7% o rieni a lenwodd yr holiadur ar-lein a ddywedodd eu bod yn hawlio elfen gofal plant credyd treth gwaith / credyd cynhwysol.

Dim ond 5.5% o rieni a lenwodd yr holiadur ar-lein a ddywedodd eu bod yn hawlio gofal plant rhydd o dreth neu dderbyn cymorth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr.

Mae 8% o rieni heb wybod am elfen gofal plant credyd treth gwaith / credyd cynhwysol a 12% heb wybod am ofal plant rhydd o dreth / cynllun a gefnogir gan gyflogwr.

Mae 17% o rieni yn ansicr a ydynt yn gymwys am y naill neu'r llall o'r cynlluniau hyn, ac y mae 5.5% yn cael y broses yn rhy gymhleth neu nid oes ganddynt amser i hawlio.

Mae 21% o rieni yn gwybod nad ydynt yn gymwys i hawlio, ddim yn talu am y gofal plant maent yn defnyddio neu yn defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru.

Mae Gwynedd-Ni (GGD) yn cynnig help a gwybodaeth am ddewisiadau gofal plant a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i rieni, ond nodwyd fod llawer o rieni ddim yn ymwybodol o'r gwasanaeth.

DRAFT

## 11. Cynaliadwyedd

Mae Uned Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynaliadwyedd yr holl sector gofal plant yn y sir.
Mae Grantiau Cychwynnol ar gael ar hyn o bryd i unrhyw ddarpariaeth gofal plant newydd sy'n agor yn y sir gyda Gwarchodwyr Plant / Meithrinfeydd / Cylchoedd Meithrin yn cael eu cyllido o gyllideb yr awdurdod lleol. Defnyddir cyllid grant uniongyrchol trwy'r Grant Tu Allan i Oriau Ysgol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Clybiau ar ôl Ysgol, Clybiau Gwyliau a Chynlluniau Chwarae Gwyliau.
Rhaid i unrhyw gyllid cychwynnol basio proses fetio lem, gyda chofrestriad AGGCC yn ofyniad gorfodol i unrhyw leoliad dderbyn arian.
Mae pecyn helaeth o hyfforddiant gyda chymhorthdal yn cael ei ddarparu i bob lleoliad gofal plant bob blwyddyn. Darperir cyrsiau hyfforddiant gorfodol, (e.e., Cymorth Cyntaf i Blant / Amddiffyn Plant / Hylendid Bwyd) yn ogystal ag amrywiaeth o gyrsiau DPP ar gost enwol o £10/person. Mae hyn yn sicrhau y gall staff fynychu cyrsiau heb i gost fod yn broblem.

Ni fu dad-gofrestriadau AGGCC yn broblem fawr hyd yma. Mae cyfradd drosiant uwch i warchodwyr plant o gymharu â mathau eraill o leoliadau gofal plant, ond mae hyn oherwydd natur y gwaith yn hytrach na materion cynaliadwyedd.

Mae cynaliadwyedd yn dod yn fwy o broblem i leoliadau gofal plant ac y mae cyflwyno'r isafswm cyflog a'r cyflog byw wedi cael effaith. Mae'n anodd i leoliadau ddarparu gofal plant o safon uchel a hefyd ei wneud yn fforddiadwy i rieni.
Y mae Cyngor Gwynedd yn darparu grantiau adnoddau blynyddol i bob lleoliad cofrestredig sy'n gwneud cais, ac y mae grantiau cynaliadwyedd hefyd ar gael i unrhyw ddarparwr gofal plant sydd mewn anhawster ariannol.
Lleoliadau sy'n darparu Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar sydd wedi teimlo'r effaith fwyaf yn y blynyddoedd diweddar gyda thoriadau yn eu cyllid.
Mae Cyngor Gwynedd yn mynd ati i gefnogi lleoliadau Addysg Feithrin sydd mewn anhawster ariannol oherwydd costau rhent uchel. Nodir llefydd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd lleol, a chefnogir y lleoliad i ail-leoli.

Anfonwyd holiadur byr at bob lleoliad gofal plant cofrestredig yng Ngwynedd i gasglu gwybodaeth ar y 3 chwestiwn isod:

1. Oes gennych chi unrhyw bryderon am eich cynaliadwyedd yn y tymor byr / hir?
2. Oes gennych chi unrhyw anghenion hyfforddiant brys?
3. Pa ddatblygiadau garech chi eu gweld gan Gyngor Gwynedd / corff aelodaeth yn y 5 mlynedd nesaf i gefnogi eich busnes?

Llenwyd 23 holiadur.

DRAFT

Mewn ymateb i gwestiwn 1, atebodd 52% ‘Oes’ gyda sylwadau yn gynnwys yr isod:

‘mae’r baich gwaith sy’n cynyddu’n barhaus yn ei gwneud yn anodd iawn dod o hyd i wirfoddolwyr sy’n barod i ymgymryd â gwaith Person Cofrestredig, yn enwedig am ein bod yn gymuned fechan. Mae arna’i ofn fod cynaliadwyedd tymor hir dan fygythiad’
‘yr ydym ar hyn o bryd yn ei chael yn anodd hyd yn oed i dalu cyflogau, i’r graddau y bu’n rhaid i rai aelodau o’r staff fynd heb gyflog mis llawn, ac erys y Cylch mewn dyled iddynt hyd nes y bydd y sefyllfa ariannol yn gwella trwy godi arian a chael mwy o blant yn mynychu
‘yn y tymor hir – oherwydd oblygiadau a all godi o’r cynnig o 30 awr o ofal plant’
‘tymor hir pan ddaw’r 30 awr o ofal plant i mewn, oherwydd fel Cylch Meithrin bychan ni fyddai modd i ni gystadlu â grwpiau mwy’
‘pryderon ariannol, pryderon am ddyfodol y Mudiad Meithrin, pryderon am effaith y cynnig 30 awr o ofal plant ar Gylchoedd Meithrin bach’
‘rydym wedi colli £400 - £900 bob blwyddyn am y 6 blynedd a aeth heibio’

Mewn ymateb i gwestiwn 2, dim ond 5 lleoliad a atebodd ‘Oes’ gan amlygu’r gofynion hyfforddiant isod:
Rheoli Ymddygiad; Amddiffyn Plant; Cyfle Cyfartal; Cymorth Cyntaf; Iechyd a Diogelwch; Hyfforddiant TG.

Ymysg ymatebion i gwestiwn 3 yr oedd y canlynol:
‘elusen, nid busnes ydym ni, ac o’r herwydd mae arnom angen llawer mwy o help o ran cyllid’
‘mwy o arian fel y gallwn ganolbwyntio mwy ar y plant yn hytrach na chodi arian o hyd i gynnal y Cylch’
‘mae bron yn amhosib cael rhieni i wirfoddoli ar y pwyllgor, a chynnal eu hymwneud yn y tymor canol/hir – mae natur dros dro pwyllgor rhieni yn achosi problemau yn hytrach na’u datrys. Byddai cael strwythur reoli fwy parhaol yn help’
‘grantiau cefnogi i wella cyfleusterau ac adnoddau’
‘dim mwy o doriadau yn y grantiau’
‘Hoffwn weld gwaith y person cyfrifol yn cael ei gymryd gan aelod taledig o’r staff sydd wedi hyfforddi ac yn brofiadol ym mhob maes rheoli’
‘oherwydd pris cynyddol adnoddau, byddai grant mwy yn llesol, neu hyd yn oed gyflenwad o adnoddau i’n meithrinfa’
‘Cyrsiau Cyfnod Sylfaen ar gael i warchodwyr plant nad ydynt wedi cofrestru fel darparwyr Addysg Feithrin’

DRAFT

**12. Trawsffiniol**

Dylai'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ystyried y rhai sy'n defnyddio gofal plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn ogystal â'r rhai sy'n teithio i ardal yr awdurdod lleol i ddefnyddio gofal plant. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori a'u hawdurdodau lleol cyfagos i asesu'r niferoedd a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad.

O'r 347 ymateb i'r holiadur rhieni arlein, dywedodd 22 o rieni eu bod yn defnyddio darpariaeth gofal plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, yr oedd 14 o'r rhain yn ystod tymor ysgol a 10 yn ystod gwyliau'r ysgol.
Nododd 9 o rieni eu bod yn defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth y tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol; yr oedd 7 o'r rhain yn ystod tymor ysgol a 2 yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dengys y tabl isod nifer y plant o siroedd eraill a'r mathau o ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddir:

| | Meithrinfa Dydd Llawn | Gwarchodwr Plant | Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 36 | 6 | 2 | 44 |
| Conwy | 11 | 1 | 2 | 14 |
| Dinbych | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Powys | 0 | 0 | 3 | 3 |

Môn sydd yn cyfrif am y mwyaf o ofal plant a ddefnyddir gan rieni o'r tu allan i'r awdurdod lleol, gyda'r holl ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio yn Ardal 1(Bangor). Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd lleoliad cyflogwyr mawr megis Ysbyty Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn yr ardal yma.

Er y gall plant o siroedd eraill derbyn eu hawl i Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar am ddim mewn ysgolion yng Ngwynedd, ar hyn o bryd, ni allant wneud hynny yn y lleoliadau gofal plant nas cynhelir.

Dywedodd 2 o rieni o Gonwy ar eu harolwg arlein eu bod yn defnyddio gofal plant yng Ngwynedd yn ystod tymor ysgol a gwyliau'r ysgol.

DRAFT

**13. Datblygu'r Gweithlu**

Dengys y tabl isod y lefelau cymhwyster, fesul math o ofal plant:

| Lefel Uchaf Cymwysterau Perthnasol | Gwarchodwyr plant | Gofal Dydd Llawn | Gofal Dydd Sesiynol | Gofal y Tu Allan I Oriau Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 8 | 47 | 19 | 6 |
| Lefel 3 | 42 | 172 | 129 | 25 |
| Lefel 4 | 2 | 11 | 1 | 0 |
| Lefel 5 | 9 | 21 | 7 | 3 |
| Lefel 6 | 0 | 13 | 3 | 4 |
| Lefel 7 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Dim | 7 | 5 | 7 | 0 |
| Heb nodi | 18 | 16 | 6 | 4 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGGCC 2016*

Dengys y darlun cyffredinol, o'r rhai a lenwodd data HAG AGGCC yn 2016, fod gan 63% gymhwyster lefel 3. Dim ond 3% a ddywedodd nad oedd ganddynt gymhwyster, ac yr oedd 7.5% arall heb nodi eu cymhwyster.

Dywedodd 20% o warchodwyr plant eu bod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.
Dywedodd 33% o staff gofal dydd llawn eu bod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.
Dywedodd 32% o staff gofal sesiynol eu bod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.
Dywedodd 42% o staff gofal tu allan i oriau ysgol eu bod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.

DRAFT

Mae'r cymwysterau sydd eu hangen i weithio ym mhob math o leoliad gofal plant wedi eu rheoleiddio naill ai gan Gyngor Gofal Cymru neu 'Skills Active'. Mae eu dogfennau cyhoeddedig yn rhoi rhestr gynhwysfawr o gymwysterau presennol a'r gorffennol sydd eu hangen gan unrhyw un sydd am weithio yn y sector gofal plant.

Yn data HAG AGGCC, gofynnwyd i bawb a nododd pa lefel cymhwyster oedd ganddynt iddynt hefyd a oedd y cymhwyster ar y naill neu'r llall o'r rhestrau uchod.
Dywedodd 444 o ymatebwyr fod eu cymhwyster ar restr; fodd bynnag, mae'r ffaith mai dim ond 9 a ddywedodd fod eu cymhwyster ar restr cymwysterau Cyngor Gofal Cymru yn achos pryder. Dywedodd 435 'Ddim yn gwybod'.
Dywedodd 109 o ymatebwyr nad oedd eu cymhwyster ar y naill restr na'r llall, gyda 34 arall heb ddweud.
Rhaid holi a oedd pawb yn deall y cwestiwn yn llwyr, ac mai dim ond gwall gweinyddol yw peidio gwybod ar y pryd beth yw enw'r rhestr cymhwyster.
Fodd bynnag, mae'n achos pryder fod cyn lleied o ymatebwyr yn ymwybodol o'r rhestrau cymwysterau cyfreithiol i weithwyr gofal plant.

Dengys y tabl isod nifer y gweithwyr gofal plant y mae eu tystysgrifau hyfforddiant gorfodol yn dod i ben yn ystod y 12 mis neu'r 2 flynedd nesaf.
Unwaith eto, rhaid codi cwestiynau ynghylch dilysrwydd y data hwn gan nad oedd dilyniant yn y rhan hon o'r ffurflen HAG (h.y. yr oedd un adran yn gofyn am ddyddiad dod i ben tra bod y llall yn gofyn am ddyddiad cwblhau) ymddengys bod hyn wedi achosi dryswch yn y data a gyflwynwyd, felly dylid defnyddio'r tabl isod fel canllaw yn hytrach na diffiniad.

| | **Tystysgrifau ddaw i ben yn y 12 mis nesaf** | | | **Tystysgrifau ddaw i ben yn y 2 flynedd nesaf** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o ofal plant | Tystysgrif Cymorth Cyntaf i Blant | Hyfforddiant Amddiffyn Plant | Hyfforddiant Hylendid Bwyd | Tystysgrif Cymorth Cyntaf i Blant | Hyfforddiant Amddiffyn Plant | Hyfforddiant Hylendid Bwyd |
| Gwarchodwr Plant | 35 | 33 | 23 | 41 | 15 | 20 |
| Gofal Dydd Llawn | 129 | 103 | 83 | 102 | 94 | 96 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 69 | 57 | 53 | 75 | 75 | 65 |
| Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | 21 | 19 | 5 | 14 | 13 | 29 |

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod gynhwysfawr o gyrsiau hyfforddiant gorfodol a DPP yn flynyddol er mwyn sicrhau yr atebir yr holl ofynion hyfforddiant. Fodd bynnag, rhaid i leoliadau gofal plant gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ofalu eu bod yn llwyr ymwybodol o'r adeg y daw eu tystysgrifau hyfforddiant gorfodol i ben ac archebu cyrsiau mewn da bryd.

DRAFT

## 14. Canlyniadau Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid



Ymgynghorwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, a chrynhoir y canfyddiadau isod:

Asesiad Anghenion Llesiant
Asiwyd yr ADGP yn agos â'r Asesiad Anghenion Llesiant Lleol gyda'r un ardaloedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddau. Cynhwyswyd data poblogaeth am yr Asesiad Anghenion Llesiant Lleol yn yr ADGP er mwyn sicrhau cysondeb gwybodaeth. Dadansoddwyd ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad Asesiad Anghenion Llesiant gyda'r canfyddiadau canlynol ynghylch gofal plant:
Ardal 1 (Bangor)
Mewn ymateb i gwestiwn 4 - Nodwch hyd at 3 peth yn eich ardal sy'n gwella llesiant a chyfrannu at eich ansawdd bywyd:
Nododd 2 o bobl 'Byw mewn ardal cynllun Dechrau'n Deg'

Ardal 2 (Caernarfon)
Mewn ymateb i gwestiwn 2 – Nodwch hyd at 3 peth sy'n gwneud eich ardal yn lle braf i fyw:
Nododd 2 o bobl 'Mae'r Cylch Meithrin yn groesawgar ac yn dda'

Amlygwyd yr iaith Gymraeg yn yr ymatebion ym mhob Ardal, sy'n dangos pa mor bwysig ydyw i bobl Gwynedd o ran teimlad o les. Mae sicrhau digon o ddarpariaeth gofal plant yn Gymraeg felly yn flaenoriaeth.

Adran Gwaith a Phensiynau
Ymgynghorwyd ag Ymgynghorwyr Cyflogaeth Rhieni PaCE yng Ngwynedd am eu bod yn gweithio'n agos gyda rhieni lle mae gofal plant yn brif rwystr i gyrchu cyfloed am hyfforddiant neu waith.
Nodwyd y sylwadau isod:
*"Mae diffyg gofal plant yn ardal Dolgellau yn gyffredinol. Mae'r unig feithrinfa y tu allan i'r dref.*
*Ychydig iawn o warchodwyr plant cofrestredig ac o siarad â darpar warchodwyr plant newydd, ni fyddai llawer yn gallu ei wneud oherwydd amod yn eu cytundeb rhent.*
*Yn gyffredinol, rwy'n gweld ym Meirionnydd nad oes llawer o ran gofal plant i blant hŷn, h.y. 8 oed a hŷn. Mae hyn yn sicr yn broblem dros wyliau'r haf i lawer o rieni sy'n gweld bod digon o waith yno, ond na allant ddod o hyd i ofal plant ar gyfer plant hŷn".*

DRAFT

Bwrdd Diogelu Plant
Derbyniwyd manylion am nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant; nid oedd sylwadau pellach am ddigonolrwydd gofal plant yn y sir.

Adrannau'r Awdurdod Lleol
Adran Ymchwil a Dadansoddeg: Cynhaliodd yr Uwch-Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg yr holl ddata o'r arolwg rhieni ar-lein, ei ddadansoddi, a hefyd darparu llawer o'r data poblogaeth. Yr oedd eu gwaith ar yr Asesiad Anghenion Llesiant hefyd yn sicrhau cysondeb gwybodaeth ar draws y ddau adroddiad.

Adran Addysg: Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn wastad wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg yng nghyswllt cyllid Addysg feithrin Blynyddoedd Cynnar ac wedi sicrhau digon o leoliadau nas cynhelir i gwrdd ag anghenion rhieni ar draws y sir.
Amlygwyd cydweithio agos fel rhywbeth hanfodol wrth i ni fynd ymlaen at ddarpariaeth newydd Ysgolion yr 21ain ganrif a'r angen am ofal plant o safon ar y safle.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (Gwynedd-Ni): er y gwelodd y GGD doriadau mawr yn ddiweddar, maent yn gweithio'n agos gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar i sicrhau fod gwybodaeth i rieni mor fanwl a chyfoes ag sydd modd. Bydd gwaith i hyrwyddo Gwynedd-Ni yn hanfodol yn y tymor byr a hir i sicrhau fod rhieni yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant yn y sir.

Adran Gynllunio: mae'r Adran Gynllunio wedi gweithio'n agos gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn y gorffennol pan wnaed newidiadau i niferoedd cofrestru gwarchodwyr plant. Maent yn ymwybodol o'r angen am fwy o ddatblygiadau gofal plant yn yr ardaloedd gwledig a'r gofyniad i weithio'n agos gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar.
Yr ardaloedd lle gwneir y rhan fwyaf o ddatblygiadau yw Ardal 1(Bangor) ac Ardal 2(Caernarfon); dyma hefyd yr ardaloedd lle mae'r mwyaf o leoliadau gofal plant. Mae cydweithredu rhwng yr Adran Gynllunio, yr Adran Addysg a'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau fod llefydd gofal plant ac addysg Blynyddoedd Cynnar yn ddigon i gwrdd ag anghenion rhieni newydd i'r ardal.

Plant
Anfonwyd holiaduron trwy Swyddog Datblygu Busnes Clybiau Plant Cymru Kid's Club at yr holl Glybiau Wedi'r Ysgol ym mis Rhagfyr 2016. Gofynnwyd i blant ym mlynyddoedd 4, 5 a 6 lenwi holiaduron fyddai'n rhoi eu barn am y clwb, beth oeddent yn hoffi amdanynt ac a fuasent eisiau mynychu clwb wedi'r ysgol pan fyddent yn cyrraedd oedran ysgol uwchradd.
Llenwyd 17 o holiaduron, 7 bachgen a 10 geneth, yn amrywio o 7 i 11 oed.
Yr oedd y mwyafrif helaeth yn mynychu clwb ar ôl ysgol ar 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos yn unig, a dywedodd 16 o'r rhai a ymatebodd eu bod yn mynychu oherwydd bod eu mam/tad yn gweithio.

DRAFT

Dywedodd 12 o'r plant eu bod yn mwynhau mynychu, a'r 5 oedd weddill yn dweud ei fod yn 'iawn'.
Pan ofynnwyd a fuasent yn hapus i fynychu clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd, dywedodd 7 'Buasent' , 1 'Efallai' a dywedodd y 9 arall na fuasent am fynychu. Y rhesymau roddwyd oedd: rhyw fawr; mae'n debyg y buaswn yn ddigon hen i gerdded adref ar fy mhen fy hun; rydw i'n hoffi bod yma; gallwn fynd ar y bws; am y buaswn eisiau adolygu.
Gofynnwyd i'r plant pa weithgareddau y carent fod ar gael mewn clwb. Chwarae, gymnasteg, pêl-droed, garddio, rygbi, wii/playstation/Xbox, celf a chrefft, dodge ball a dim ond ymlacio oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd.

<u>Prifathrawon ysgolion cynradd</u>
Anfonwyd holiadur at bennaeth pob ysgol gynradd ym mis Rhagfyr 2016. Derbyniwyd ymatebion o bob cwr o'r sir
Cwestiwn 1: Oes gennych chi ofal plant ar safle eich ysgol ar hyn o bryd?
Clwb Brecwast am Ddim – 21
Clwb ar ôl Ysgol – 11
Cylch Meithrin – 9
Cofleidiol – 5
Clwb gwyliau – 4
Lleoliad Dechrau'n Deg – 2

Cwestiwn 2: A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddarparwyr gofal plant lleol sy'n casglu plant o'ch ysgolion?
Gwarchodwr plant – 15
Meithrinfa – 14
Clwb ar ôl Ysgol – 4
Cylch Meithrin - 1
Taid a Nain – 1

Cwestiwn 3: yn eich barn chi, a oes digon o ofal plant ar gael yn lleol i gwrdd ag anghenion y teuluoedd sy'n mynychu eich ysgol chi?
Oes – 11
Na – 8
Ddim yn gwybod – 7
Sylwadau a dderbyniwyd: mae ar rieni angen rhywun i ofalu am eu plentyn am 1 neu 2 awr, mae meithrinfeydd yn ddrud ac yn disgwyl tâl am ddiwrnod llawn.

DRAFT

Cwestiwn 4: A yw rhieni wedi dod i gysylltiad â chi am ofal plant?
Do – 11
Na – 14
Ddim yn gwybod – 1
Sylwadau a dderbyniwyd: mae nifer o deuluoedd wedi galw am ddarpariaeth 'cofleidiol' ac a oes cynlluniau i'w gynnig yn yr ysgol; mae rhieni yn awyddus i sefydlu Cylch Meithrin ond ni chawsom ymateb gan y Mudiad Meithrin; arferai'r ysgol gael clwb ar ôl ysgol tan Fedi 2016 pan fu'n rhaid iddo gau oherwydd materion staffio ac ariannol – roedd llawer o rieni yn anhapus am hyn.

Cwestiwn 5: Oes gennych chi le yn eich ysgol lle gellid datblygu lleoliad gofal plant newydd?
Oes – 12
Na – 10
Ddim yn gwybod – 4
Sylwadau a dderbyniwyd: Rwyf wedi ystyried cychwyn clwb ar ôl ysgol yn y neuadd; dibynnu pa adeg o'r dydd mae lle ar gael wedi'r ysgol; wrthi'n gweithio gyda'r Cylch Meithrin i roi lle iddynt; mae iard addas ar y safle i leoli caban ar gyfer darpariaeth cofleidiol.

Cwestiwn 6: O ran fforddiadwyedd gofal plant, pa mor debyg yw y byddai teuluoedd eisiau gofal plant petai'n cael ei gynnig?
Sylwadau a dderbyniwyd: Rwy'n meddwl y byddai gan nifer o rieni ddiddordeb; byddai teuluoedd yn bendant ar eu hennill o ddarpariaeth gofleidiol; byddai'n dibynnu ar y gost; teuluoedd a chyfeillion sydd y rhai sy'n cynnig y mwyaf o ofal plant i'r ysgol hon, y mae'n gymuned agos iawn gyda phawb yn cynnal ei gilydd; mae hon yn ardal ddifreintiedig ac y mae gan nifer fawr o rieni waith tymhorol ar gyflogau isel, rwy'n hyderus y buasent yn ei groesawu petai cyfleoedd gofal plant fforddiadwy ar gael yn lleol.

Cyflogwyr
Derbyniwyd ymatebion gan 2 gyflogwr yn unig yng Ngwynedd. Un oedd yr awdurdod lleol sy'n cyflogi 5994 aelod o staff, a pharc gwyliau oedd y llall sy'n cyflogi 400 aelod o staff.
Mae'r ddau gyflogwr yn cynnig - oriau gweithio hyblyg, rhannu swydd ac oriau yn ystod tymor ysgol, gyda'r awdurdod lleol hefyd yn cynnig gwaith shifft, gweithio o gartref a dychwelyd i'r gwaith yn raddol.
Nid yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod gofal plant yn broblem o ran recriwtio a chadw staff ac y maent yn cynnig cynllun taleb gofal plant.
Mae gofal plant yn rhannol yn effeithio ar recriwtio a chadw yn y parc gwyliau gyda fforddiadwyedd yn brif broblem. Maent, fodd bynnag, yn anfon holiadur allan i'w holl stafff i weld a oes digon o alw iddynt agor meithrinfa gofal dydd ar y safle a fydd yn cwrdd ag anghenion gofal plant eu staff.

<u>CWLWM (Mudiadau Ambarél)</u>
<u>Mudiad Meithrin</u>
Graddiwyd y canlynol yn Dda: ansawdd darpariaeth, fforddiadwyedd a darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog
Graddiwyd y canlynol yn Foddhaol: ystod darparwyr, nifer llefydd, addasrwydd amseroedd agor a lleoliad, a hygyrchedd gofal plant.
Graddiwyd y canlynol yn Wael: hyblygrwydd darpariaeth a sesiynau.

Nododd y Mudiad Meithrin fod mwy o ddewis o ddarpariaeth yn y trefi mwy, ond oherwydd natur wledig y sir, does fawr ddim dewis, os o gwbl, mewn ardaloedd megis penrhyn Llŷn a Meirionydd.
Yn gyffredinol, mae ffioedd yn rhesymol, efallai yn rhy isel mewn gofal sesiynol. Mae'r ansawdd yn gyffredinol yn dda oherwydd yr holl gyfraniadau a wnaed i hyfforddiant addas, grantiau a gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau yn y sir.

Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
Teuluoedd ar incwm isel - mae'n bwysig fod y teuluoedd hyn yn ymwybodol o'u hawliau i Addysg Blynyddoedd Cynnar am ddim i blant 3 oed, a Dechrau'n Deg os ydynt yn byw yn yr ardaloedd dynodedig
Teuluoedd gyda phlant ag anableddau -hyfforddiant addas i for staff gofal plant, gwybodaeth gyfoes am unrhyw arian grant sydd ar gael, arian ar gael, mwy o arian i gefnogi'r sawl sydd angen gofal 1-1.
Teuluoedd sy'n gweithio – annog lleoliadau gofal plant i agor am oriau hwy, annog mwy o ddarpariaeth gofleidiol, mwy o gydweithio rhwng darparwyr gofal plant.
Teuluoedd sy'n chwilio am waith – eu cyfeirio at gynlluniau penodol sy'n cefnogi rhieni i ddychwelyd i waith

<u>PACEY Cymru</u>
Cred PACEY Cymru fod Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant i gefnogi cyflwyno gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac uchel eu safon i deuluoedd ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys darparu oriau anghymdeithasol i rieni sy'n gweithio. Mae nifer o ffyrdd o gefnogi gwarchodwyr plant yn lleol i gyrraedd y nod hwn.
Mae PACEY Cymru yn deall fod cefnogaeth i warchodwyr plant cofrestredig a chyn-gofrestedig yng Ngwynedd yn cynnwys: sesiynau briffio, mynediad gyda chymhorthdal i gwrs CYPOP5, cymorth cyntaf i blant a chefnogaeth a chyfarwyddyd gan y Swyddog Datblygu Gofal Plant.
Mae Gwynedd hefyd ar hyn o bryd yn darparu pecyn Cychwyn o Safon PACEY i warchodwyr plant i'w cefnogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Gall lleoliadau gwarchodwyr plant newydd hefyd wneud cais am gefnogaeth grant cychwyn hyd at £200 o werth tuag at eitemau iechyd a diogelwch hanfodol. Mae £100 yn ychwanegol ar gael i gefnogi datblygu'r Gymraeg, neu i gefnogi

DRAFT

lleoliadau newydd i sefydlu yn yr ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer datblygu gofal plant a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
Trwy hyn a gwaith arall, cred PACEY Cymru fod Gwynedd yn gweithio i annog gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac uchel eu safon i deuluoedd ar draws yr awdurdod lleol . Gall hyn gyfrannu at ofal plant sy'n cynnig oriau anghymdeithasol i rieni sy'n gweithio, a chwrdd ag anghenion teuluoedd yn lleol.
Yn unol â datblygiadau cyfredol ynghylch Gofal Plant Rhydd o Dreth (Llywodraeth y DU) a'r cynnig o 30 awr o ofal plant (Llywodraeth Cymru) carai PACEY Cymru amlygu'r angen parhaus i awdurdod lleol Gwynedd sicrhau y parheir i hybu pwysigrwydd defnyddio gofal plant cofrestredig. Bydd canlyniad hyn yn cefnogi fforddiadwyedd i deuluoedd a chynaliadwyedd lleoliadau gofal plant presennol.
Nid oes yr un gwarchodwr plant yn cael ei chyllido i ddarparu addysg Cyfnod Sylfaen na gofal plant Dechrau'n Deg yng Ngwynedd. Cred PACEY Cymru yn gadarn y dylai awdurdod lleol Gwynedd ystyried cyfleoedd i gyrchu cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen i leoliadau gwarchodwyr plant os yw'r lleoliadau yn cwrdd â'r meini prawf a ddiffiniwyd.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Nid oedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn teimlo y gallent roi ymateb penodol i Wynedd, ond dyma rai sylwadau cyffredinol ynghylch Cymru gyfan:
Mae angen parhau ag arian i gynnal darpariaeth gofal plant tu allan i oriau ysgol bresennol a newydd er mwyn sicrhau bod digon ar gael. Yn benodol, mae angen parhau â'r Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol wedi Ebrill 2017. Byddai hyn hefyd yn golygu parhad o'r gefnogaeth i helpu clybiau gofal plant i gofrestru er mwyn cefnogi ansawdd, fforddiadwyedd a chynaladwyedd.
Gwyddom yn gyffredinol ledled Cymru fod angen cynnal darpariaeth bresennol gofal plant y tu allan i'r ysgol ac mewn llawer sir, mae angen o hyd i gynyddu gofal plant y tu allan i'r ysgol, yn enwedig yn ystod y gwyliau ac i blant hŷn (unwaith iddynt fynd i'r ysgol uwchradd). Erys fforddiadwyedd gofal gwyliau yn benodol yn her sylweddol i deuluoedd. Yn ôl yr hanesion a glywn, mae llawer o'n clybiau gwyliau wedi lleihau nifer y dyddiau neu nifer y gwyliau ysgol pan gant eu cynnal, gan ddweud y buasent yn aros ar agor yn hwy os bydd y rheini yn galw. Yr ydym yn meddwl fod rhieni angen clybiau gwyliau, ond nid ar y ffioedd y cynigir hwy. Fodd bynnag, gyda'r staff yn gweithio trwy'r dydd, mae clybiau gwyliau yn ddrud i'w rhedeg a rhaid i ffioedd hefyd fod yn gynaliadwy.
Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs ledled Cymru:
Yr oedd 35% o rieni eisiau cyrchu mwy o ofal adeg gwyliau.
Dywedodd 17% o rieni fod cost yn rhwystr iddynt gyrchu mwy o ofal plant.
Dywedodd 30% o rieni nad oedd gofal gwyliau addas ar gael iddynt.

Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
Teuluoedd ar incwm isel - cefnogi lleoliadau i gofrestru gydag AGGCC a thrwy hynny ganiatáu rhieni i gyrchu credydau treth /

credyd cynhwysol a'r Gofal Plant Rhydd o Dreth sydd i'w gyflwyno toc. Arian digonol i gynllun Llefydd gyda Chymorth ym mhob sir. Gall gwneud adeiladau cyhoeddus, megis ysgolion ac adeiladau cymunedol, ar gael ar gyfradd resymol beri bod Clybiau Tu Allan i'r ysgol yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy i deuluoedd ar incwm isel.
Teuluoedd gyda phlant ag anableddau – mae toriadau wedi gweld darpariaeth i blant ag anghenion ychwanegol yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Yn aml, nid oes gan leoliadau gofal plant yr hyder i ofalu am blant ag anghenion ychwanegol, a byddai hyfforddiant arbenigol i'r staff yn gwneud iddynt deimlo'n ddigon gwybodus a medrus.
Teuluoedd sy'n gweithio - Rhaid i ofal plant fod yn hygyrch, fforddiadwy a hyblyg i gwrdd ag anghenion rheini/gofalwyr, ond mae hyn yn aml yn galw am lawer o gydbwyso, gan fod angen i'r lleoliad gofal plant aros yn gynaliadwy.
Teuluoedd sy'n chwilio am waith – mae ar bob clwb angen help i ennill cofrestriad AGGCC fel y gall rhieni gyrchu help gyda chostau gofal plant.

PPA Cymru

Mae PPA Cymru yn ffodus o dderbyn arian gan yr awdurdod lleol i allu ymweld a rhoi cefnogaeth unigol i aelodau. Mae PPA Cymru hefyd yn cyflogi cydlynydd Cymraeg a chydlynydd Cyfnod Sylfaen, ill dau wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithio ledled Cymru i helpu i sbarduno gwelliannau mewn ansawdd.
Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
Teuluoedd ar incwm isel – Bydd cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru, wedi'i gyflwyno, yn helpu i fynd i'r afael â thlodi yn enwedig y rhai sydd yn profi tlodi "mewn gwaith" ledled Cymru gyfan.
Mae arian ar gyfer llefydd gyda chymorth yn gyfyngedig a rhaid eu blaenoriaethu felly; gall hyn olygu bod rhai plant yn colli cyfleoedd pwysig i gymdeithasu a dysgu trwy chwarae.
I ddarparwyr, gellid cynnig mwy o gefnogaeth i helpu ymarferwyr i ddeall a chefnogi anghenion penodol teuluoedd ar incwm isel.
Teuluoedd â phlant ag anableddau - dyma faes pryder gan yr ymddengys nad yw plant sydd angen cefnogaeth 1-1 o hyd yn gallu cyrchu'r gefnogaeth hon. Bydd angen i ymarferwyr gael cefnogaeth a hyfforddiant cyson er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i blant ag anableddau.
Teuluoedd sy'n gweithio – dylai'r sawl sy'n gweithio mwy na 16 awr elwa o'r cynnig o 30 awr o ofal plant.
Teuluoedd sy'n chwilio am waith – bydd prosiect PaCE yn helpu i dalu am ofal plant tra bod rhieni mewn hyfforddiant neu'n chwilio am waith.

NDNA

Graddiwyd y canlynol yn dda: ansawdd darpariaeth, ystod darparwyr, addasrwydd amseroedd agor, lleoliad a hygyrchedd gofal plant.
Graddiwyd y canlynol yn foddhaol: fforddiadwyedd a hyblygrwydd darpariaeth a sesiynau.

Graddiwyd y canlynol yn wael: darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog. (Gofynnwyd i'r NDNA roi mwy o dystiolaeth am y graddio hwn)

Nododd yr NDNA eu bod yn defnyddio data eilaidd o wefannau AGGCC ac Estyn am ymatebion i'w hymgynghoriad.

Datgelodd arolwg gan yr NDNA fod darparwyr gofal plant yng Nghymru yn cael trafferth i aros mewn busnes oherwydd costau uwch a llai o blant yn cymryd llefydd. Nodwyd yn arbennig ganddynt y bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol newydd yn arwain at gynnydd o 13% mewn costau cyflog.
Mae'r NDNA yn gobeithio y bydd teuluoedd sy'n gweithio a theuluoedd ar incwm isel yn cael eu cefnogi gan gynnig Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant.

DRAFT

## 15. Dadansoddiad Bylchau a Meysydd Gwella

Defnyddiwyd data o ddatganiadau Hunan Asesiad Gwasanaeth AGGCC (HAG) i roi manylion am gyflenwad y gofal plant yng Ngwynedd. Gofynnwyd i'r holl ddarparwyr gwblhau eu HAG yn ystod mis Gorffennaf 2016 (adeg tymor ysgol) ac Awst 2016 (gwyliau'r ysgol). Fodd bynnag gan mai dim ond 81% o leoliadau gofal plant a lenwodd eu HAG nid yw hyn yn rhoi darlun cyflawn i ni o'r cyflenwad gofal plant yn y sir.

Lle bo modd, defnyddiwyd data o Gwynedd-Ni (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) a gwybodaeth leol i ategu data HAG.

**Mathau a Lleoliad Gofal Plant sydd ar gael**

Mae dosbarthiad anwastad iawn o'r holl ddarparwyr gofal plant ar draws Gwynedd; fodd bynnag mae hyn yn wir hefyd am y boblogaeth gyfan.

Ardaloedd 1 a 2 (Bangor a Chaernarfon) sydd â'r cyflenwad mwyaf o bob math o ofal plant a rhain hefyd yw'r ardaloedd mwyaf poblog yn y sir.

Cyflenwad, ac felly ddewis, cyfyngedig sydd o ofal plant yn ardaloedd gwledig Ardal 3 (Llŷn), Ardal 4 (Porthmadog), Ardal 5 (Ffestiniog), Ardal 6 (Dolgellau), Ardal 7 (Penllyn) ac Ardal 8 (Tywyn).

Fodd bynnag, oherwydd y boblogaeth gyfyngedig, rhaid holi a fyddai'n ddichonadwy neu yn gynaliadwy rhedeg gwasanaeth gofal plant yn yr ardaloedd gwledig hyn.

Ymddengys mai gwarchod plant fyddai'r dewis gofal plant gorau yn yr ardaloedd hyn.

Dim ond cyflenwad cyfyngedig sydd o glybiau gwyliau a chynlluniau chwarae adeg gwyliau ac nid ydynt ar gael ym mhob ardal yng Ngwynedd. Unwaith eto, byddai'n rhaid codi cwestiwn am gynaladwyedd unrhyw ddarpariaeth gofal plant newydd adeg gwyliau, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Byddai'n rhaid cynnal astudiaethau dichonolrwydd helaeth i sicrhau digon o gefnogaeth gan rieni cyn gallu sefydlu unrhyw ddarpariaeth gwyliau newydd. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cyflwyno cynnig Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant yn cynyddu'r galw am ddarpariaeth adeg gwyliau.

Dengys data o arolygon rhieni alw am Ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored a Nanis yn ystod y tymor a'r gwyliau. Nid oedd data HAG ar gyfer y naill na'r llall o'r mathau hyn o ofal plant a fawr ddim gwybodaeth leol.

Mae cyflenwad da o leoliadau Gofal Sesiynol ar draws y sir, gyda'r mwyafrif llethol hefyd yn Ddarparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar. Dengys ymatebion i'r holiadur byr i ddarparwyr fod gan lawer bryderon ynghylch eu cynaliadwyedd at y dyfodol, oherwydd y toriadau yn eu cyllid a'r ffaith fod llai o blant yn mynychu. Mae rhieni sy'n gweithio yn cael gofal sesiynol yn fwyaf anodd i'w ddefnyddio am nad yw'n cwrdd â'u gofynion.

Ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd ddim yn rhedeg clwb brecwast am ddim ar y safle.

*Meysydd Gwella:*

- *Mae angen mwy o warchodwyr plant mewn ardaloedd gwledig.*
- *Mae angen cynnal astudiaethau dichonolrwydd mewn ardaloedd heb ddarpariaeth gwyliau i weld a oes digon o gefnogaeth gan rieni i gynnal hyn yn y tymor byr a'r tymor hir.*
- *Mae angen mwy o wybodaeth am nanis yn gweithio yng Ngwynedd, a hefyd annog nanis newydd i gofrestru ar y Rhestr Cymeradwyo Wirfoddol*

**Oedran Plant y mae Gofal Plant ar gael Iddynt**

Gall y gofal plant sydd ar gael yng Ngwynedd gymryd ystod o oedrannau, gyda'r grŵp oedran 0 – 8 oed gyda'r dewis mwyaf.
Ni nododd yr un lleoliad gofal dydd llawn eu bod yn gofalu am blant dros 11 oed, ac ni ddywedodd yr un ymatebydd i'r arolwg rhieni ar-lein eu bod angen gofal plant i blant dros 11 oed.
Mae lleoliadau gofal plant yn hyblyg a buasent yn gofalu am blant hŷn petai galw.

*Nid oes meysydd gwella sylweddol.*

**Fforddiadwyedd Gofal Plant**

Mae rhieni a rhanddeiliaid yn amlygu fforddiadwyedd fel rhwystr i ddefnyddio gofal plant, gyda llawer o rieni yn dibynnu ar deulu neu ffrindiau.
Fodd bynnag, mae llawer o leoliadau gofal plant yn wynebu problemau cynaliadwyedd oherwydd costau cynyddol.
Mae rhai clybiau tu allan i oriau ysgol a Chylchoedd Meithrin heb eu cofrestru ac felly ni all rhieni gyrchu credydau treth i dalu ffioedd.
Mae ymwybyddiaeth o gefnogaeth ariannol a nifer y sawl sy'n manteisio arno yn isel iawn yng Ngwynedd.

*Meysydd Gwella:*

- *Cofrestru darparwyr heb eu cofrestru trwy gynnig cefnogaeth busnes a grantiau cychwynnol.*
- *Hyrwyddo'r ffaith fod elfen gofal plant credyd treth gwaith, credyd cynhwysol a gofal plant rhydd o dreth ar gael i annog mwy o rieni cymwys i fanteisio arnynt.*

DRAFT

**Amseroedd pryd mae Gofal plant ar Gael**
Mae amrywiaeth mawr o amseroedd agor a chau ar draws yr holl ddarparwyr gofal plant.
Gwarchodwyr Plant a Meithrinfeydd Diwrnod Llawn sydd yn rhedeg yr oriau agor hwyaf, gyda'r rhan fwyaf yn agor erbyn 8yb a llawer yn agor cyn 7:30yb bob dydd. Mae'r rhan fwyaf ar agor tan 6yh.
Dim ond un feithrinfa ddydd ac un warchodwraig plant ddywedodd eu bod yn cynnig gwasanaeth ar benwythnosau.
Nid oes yr un lleoliad Gofal Sesiynol ar agor cyn 8:40yb a 3:45yh yw'r amser cau olaf.
Dywedodd 35 o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein nad oedd gofal plant ar gael ar yr adegau pan oeddent hwy ei angen, gyda'r rhan fwyaf eisiau lle oedd ar gael wedi 6yh ac ar benwythnosau.

*Meysydd Gwella:*
- *Cynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr gofal plant presennol i ymestyn eu horiau agor a darparu gofal plant addas i weithwyr shifftiau*

**Darpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg**
Mae'r cyflenwad Gofal Plant Cymraeg neu ddwyieithog ledled y sir yn dda iawn.
Yn ôl data HAG AGGCC:-
Mae 96% o ddarpariaeth Gofal Dydd Llawn naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
Mae 98% o Ofal Dydd Sesiynol naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
Mae 100% o Ofal Tu Allan i Oriau Ysgol naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
Mae 85% o Warchodwyr Plan naill ai yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Ni ddywedodd yr un rhiant a lenwodd yr arolwg ar-lein nad oedd modd iddynt ddod o hyd i ofal plant addas yn Gymraeg.
Mae gan ardaloedd llesiant Tywyn a Bangor lai o ddarpariaeth Gymraeg, sydd yn cyfateb i'r canran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.

*Meysydd Gwella:*
- *Cynnig hyfforddiant i gynyddu nifer a gwella sgiliau staff gofal plant yn y Gymraeg.*

DRAFT

## 16.Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – Cynllun Gweithredu

Rhaid i'r Cynllun Gweithredu gynnwys manylion y gweithredoedd, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir ar gyfer cynnal y cryfderau ac ymateb i'r diffygion a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
Mae'r tablau isod yn nodi'r meysydd hynny sy'n gorfod bwydo mewn i'r asesiad yn unol â'r canllaw statudol.

**Asesu'r Galw a'r Cyflenwad**
Oherwydd y cynnig gofal plant newydd i blant 3 a 4 oed a'r ffaith fod Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth ag Ynys Môn i fod yn "fabwysiadwr cynnar" o Fedi 2017 ymlaen, prif ffocws y gwaith yn y cyfnod nesaf fydd datblygu seilwaith gofal plant o ansawdd uchel i gwrdd â'r galw newydd am ofal plant a sicrhau sefydlogrwydd Dechrau'n Deg a Chyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar o fewn y datblygiad hwnnw. Rhwystr amlwg yng Ngwynedd fydd darparu yn ystod cyfnodau gwyliau.

**Dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw o fewn y ddarpariaeth gofal plant yn ei chyfanrwydd**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| Math a lleoliad y gofal plant sydd ar gael – e.e gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gwarchod plant wedi oriau ysgol | Digon o ofal plant o bob math yn Ardaloedd 1 & 2 | Cyflenwad a dewis cyfyngedig yn rhannau gwledig yr ardaloedd lles eraill | • Gweithdai Parod i Weithredu'r Cynnig – cefnogaeth fusnes i gyd-fynd â'r cynnig newydd.<br>• Cynyddu nifer y gwarchodwyr plant mewn ardaloedd gwledig.<br>• Astudio dichonolrwydd darparu yn ystod y gwyliau.<br>• Cynnal deialog a chynyddu ymwybyddiaeth yr Adran Addysg o glybiau tu allan i oriau ysgol, clybiau amgylchynu *(wraparound)* a chlybiau gwyliau. Ymchwilio i ymarferoldeb gofal plant wedi ei leoli mewn ysgolion ac | Medi 2017 – darparu o fewn yr ardaloedd peilot am 30 awr |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | adnabod y ffactorau sy'n rhwystro ehangu'r gwasanaeth ar safleoedd presennol a'i ymestyn i safleoedd ysgol eraill.<br>• Grantiau sefydlu gofal plant.<br>• Datblygu'r gweithlu. | |
| Gofal Plant fforddiadwy | Amrediad costau ar draws y sir. Cyllid cymorth i dalu am leoedd ar gael ym mhob ardal. Darpariaeth ddigonol na chaiff ei gynnal â grant ar gael ar gyfer cynlluniau Dechrau'n Deg a Chyfnod Sylfaen yng Ngwynedd. | Rhieni'n aneglur ynghylch y cymorth sydd ar gael i'w helpu i dalu am ofal plant. Nifer o leoliadau anghofrestredig gofal plant lle na all rhieni gael mynediad at gefnogaeth ariannol. Nifer o rieni ddim yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn Addysg Blynyddoedd Cynnar di-dâl. | • Gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a'r cymorth ariannol sydd ar gael.<br>• Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy'r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill.<br>• Cofrestru darparwyr anghofrestredig drwy gynnig cefnogaeth fusnes a grantiau cychwyn busnes.<br>• Cynnal trafodaethau strategol gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru a Cwlwm i sicrhau ffioedd gofal plant cynaliadwy ar gyfer Dechrau'n Deg, y Blynyddoedd Cynnar a'r cynnig 30 awr.<br>• Dadansoddi'r data a gasglwyd yn arolwg Alma Economics. | |
| Yr adegau y mae gofal plant ar gael, yn cynnwys yr angen am ofal | Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal dydd llawn a gwarchodwyr plant yn cynnig gwasanaeth hyblyg | Nid yw gofal dydd sesiynol yn gyffredinol yn cwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio. | • Cynnig cymhellion ariannol i annog y darparwyr gofal plant presennol i ymestyn eu horiau darparu gofal plant addas ar | |

DRAFT

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| plant hyblyg sy'n cwrdd â phatrymau defnydd afreolaidd yn ystod y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn. | i rieni gyda'r rhan fwyaf ar agor cyn 8yb. | Nifer cyfyngedig sy'n cynnig eu gwasanaeth ar benwythnos neu wedi 6yh, fel eu bod yn anaddas ar gyfer gweithwyr shifftiau.<br><br>Mae gofal plant yn ystod pob gwyliau ysgol yn gyfyngedig. | gyfer gweithwyr shifftiau.<br>• Cynyddu nifer y darparwyr gofal plant mewn ardaloedd gwledig.<br>• Astudio dichonolrwydd y ddarpariaeth yn ystod y gwyliau a chynyddu nifer y darparwyr. | |
| Gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg | Mae'r ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol ym mhob rhan o Wynedd. | Mae llai o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardaloedd lles Tywyn a Bangor gan adlewyrchu canran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yno. | • Cynnig hyfforddiant i gynyddu nifer ac uwchsgilio staff sy'n medru darparu gofal plant yn yr iaith Gymraeg.<br>• Targedu cymhellion grant tuag at gynnig gwasanaeth dwyieithog. | |

**Materion sy'n effeithio ar gategorïau penodol o rieni mewn perthynas â'r ddarpariaeth gofal plant**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni sy'n gweithio | Mae gofal plant digonol ar gael yn ardaloedd lles Bangor a Chaernarfon. | Nid yw'r gofal plant yn addas ar gyfer gweithwyr shifftiau. Mae'r cyflenwad a'r dewis yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig. | • Cynnig cymhellion ariannol i annog y darparwyr gofal plant presennol i ymestyn eu horiau agor a darparu gofal plant addas ar gyfer gweithwyr shifftiau.<br>• Cynyddu nifer y darparwyr gofal plant mewn ardaloedd gwledig. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni sy’n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi | Mae PACE yn cynnig cefnogaeth gofal plant i rieni sy’n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi. | Gofal plant fforddiadwy | • Darparu gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a’r gefnogaeth ariannol sydd ar gael.<br>• Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy’r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill. | |
| Cartrefi lle nad oes neb mewn gwaith | Mae’r hawliau Dechrau’n Deg (chwe ardal yng Ngwynedd) a Blynyddoedd Cynnar ar gael i’r di-waith. Darperir cefnogaeth gofal plant i deuluoedd bregus drwy gyfeiriadau sydd wedi eu cydlynu gan y Tîm Amgylch y Teulu. | Gofal plant fforddiadwy | • Darparu gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a’r gefnogaeth ariannol sydd ar gael.<br>• Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy’r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill. | |
| Teuluoedd ar incwm isel | Mae’r hawliau Dechrau’n Deg (chwe ardal yng Ngwynedd) a Blynyddoedd Cynnar ar gael i bob teulu. Darperir cefnogaeth gofal plant i deuluoedd bregus drwy gyfeiriadau sydd wedi eu cydlynu gan y Tîm Amgylch y Teulu. | Gofal plant fforddiadwy | • Darparu gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a’r gefnogaeth ariannol sydd ar gael.<br>• Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy’r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill. | |
| Teuluoedd un rhiant | Mae’r hawliau Dechrau’n Deg (chwe ardal yng Ngwynedd) a Blynyddoedd Cynnar ar gael i bob teulu. | Gofal plant fforddiadwy | • Darparu gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a’r gefnogaeth ariannol sydd ar gael. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Darperir cefnogaeth gofal plant i deuluoedd bregus drwy gyfeiriadau sydd wedi eu cydlynu gan y Tîm Amgylch y Teulu. | | • Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy'r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill. | |
| Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | Canran isel o deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Ngwynedd ac mae pob darpariaeth gofal plant yn gynhwysol. Mae'r hawliau Dechrau'n Deg (chwe ardal yng Ngwynedd) a Blynyddoedd Cynnar ar gael i bawb.<br>Darperir cefnogaeth gofal plant i deuluoedd bregus drwy gyfeiriadau cydlynol Timau o Amgylch y Teulu. | Nid yw'r gofal plant yn addas ar gyfer gweithwyr shifftiau. Mae'r cyflenwad a'r dewis yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig. | • Darparu gwybodaeth gyfredol am y dewisiadau gofal plant a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael.<br>• Codi ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) drwy'r cyfryngau a strategaethau marchnata eraill. | |
| Teuluoedd â phlant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd | Darperir cyllid dwylo ychwanegol i blant Anghenion Dysgu Ychwanegol. | Dim darpariaeth tu allan i oriau ysgol yn Ysgolion Arbennig Gwynedd. | • Ymgysylltu â phartneriaid amlasiantaethol, yn arbennig yr Ysgolion Arbenigol i sefydlu gweithgor ag iddo'r dasg o adnabod ac ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu gofal plant tu allan i oriau ysgol.<br>• Adolygu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol ar y cyd ag Ynys Môn. | |

DRAFT

**Materion eraill y dylid eu cadw mewn cof yn y cynllun gweithredu**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Milestones |
|---|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd y sector gofal plant | Cefnogaeth gan yr Awdurdod a phartneriaid Cwlwm i ddatblygu'r gweithlu.<br>Grantiau cynaliadwyedd ar gael. | Costau'n cynyddu – yr isafswm cyflog cenedlaethol, pensiynau, costau cyflogres, trethi busnes, swyddogaeth pwyllgorau gwirfoddol, costau rhent etc. | Cefnogaeth fusnes<br>Yr Awdurdod yn parhau i sybsideiddio hyfforddiant.<br>Cefnogaeth grant gan yr Awdurdod.<br>Cynnal trafodaethau strategol gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru a Cwlwm i sicrhau ffioedd gofal plant cynaliadwy ar gyfer Dechrau'n Deg, y Blynyddoedd Cynnar a'r cynnig 30 awr. | |
| Trefniadau traws ffiniol | Rhieni o du allan y sir yn cael mynediad at ofal plant yng Ngwynedd ond heb gael eu sybsideiddio gan Gyngor Gwynedd. | Dim trefniadau yn eu lle i ariannu Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar mewn lleoliadau nas gynhelir. | Sefydlu Uned Cefnogi Gofal Plant Gwynedd ac Ynys Môn.<br>Sefydlu grŵp strategol gofal plant traws sirol.<br>Astudio dichonolrwydd trefniadau traws sirol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Trafod taliadau traws ffiniol mewn perthynas â'r cynnig Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.<br>Comisiynu traws ffiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu a chefnogi gofal plant. | |
| Datblygu a hyfforddi'r gweithlu | Yr Awdurdod yn cynnig hyfforddiant gorfodol helaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i weithwyr blynyddoedd cynnar a gofal | Nododd holiaduron y Datganiad Hunanasesiad Gwasanaeth (HAG) nad oedd darparwyr gofal | Comisiynu traws ffiniol.<br>Gwneud darparwyr gofal plant yn fwy ymwybodol o'r fframwaith cymwysterau cyfreithiol.<br>Ymgysylltu â sefydliadau ambarél er | |

DRAFT

Tud. 167

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | plant yng Ngwynedd.<br>Yr Awdurdod yn comisiynu hyfforddiant gan gyrff ambarél<br>Mae gan Wynedd lefel uchel o staff hyfforddedig.<br>Partneriaeth dda â cholegau lleol. | plant yn ymwybodol o fframwaith cymwysterau Cyngor Gofal Cymru - SkillsActive Cymru. | mwyn cynnal awdit o anghenion datblygu gweithlu'r dyfodol.<br>Diweddaru'r bas data electronig newydd drwy gynnwys cymwysterau staff. | |
| Gweithio mewn partneriaeth | Cyfeiria partneriaid Cwlwm at bartneriaeth dda â Chyngor Gwynedd i gefnogi'r sector gofal plant yn lleol.<br>Mae'r ansawdd yn gyffredinol dda oherwydd yr holl fewnbwn i hyfforddiant, grantiau, a chydweithio rhwng y gwahanol asiantaethau sy'n bodoli yn y sir.<br>Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar wastad wedi cydweithio'n agos â'r Adran Addysg mewn perthynas â chyllido Addysg Blynyddoedd Cynnar ac wedi sicrhau fod digon o leoliadau nas cynhelir i gwrdd ag anghenion rhieni ar draws y sir. | Nid yw'r holl bartneriaid Cwlwm yn mynychu cyfarfodydd y grŵp datblygu gofal plant. | Sefydlu grŵp strategol gofal plant traws sirol.<br>Cydweithio'n agos ag Adran yr Economi a Chymuned i ddatblygu darparwyr gofal plant newydd.<br>Cydweithio â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. | |

DRAFT